

Deall diwylliant (Addysg)

Sut mae system ysgol Prydain Fawr wedi'i threfnu?

Beth oedd hanes y system Addysg tan y 1970au?

Bwledi

- Roedd y system Addysg a sefydlwyd ym 1945 yn ffafrio plant dosbarth canol.
- Roedd yn boblogaidd ymysg llawer o rieni.
- Mewn rhannau o Brydain, fe'i newidiwyd i ysgolion cyfun yn y 1970au.

Testun

Yn y 1950au, roedd gan y rhan fwyaf o ardaloedd o Gymru a Lloegr system debyg iawn o addysg ar gyfer plant rhwng 5 a 15 oed. Sefydlwyd y system hon o ganlyniad i Ddeddf Addysg 1945. Roedd plant oll yn sefyll arholiad o'r enw'r 11 + a dyrannwyd ysgol iddynt ar sail eu cyflawniad yn hwnnw. Roedd y rheiny yr ystyriwyd eu bod yn fwy academiaidd yn mynychu Ysgolion Gramadeg a oedd yn addysgu cwricwlwm academiaidd iawn ac aeth y rheiny yr ystyriwyd eu bod yn llai galluog i Ysgolion Uwchradd Modern a oedd yn addysgu pynciau ymarferol fel gwaith metel a gwaith saer i fechgyn a gwnïo a choginio i ferched.

Y bwriad oedd i'r system hon fod yr un mor deg i bob plentyn, ond yn ymarferol, roedd mwy o leoedd academiaidd mewn ysgolion gramadeg yn cael eu dyrannu i fechgyn nag i ferched. Yn ogystal, roedd ysgolion gramadeg, a oedd yn paratoi plant ar gyfer y brifysgol a swyddi a oedd yn talu'n dda yn llenwi gyda phlant dosbarth canol. Erbyn y 1960au, bu pryder mawr mewn rhai ardaloedd fod y system yn annheg ac yn anghyfartal. Fodd bynnag, roedd llawer o rieni'n hoff o'r ysgolion gramadeg gan fod eu plant yn cael addysg a oedd yn anelu at lwyddiant academiaidd.

Ym 1965, anfonodd llywodraeth Lafur wan ac amhoblogaidd gylchlythyr i bob Awdurdod Addysg, a oedd wedi cael ei alw'n 10/65. Roedd hyn yn dweud wrth awdurdodau addysg lleol, a oedd yn cael eu rhedeg gan gynghorau lleol, y dylent baratoi ar gyfer ysgolion cyfun. Byddai'r rhain yn ysgolion unigol a fyddai'n derbyn plant o bob gallu ni waeth beth oedd eu llwyddiant. Mewn rhai ardaloedd, newidiodd awdurdodau addysg lleol i'r system newydd hon o addysgu plant yn gyflym iawn. Mewn ardaloedd eraill, methodd awdurdodau addysg lleol â chyflwyno cynlluniau ymarferol, ac yn yr ardaloedd hyn, mae ysgolion gramadeg yn parhau.

Cwestiynau

1. Pa ddadleuon sydd o blaid ysgolion gramadeg?
2. Pa ddadleuon sydd yn erbyn ysgolion gramadeg?

Allweddeiriau

- Cydraddoldeb - mae gan bawb yr un cyfle
- Ysgolion Gramadeg - yn addysgu pynciau traddodiadol.
- Ysgolion cyfun - yn addysgu plant o bob gallu.
- Cylchlythyr 10/65 - cyfarwyddyd yn dweud wrth awdurdodau addysg i fynd yn gyfun.

Deall diwylliant (Addysg)

Sut mae system ysgol Prydain Fawr wedi'i threfnu?

Bwledi

- Rhaid addysgu pob plentyn.
- Mae systemau addysg yn newid gydag amser.
- Mae systemau addysg yn wahanol mewn rhannau gwahanol o'r wlad.
- Mae ariannu ysgolion yn amrywio yn ôl y math o ysgol.

Testun

Er bod y rhan fwyaf o blant yn y DU yn mynychu ysgolion cynradd lleol rhwng 5 ac 11 oed, mae amrywiaeth o fathau gwahanol o ysgolion uwchradd ar gyfer plant rhwng 11 ac 16 oed. Mae'r rhesymau dros hyn yn ymwneud â newidiadau ym mholisi'r llywodraeth gydag amser. Mae llywodraethau wedi newid eu barn am sut y dylai ysgolion gael eu trefnu am resymau ymarferol, ideolegol ac economaidd.

Mewn rhai ardaloedd o'r wlad, ceir ysgolion gramadeg ac ysgolion uwchradd modern neu ysgolion cyfun, mewn ardaloedd eraill ceir ysgolion cyfun yn unig, ac mewn rhai trefydd, mae yno academiâu dinas, ysgolion a cholegau arbenigol, ysgolion annibynnol ac ysgolion ffydd. Dyrennir arian i'r ysgolion hyn mewn gwahanol ffyrdd. Gall rhai ysgolion ddewis y plant y byddant yn eu haddysgu ac mae'n rhaid i eraill dderbyn unrhyw un sy'n gwneud cais iddynt am le.

Yr hyn y dylech ei ddeall yw bod y system addysg sydd gennym nawr yn deillio o newid cymdeithasol a gwleidyddol gydag amser.

Cwestiynau

1. Petai gennych y cyfle i gynllunio system addysg ar gyfer y wlad, pa fath o system fyddai hi?

Allweddeiriau

- Addysg - Dysgu sy'n gallu bod yn ffurfiol neu'n anffurfiol.
- Ysgolion Gramadeg - yn addysgu pynciau traddodiadol.
- Ysgolion cyfun - yn addysgu plant o bob oedran.

Beth oedd dylanwad y Dde Newydd ar addysg?

Bwledi

- Roedd llywodraethau Ceidwadol yn gwrthwynebu ysgolion cyfun.
- Credai llywodraethau Ceidwadol yng ngrymoedd y farchnad a chystadleuaeth rhwng ysgolion.
- Maent wedi annog amrywiaeth o ysgolion gwahanol i ddatblygu.
- Mae'r Blaid Lafur wedi parhau â'r polisi hwn.

Testun

Roedd llywodraeth Geidwadol 1979 wedi gwrthwynebu'r polisi ysgolion cyfun. Roedd ganddynt wrthwynebiad ideolegol i ysgolion cyfun, gan eu bod o'r farn y dylai addysg fod

Deall diwylliant (Addysg)

yn ddetholus, gyda phlant galluog yn cael addysg wahanol i fyfyrwyr gwannach. Yn ogystal, nid ystyriwyd bod llawer o'r ysgolion cyfun cynnar yn llwyddiant. Roedd yr ysgolion cyfun newydd hyn yn aml yn fawr iawn gan gynnwys dau neu dri o ysgolion a oedd wedi cael eu cyfuno yn un ysgol newydd; rhannwyd rhai rhwng dau safle, weithiau filltiroedd ar wahân, a chafodd staff yr ysgolion cyfunol eu gosod mewn cystadleuaeth am swyddi ac nid oeddent bob amser yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.

Roedd 1979 yn drobwynt yng nghymdeithas Prydain oherwydd daeth llywodraeth Geidwadol ideolegol iawn i rym, wedi'i harwain gan Margaret Thatcher. Mae'r llywodraeth hon yn cael ei hadnabod gyda set o gredoau sy'n cael eu hadnabod fel y Dde Newydd. Cred y Dde Newydd nad oes angen rheolau ar gyfer cymdeithas oherwydd gellir dibynnu ar ffactorau economaidd (grymoedd y farchnad). Effeithiodd hyn ar ysgolion, oherwydd credai'r Dde Newydd na allent wella oni bai eu bod yn cael eu hannog i gystadlu â'i gilydd am fyfyrwyr. Un o'r ffyrdd y gwnaethant hyn oedd drwy sicrhau bod ysgolion awdurdodau lleol yn cael mwy o reolaeth dros eu harian eu hunain a hefyd eu bod yn cael eu hariannu yn ôl nifer y disgyblion a addysgwyd ynddynt.

Roedd y gred hon yng ngrymoedd y farchnad, ynghyd â blaenoriaethau eraill y Dde Newydd o hyfforddi pobl ar gyfer y gwaith a chreu gwerth am arian wedi cael effeithiau pellgyrhaeddol ar y system addysg ym Mhrydain. Cafodd y broses hon o gael mathau gwahanol o ysgolion ac ariannu ei datblygu a'i haddasu yn hytrach na'i hatal gan y llywodraeth Lafur a ddaeth i rym ym 1997.

Cwestiynau

1. Pa broblemau a fu gyda'r ysgolion cyfun cynnar?
2. Beth yw nodweddion meddwl y Dde Newydd ynghylch ymddygiad dynol?
3. A ddylai ysgolion gystadlu am y myfyrwyr gorau?

Allwedddeiriau

- Ceidwadaeth - cred ym mhwysigrwydd gwerthoedd traddodiadol a chystadleuaeth.
- Grymoedd y farchnad - y syniad bod ymddygiad dynol yn cael ei lywodraethu gan yr economi.
- Y Dde Newydd - ffurf draddodiadol iawn o Geidwadaeth.

Pa fathau o ysgolion sydd i gael?

Bwledi

- Caiff ysgolion eu hariannu gydag arian cyhoeddus a phreifat.
- Mae rhai ysgolion yn cael eu rheoli gan awdurdodau lleol ond caiff eraill eu rheoli gan fusnesau neu elusennau.
- Mae llawer o wahanol fathau o ysgol.

Testun

Deall diwylliant (Addysg)

Mae mathau gwahanol o ariannu ysgolion a mathau gwahanol o ysgolion. Yn ymarferol, mae'r mathau o ysgolion y gallech ddod ar eu traws mewn ardal yn dibynnu ar le ydych chi yn y wlad.

Mae ysgolion cymunedol ym mherchnogaeth awdurdodau lleol sy'n dyrannu arian ac sy'n cyflogi staff. Mae'n debyg mai dyma'r math mwyaf cyffredin o ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys ysgolion gramadeg, ysgolion cyfun, ac ysgolion uwchradd modern.

Mae gan ysgolion sefydledig (foundation)fwy o ryddid nag ysgolion cymunedol oherwydd gall y corff llywodraethu ddewis disgyblion a chyflogi staff. Gall yr ysgolion hyn gynnwys ysgolion cyfun ac ysgolion gramadeg.

Mae ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ym mherchnogaeth elusennau ac maent yn cyflogi staff. Gallant fod yn ysgolion ffydd crefyddol. Mae Colegau Technoleg Dinas yn annibynnol ar Awdurdodau Lleol, ond nid ydynt yn codi ffioedd. Tueddant i gynnig cymwysterau galwedigaethol.

Mae Academiâu Dinas yn annibynnol ar awdurdodau lleol a chaiff llawer ohonynt eu hariannu gan fusnesau neu elusennau. Roeddent yn aml yn cael eu sefydlu ar safleoedd ysgolion a oedd yn methu ac mae llawer ohonynt yn cynnig addysg alwedigaethol. Maent wedi bod yn ddadleuol.

Mewn rhai ardaloedd, mae'n bosibl hefyd y gwelir Ysgolion Annibynnol sydd fel arfer yn cael eu rhedeg fel busnesau ac sy'n codi ffioedd ar rieni. Mae tua 2,300 o ysgolion o'r fath yn y wlad.

Mae ysgolion arbenigol yn cael cyllid ychwanegol i sefydlu canolfan ragoriaeth mewn rhai meysydd pwnc, er bod rhaid iddynt addysgu'r cwricwlwm cyfan. Mae dros 2,600 o ysgolion o'r fath yn Lloegr. Yng Nghymru, rydych hefyd yn cael ysgolion cymunedol sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cwestiynau

1. A ddylai rhieni fod yn gallu talu i gael addysg well i'w plant nag y gall eraill ei fforddio?

Allweddeiriau

- Awdurdodau lleol - Y rheiny sy'n cael eu cynnal gan gynghorau ac sy'n gweinyddu eu gwasanaeth addysg ymysg pethau eraill.
- Addysg alwedigaethol - addysg ar gyfer gwaith.

A yw ysgolion yn amrywio yn eu hansawdd?

Bwledi

- Mae pryder o hyd bod y system addysg ym Mhrydain yn gymhleth.
- Ymddengys o hyd bod plant cyfoethocach yn gwneud yn well na phlant tlotach.
- Mae ysgolion sydd â chanlyniadau da yn cael eu hariannu'n well nag ysgolion mewn ardaloedd tlotach.

Deall diwylliant (Addysg)

Testun

Mae ysgolion yn amrywio'n wahanol mewn ansawdd. Cyhoeddir tablau o ganlyniadau ac mewn egwyddor, gall rhieni ddewis yr ysgolion y dymunant anfon eu plant iddynt. Yn ymarferol, gall ysgolion poblogaidd ddewis y disgyblion y dymunant eu haddysgu. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i ysgolion eraill gymryd unrhyw ddisgyblion sy'n gwneud cais iddynt. Mae'r Llywodraeth wedi creu gwefan gyngor i rieni.

Er gwaethaf yr ymdrechion a wnaed i wella ysgolion gan lywodraethau ers y 1940au, mae pryder o hyd bod safonau mewn llawer o ysgolion yn isel iawn.

Yn ogystal, yn 2003, rhoddwyd arian ychwanegol i ysgolion poblogaidd a oedd â chanlyniadau da fel y gallent ehangu i dderbyn mwy o ddisgyblion.

Mewn ardaloedd lle mae llawer o gystadleuaeth am leoedd mewn ysgolion poblogaidd, mae rhieni wedi troi at bob math o strategaethau i sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgolion hynny. Mae'n bosibl bod hyn yn haws i rieni cyfoethocach nag i rieni tlotach.

Cwestiynau

1. Beth ellid ei wneud i wella'r system addysg ym Mhrydain?

Allweddeiriau

- Tablau cynghair - mae canlyniadau ysgolion yn wybodaeth gyhoeddus ac fe'u cyhoeddir mewn papurau newydd.

Beth yw pwrpas addysg?

Beth yw pwrpas addysg?

Bwledi

- Mae pawb yn dysgu drwy gydol eu bywydau.
- Dysgu yw'r adeg pan fydd pobl yn ceisio gwybodaeth.
- Addysg yw'r adeg pan fydd gwybodaeth yn cael ei darparu i bobl.
- Mae addysg anffurfiol yn cael ei meddiannu drwy gydol bywyd.
- Bydd addysg ffurfiol yn digwydd mewn sefydliadau arbennig.
- Ceir addysg sydd heb fod yn ffurfiol drwy ddosbarthiadau a chlybiau.

Testun

Dysgu yw'r broses o gael sgil neu wybodaeth newydd. Mae pobl yn dysgu drwy gydol eu bywydau. Mae angen i ni gael sgiliau newydd a gwybodaeth newydd yn gyflym. Mae oedolion yn addysgu pethau i blant ac i'w gilydd y pethau hynny sydd eu hangen arnynt er mwyn i'w diwylliant oroesi. Yn y gorffennol ac mewn llawer o wledydd datblygol byddai hyn wedi cael ei wneud drwy lafur plant. Byddai plant yn dysgu'n uniongyrchol oddi wrth oedolion wrth iddynt weithio. Byddai llawer o wybodaeth wedi cael ei drosglwyddo drwy leferydd a dim ond ar ychydig o bobl y byddai angen hyd yn oed y sgiliau sylfaenol arnynt i allu ysgrifennu eu henw eu hunain, er y byddai mwy o bobl wedi gallu darllen nag a allai ysgrifennu. Hyd yn oed heddiw, rydym yn dysgu sgiliau angenrheidiol oddi wrth bobl o'n

Deall diwylliant (Addysg)

cwmpas a'r enw ar y broses hon yw addysg anffurfiol (cymdeithasoli).

Mae addysg yn broses y mae pobl yn trosglwyddo gwybodaeth neu sgiliau drwyddi. Datblygodd systemau addysg ffurfiol lle'r addysgwyd sgiliau penodol i blant a chawsant eu profi ar eu gwybodaeth drwy sefydliadau crefyddol ym Mhrydain yn y Canol Oesoedd. Nifer fach o blant a gafodd eu haddysgu; nid ystyriwyd bod angen addysgu merched. Cafwyd y Ddeddf gyntaf gan y llywodraeth yn gosod addysg orfodol ym Mhrydain ym 1880 a'r pryd hwnnw, roedd wedi'i chynllunio'n rhannol i ddod â llafur plant mewn ffatrioedd i derfyn a dim ond ar blant 5 - 10 oed yr oedd yn effeithio. Roedd hefyd yn ateb y diben o ddarparu gweithlu wedi'i hyfforddi a oedd yn gallu gweithredu peiriannau a thechnoleg newydd.

Yn ogystal, mae llawer o bobl yn mwynhau addysgu sydd heb fod yn ffurfiol mewn clybiau a dosbarthiadau o amrywiol fathau. Gallent gael tystysgrifau neu yn syml, byddant yn cael y sgiliau newydd sydd eu hangen arnynt. Mae hyn yn gysylltiedig â'r syniad o ddysgu gydol oes lle mae pobl yn cael sgiliau newydd sydd eu hangen i ddelio â chymdeithas sy'n newid. Nid yw'r gwahaniaethau rhwng addysg ffurfiol ac addysg sydd heb fod yn ffurfiol bob amser yn amlwg, nid oes gan bob dosbarth yn yr ysgol arholiadau a gall dosbarthiadau nos fod yn academiaidd iawn.

Cwestiynau

1. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng addysg a dysgu?
2. Beth yw'r gwahaniaethau rhwng addysg ffurfiol ac addysg anffurfiol?
3. Pam mae angen dysgu gydol oes ar bobl?

Allweddeiriau

- Dysgu - dyma pan fydd dysgwr yn cael sgiliau newydd.
- Addysg - dyma'r broses o drosglwyddo sgiliau a gwybodaeth.
- Addysg ffurfiol - Darperir hwn mewn sefydliadau sydd at bwrpas cynnig addysgu a phrofi cynnydd myfyrwyr.
- Addysg anffurfiol - Mae pobl yn dysgu pethau drwy'r broses o fyw eu bywydau.
- Addysg sydd heb fod yn ffurfiol - mae pobl yn mynychu dosbarthiadau a grwpiau cymdeithasol i ddysgu er y pleser o ddysgu.

Mae addysg yn system ar gyfer cymdeithasoli pobl ifanc

Bwledi

- Mae ysgolion yn cymdeithasoli plant mewn gwerthoedd diwylliannol.
- Mae ysgolion yn gosod rheolau ac awdurdod.
- Mae addysg hefyd yn trosglwyddo gwerthoedd ac ymagweddau disgwylidig sy'n cymdeithasoli plant, ond nad ydynt o bosibl yn amlwg hyd yn oed i'r athrawon sy'n eu trosglwyddo.

Testun

Cymdeithasoli yw'r broses o ddysgu'r rheolau a'r wybodaeth y mae diwylliant yn rhoi gwerth arnynt. Un o'r asiantau cymdeithasoli eilaidd a phwysicaf yw'r system addysg. Caiff ei alw'n asiant cymdeithasoli ffurfiol, gan fod ysgolion a systemau addysg yn mynd ar drywydd bwriadol i ddylanwadu ar ymddygiad pobl. mae'r broses yma hefyd yn cael ei

Deall diwylliant (Addysg)

alw'n rheolaeth gymdeithasol.

Mae ysgolion yn bodoli er mwyn rheoli ymddygiad. Caiff plant eu haddysgu i ufuddhau i awdurdod a pharchu rheolau. Gwneir hyn drwy gyfres o brosesau cymhleth, rhai ohonynt y mae plant yn llwyr ymwybodol ohonynt - systemau disgyblu, cosbau, llyfrau rheolau. Nid yw rhai o'r pethau sy'n cael eu haddysgu i blant yn amlwg, ond er hynny maent o hyd yn llunio rhan o'r broses gymdeithasoli. Cafodd y cymdeithasoli nad yw plant yn ymwybodol ohono ei ddisgrifio'n gyntaf gan nifer o awduron ac fe'i cysylltir â Phillip Jackson ymysg eraill. Dywedodd Jackson fod angen i blant nid yn unig gael gwybodaeth os ydynt yn mynd i lwyddo, ond bod angen iddynt gydymffurfio i ymddygiad cymdeithasol derbyniol yr ysgol. Gelwir y wybodaeth ddyfnach hon yn 'gwricwlwm cudd' ac mae'n disgrifio agweddau ac ymagweddau'r ysgol gyfan. Dywed Pat McNeil (1986) fod hyn yn cynnwys gwybodaeth fel sut i ddod ymlaen ag athrawon a disgyblion eraill, sut i ymdopi â syrffed a sut i gydymffurfio.

Mae'r term cwricwlwm cudd bellach yn cael ei ddefnyddio amlaf gan ffeministiaid a Marcsywyr i ddisgrifio'r ffyrdd y gall dosbarth cymdeithasol a rhyw gael eu trosglwyddo gan ysgolion. Gwnaeth ffeministiaid fel Dale Spender y sylw yn y 1970au fod llyfrau darllen ysgol yn aml yn dangos merched yn coginio ac yn helpu mam, tra caniatawyd i fechgyn gael anturiaethau ac i fod yn fywiog. Mae Abbot a Wallace yn dangos bod rheolwyr mewn ysgolion yn aml yn wrywaidd er bod athrawon yn fenywaidd. Awgrymodd Stanworth nad oedd athrawon yn llawn werthfawrogi galluoedd merched.

Cwestiynau

1. Pa reolau anysgrifenedig sydd eu hangen arnoch i lwyddo yn yr ysgol?
2. Pa elfennau o'r cwricwlwm cudd y gallwch eu nodi yn eich ysgol neu eich coleg?

Allweddeiriau

- Cymdeithasoli - y broses o ddysgu'r rheolau ar gyfer cymdeithas.
- Cwricwlwm cudd - y gwerthoedd a drosglwyddir gan ysgolion heb fod pobl yn sylweddoli arnynt.

Mae ysgolion yn trosglwyddo gwybodaeth sy'n cael ei chyfrif yn werthfawr

Bwledi

- Mae diwylliant dosbarth canol yn cael ei ystyried yn fwy gwerthfawr na diwylliant dosbarth gweithiol
- Mae ysgolion yn trosglwyddo gwerthoedd dosbarth canol i blant
- Mae plant dosbarth canol yn dysgu eu bod yn gallu llwyddo
- Mae ysgolion yn cefnu ar blant dosbarth gweithiol ac mae'r plant yn eu tro yn cefnu ar ysgolion
- Mae gan blant dosbarth canol fynediad i gyfalaf diwylliannol ac mae hyn yn helpu iddynt llwyddo mewn addysg

Testun

Deall diwylliant (Addysg)

Mae diwylliant uchel-ael yn cyfeirio at y mathau o wybodaeth sy'n galw am rywfaint o addysg er mwyn ei werthfawrogi'n llawn: celf, cerddoriaeth glasurol, bale, opera, a llenyddiaeth. Mae hyn yn gysylltiedig â gwerthoedd dosbarth canol a chaiff ei drosglwyddo drwy ysgolion. Diwylliant torfol yw'r math o wybodaeth y caiff pobl o'r cyfryngau ac mae'n tueddu i fod yn ddiwylliant dosbarth gweithiol. Mae'n cynnwys gwybodaeth am chwaraeon, adloniant ac nid yw'n galw am addysg, er y gall fod mor anodd ei gaffael â diwylliant uchel-ael. Nid yw pob gwybodaeth yn cael ei werthfawrogi'n gyfartal gan y gymdeithas, a diwylliant uchel-ael sy'n cael ei drosglwyddo gan athrawon ac ysgolion.

Un o'r awduron mwyaf dylanwadol yn y maes hwn yw Pierre Bourdieu (1986). Dywed ef fod ysgolion yn gwerthfawrogi gwybodaeth dosbarth canol yn fwy nag y maent yn gwerthfawrogi diwylliant dosbarth gweithiol. Mae hyn yn rhoi mantais i rai plant yn yr ysgol gan eu bod yn cymdeithasoli yn yr un gwerthoedd ag athrawon. Mae Pierre Bourdieu yn defnyddio'r term cyfalaf diwylliannol i ddisgrifio'r wybodaeth a'r sgiliau y mae cymdeithas yn eu gwerthfawrogi, sy'n galluogi i bobl sy'n meddu arnynt lwyddo mewn bywyd a chael mwy o barch. Dywed Bourdieu fod llawer o blant dosbarth gweithiol yn dod yn ymwybodol, drwy gymdeithasoli, bod y system addysg yn gweithredu yn ôl rheolau nad ydynt yn eu deall. Maent yn tynnu eu hunain o'r gystadleuaeth drwy ymadael ag ysgolion yn gynnar. Caiff hyn ei gefnogi gan lawer o awduron, gan gynnwys Robin Nash sy'n dweud bod cyfalaf diwylliannol yn aml yn effeithio ar y ffyrdd y mae athrawon a disgyblion yn rhngweithio, fel y gall athrawon drin plant yn wahanol oherwydd eu hymwybyddiaeth o'r cefndir teuluol.

Cwestiynau

1. Pa dystiolaeth sydd fod diwylliant dosbarth canol yn cael ei ystyried yn 'well' na diwylliant dosbarth gweithiol?
2. Eglurwch y cysyniad o gyfalaf diwylliannol.

Allweddeiriau

- Diwylliant uchel-ael - gwybodaeth am y diwylliant sy'n gofyn am addysg i'w deall.
- Diwylliant torfol - gwybodaeth sydd o fewn cyrraedd unrhyw un.
- Cyfalaf diwylliannol - y wybodaeth y mae pobl sy'n rheoli'r system addysg yn ei chyfrif yn werthfawr.
- Cyfryngau - mathau o gyfathrebu sy'n cyrraedd niferoedd mawr o bobl ar yr un pryd.

Mae ysgolion yn hyfforddi plant ar gyfer gwaith

Bwledi

- Mae addysg alwedigaethol yn ymwneud â pharatoi pobl ar gyfer anghenion cyflogwyr.
- Yn y gorffennol, ystyr hyn oedd hyfforddi pobl ar gyfer gwaith isel ei statws, ac isel ei dâl.
- Ers y 1980au, mae galwedigaethedd wedi bod yn rhan bwysig o addysg Prydain.
- Mae meddwl galwedigaethol modern yn gysylltiedig â'r agenda sgiliau allweddol a hyfforddiant TGCh gan fod diwydiant yn gofyn bod pobl yn hyblyg, yn hawdd eu hyfforddi ac yn ymdopi â thechnolegau newydd wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Deall diwylliant (Addysg)

Testun

Mae systemau addysg cenedlaethol yn ymwneud â'r angen i baratoi pobl ar gyfer gwaith. Yr enw ar hyn yw galwedigaethedd. Yn y gorffennol, roedd galwedigaethedd yn gysylltiedig â myfyrwyr isel eu gallu. Yn y 1950au mewn ysgolion uwchradd modern, byddai bechgyn llai academiaidd yn cael hyfforddiant mewn sgiliau crefft a byddai merched yn cael hyfforddiant mewn gwyddor cartref er mwyn dod yn wragedd tŷ. Roedd y math hwn o addysg yn isel ei statws ac nid oedd yn caniatáu i blant fynd i'r coleg neu i'r brifysgol ond roedd yn cadw rhai pobl mewn gwaith â thâl isel.

Yn y 1970au, gwnaeth James Callaghan, Prif Weinidog Llafur, araith enwog yng Ngoleg Ruskin, Rhydychen, lle dywedodd fod Prydain yn llithro wrth gefn cystadleuwyr diwydiannol oherwydd bod y system addysg yn methu â chynhyrchu gweithwyr medrus a symbyledig. Mae hyn wedi effeithio ar bolisi a meddwl y llywodraeth am dros 30 mlynedd. Roedd wedi dylanwadu ar lawer o'r newidiadau a wnaed gan lywodraethau Ceidwadol 1979 - 1997. Lluniodd sylfaen y Cwricwlwm Cenedlaethol. Erys agenda galwedigaethol cryf o hyd yn ysgolion a cholegau Prydain sy'n cynnwys arholiadau, sgiliau allweddol ac ymagweddau portffolio tuag at ddysgu.

Yn y 1990au, sylweddolwyd bod llawer o swyddi uchel eu statws fel y gyfraith a meddygaeth hefyd yn gofyn am sgiliau galwedigaethol. O ganlyniad i hyn, mae agenna yn ysgolion Prydain i weithio ar sgiliau trosglwyddadwy a TGCh. Yn ogystal, bu ymdrech mawr i gynyddu statws Cymwysterau Galwedigaethol fel GNVQ fel bod gan bobl amrywiaeth o lwybrau i addysgu uwch heblaw am lwybr traddodiadol.

Cwestiynau

1. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng hyfforddiant ac addysg?
2. Pa blaid wleidyddol a gyflwynodd galwedigaethedd i ysgolion Prydain ar gyfer pob plentyn?
3. Pa nodweddion o system addysg Prydain sy'n gysylltiedig â hyfforddiant galwedigaethol?
4. A oes gan gymwysterau galwedigaethol fel GNVQ yr un statws â phynciau academiaidd traddodiadol mewn ysgolion a cholegau?

Allweddeiriau

- Addysg alwedigaethol - addysg ar gyfer gwaith.
- Cwricwlwm Cenedlaethol - pynciau a osodir gan y llywodraeth i bob plentyn eu dysgu.
- Sgiliau trosglwyddadwy - Y mathau o alluoedd gwaelodol sy'n ddefnyddiol mewn unrhyw swydd: TGCh, llythrennedd, sgiliau cymdeithasol, rhifedd a sgiliau meddwl.

Mae addysg yn rhoi cyfleoedd i blant wella'u bywydau

Bwledi

- Mae addysg yn ffordd allan o dlodi i blant.
- Yn y gorffennol, roedd plant dosbarth gweithiol a aeth i ysgol ramadeg yn gallu anelu at waith uchel ei statws.
- Mae llai o waith uchel ei statws ar gael nawr.

Deall diwylliant (Addysg)

- Mae plant dosbarth gweithiol yn cyflawni graddau llawer is na phlant dosbarth canol.
- Nod polisiâu llywodraethau yw gwneud i ysgolion ddatrys problem anghydraddoldeb yn y gymdeithas drwy sicrhau bod plant dosbarth gweithiol yn cael graddau gwell.

Testun

Llwyddiant mewn addysg yw'r ffordd orau a mwyaf dibynadwy i bobl wella'u bywydau a dianc rhag cefndiroedd tlotach. Cred ffwythiannwyr fel Parsons mai dyna yw prif ddiben y system addysg, er bod cymdeithasegwyr eraill wedi dadlau'n gryf mai'r rheiny sy'n gwneud orau yn y system addysg, mewn gwirionedd, yw'r rheiny sydd eisoes yn freintiedig mewn ffyrdd eraill.

Yn hanesyddol yng Nghymru, gosodwyd gwerth mawr ar lwyddiant addysgol i blant, gan ei fod yn ffordd allan o dlodi. Roedd glowyr Cymru yn adnabyddus am eu llyfrgelloedd a'u dysg ac roeddent yn annog eu meibion i anelu at waith proffesiynol. Yn ystod y 1950au a'r 1960au, y rheiny a oedd yn mynychu ysgolion gramadeg oedd yr unig blant a oedd yn cael eu haddysgu yn y pynciau yr oedd eu hangen er mwyn mynd i'r brifysgol. Gallai plant dosbarth gweithiol a oedd yn ennill lle mewn ysgol ramadeg anelu at swyddi dosbarth canol, ac wrth i fwy o swyddi dosbarth canol ddod ar gael, newidiodd llawer o bobl eu dosbarth cymdeithasol.

Ers y 1980au, mae llai o symud wedi bod rhwng y dosbarthiadau cymdeithasol (symudoledd cymdeithasol), ac mae cymdeithas Prydain wedi dod yn fwy anghyfartal mewn sawl ffordd. Mae'r llywodraeth yn ymwybodol o hyn ac yn ei ystyried yn broblem. Yn 2006, roedd 75% o'r disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim wedi methu â chyflawni 5 TGAU gradd A* - C. Mae hyn wedi arwain at newidiadau mewn polisi sy'n effeithio ar y ffordd y mae athrawon yn addysgu. Gorchmynnwyd i ysgolion wella ymddygiad plant, i ddarparu cynlluniau dysgu unigol ar gyfer plant, ac i ysgolion nad ydynt yn cyflawni'n dda ddysgu oddi wrth llwyddiant ysgolion sy'n cyflawni'n uwch.

Cwestiynau

1. Beth ym marn ffwythiannwyr yw prif ddiben addysg?
2. Pam y gosodwyd gwerth uchel ar addysg yng Nghymru yn y gorffennol?
3. I ba raddau y mae ysgolion Prydain yn cynnig cyfle i blant wella'u bywydau?
4. Ai rôl ysgolion yw cywiro problemau yn y gymdeithas?

Allweddeiriau

- Symudoledd cymdeithasol - symud rhwng dosbarthiadau cymdeithasol.

A yw'r system addysg yn feritocrataidd?

A yw'r system addysg yn feritocrataidd?

Bwledi

Deall diwylliant (Addysg)

- Meritocratiaeth yw'r gred y bydd y bobl orau yn gwneud yn dda mewn addysg ac yn cael y swyddi gorau.
- Nod system addysg Prydain yw rhoi cyfle cyfartal i bawb wneud yn dda.
- Mae'r nod hon wedi'i hymgorffori mewn polisi ysgol ac yn systemau rheoli'r llywodraeth ar gyfer ysgolion.

Testun

Un o brif ddealltwriaethau'r farn ffwythiannol o'r system addysg yw ei bod yn gweithredu fel cyfle i bobl gyflawni'r gorau y gallant, yn ôl eu gallu. Bydd y bobl orau yna'n mynd ymlaen i gael y swyddi gorau ac yn dod yn arweinwyr eu cymdeithas. Mae'r gred hon yn cael ei galw'n feritocratiaeth. Pa mor wir yw'r darlun hwn o'r system addysg? A oes gan bob plentyn yr un cyfle i wneud yn dda?

Mae'r system addysg ym Mhrydain ers yr Ail Ryfel Byd wedi gweithredu yn ôl yr egwyddor o roi cyfle cyfartal i bob disgybl. Gellir dangos hyn mewn sawl ffordd.

Disgwylir i bob ysgol feddu ar bolisiâu cyfle cyfartal, ac i'r rhain fod ar gael i unrhyw un eu gweld. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r holl athrawon gadw at y polisi, ac y dylai'r holl lywodraethwyr mewn ysgolion sicrhau bod y polisiâu'n cael eu cyflawni. Yn bwysicach na hynny, disgwylir i lywodraethwyr drafod effeithiolrwydd y polisi cyfle cyfartal yng nghyfarfodydd cyrff llywodraethu.

Mae gan gyrff eraill y llywodraeth hefyd ddyletswydd i sicrhau bod cyfle cyfartal mewn ysgolion. Un o'r cyrff mwyaf pwysicaf o'r math hwn yw'r QCA, neu'r Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm sy'n goruchwyllo'r holl systemau arholi yn y DU ac mae datganiad ynghylch cydraddoldeb i'w weld yn yr holl fanylebau arholi sydd wedi cael eu cymeradwyo gan y QCA. Yn yr un modd, mae pob adroddiad o arolygiadau ysgolion yn adrodd ar y graddau y mae ysgolion yn cynnig cyfle cyfartal i'w disgyblion. Mae gan wefan yr Adran Addysg a Sgiliau ddatganiad cydraddoldeb yn frawddeg agoriadol iddi, gan gyfeirio at 'bob' plentyn, yn benodol.

Cwestiynau

1. Beth yw meritocratiaeth?
2. Beth yw diben polisi'r ysgol?
3. Pa mor ymwybodol ydych chi o Bolisi Cydraddoldeb eich ysgol?

Allweddeiriau

- Meritocratiaeth - bydd y rheiny sydd â'r gallu gorau yn dod i'r brig mewn unrhyw gymdeithas.
- Addysg - dyma'r broses o drosglwyddo sgiliau a gwybodaeth.
- QCA - yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm.

Pa gyfreithiau sy'n llywodraethu ar gydraddoldeb?

Bwledi

- Ers y 1970au bu gyfreithiau'n gwneud cydraddoldeb yn hawl.
- Mae'r gyfreithiau hyn wedi cael eu diweddarau.

Deall diwylliant (Addysg)

- Mae asiantaethau'r llywodraeth yn bodoli i sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei hyrwyddo.
- Disgwylir i ysgolion a cholegau fod yn gynhwysol; ystyr hyn yw darparu mynediad i bob dysgwr.

Testun

Tynnodd aflonyddwch cymdeithasol y 1960au sylw at y ffaith nad oedd gan rai grwpiau yn y gymdeithas yr un mynediad i hawliau dynol a chydraddoldeb ag eraill. Sbardunodd hyn gyfreithiau'n amddiffyn hawliau unigolion yn y gwaith ac mewn mannau cyhoeddus. Cytunir nad oes gan rai grwpiau o hyd yr un cydraddoldeb llawn mewn rhai meysydd bywyd, ond er hynny, mae cyfreithiau yn amddiffyn hawliau pobl mewn meysydd eraill.

Mae Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw (1975) a chyfreithiau eraill yn golygu ei bod yn anghyfreithlon gwahaniaethu ar sail rhyw yn y DU. Gellir gwneud cwynion i'r llys os yw'n ymddangos bod ysgolion yn cynnig cyfleoedd i un rhyw ac nid i'r llall. Mae'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (1976) a'r Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) (2000) yn golygu bod gan bob sefydliad cyhoeddus ddyletswydd i ddileu gwahaniaethu ar sail hil ac i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng pobl o wahanol grwpiau ethnig. Mae Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (1995) yn fwy diweddar ac mae'n golygu bod rhaid i ysgolion wneud addasiadau er sicrhau nad yw myfyrwyr anabl yn cael eu rhoi dan anfantais gan y cyfleusterau neu'r cwrwllwm.

Yn nhermau addysgol, mae'r Deddfau hyn wedi cael effaith ar y ffordd y mae gofyn bod ysgolion yn meddwl am bobl sy'n dioddef anawsterau neu ddifreintedd. Ers y 1990au, gyda chyhoeddi Adroddiad Tomlinson ar Addysg Bellach Gynhwysol (1996), un o'r themâu cryfaf mewn meddwl addysgol fu 'cynhwysiant'. Disgwylir i ysgolion a sefydliadau addysgol addasu eu cyrsiau, a'u harddulliau addysgu i anghenion y myfyrwyr sy'n eu defnyddio, fel bod pob dysgwr yn cael mynediad cyfartal i addysg a dysgu.

Cwestiynau

1. Pryd cyflwynwyd y cyfreithiau cyntaf yn erbyn gwahaniaethu ar sail rhyw ac ethnigrwydd ym Mhrydain?
2. Awgrymwch resymau pam mae angen cael cyfreithiau yn erbyn gwahaniaethu.
3. A ddylai llywodraethau ddeddfu yn erbyn anghydraddoldeb a thriniaeth annheg? Beth yw eich barn?

Allweddairiau

- Gwahaniaethu - cymryd camau sy'n annheg i rai grwpiau neu unigolion.
- Cynhwysiant - dylai pobl gael mynediad cyfartal i gyfleoedd ac i fudiadau cymdeithasol.

Beth yw cydraddoldeb?

Bwledi

- Cyfle cyfartal yw pan fydd gan bobl yr un hawliau a chyfleoedd
- Mae cymdeithas Prydain yn cynnig cyfle cyfartal, gyda rhai eithriadau.
- Canlyniad cyfartal yw pan fydd pobl yn gwneud cystal neu gynddrwg â'u cyfrannedd yn y boblogaeth.

Deall diwylliant (Addysg)

- Nid oes gan gymdeithas Prydain gydraddoldeb canlyniad, ac mewn sawl achos, mae anghydraddoldeb yn ehangu.
- Y prif feysydd anghydraddoldeb yw dosbarth cymdeithasol, rhyw, ethnigrwydd ac ardal.

Testun

Awgrymodd A H Halsey fod dau bawf p'un a bod cydraddoldeb wedi cael ei gyflawni mewn cymdeithas mewn gwirionedd. Y cyntaf o'r rhain yw cyfle cyfartal. Os oes gan bawb yr hawl i'r un cyfleoedd, yna mae graddfa o gydraddoldeb wedi cael ei chyflawni. Mae cymdeithas Prydain wedi cyflawni cyfle cyfartal i raddau helaeth. Mae'r llywodraeth eisiau i ysgolion fod yn feritocrataidd, a chynnig cyfle cyfartal. Mae wedi llwyddo i raddau helaeth yn y prawf hwn o'i gallu i fodloni'i thargedau ei hun.

Fodd bynnag, yn ôl Halsey, mae prawf mwy llym o gydraddoldeb, a'r enw ar hwn yw cydraddoldeb canlyniad. Ystyr cydraddoldeb canlyniad yw pan fydd pobl yn ymddangos mewn sefydliadau cymdeithasol yn yr un cyfraneddau ag y maent yn ymddangos yn y gymdeithas gyfan. Os daw 8% o'r boblogaeth o leiafrif ethnig, yna ceir canlyniad cyfartal pan fydd lleiafrifoedd ethnig yn llunio 8% o lwyddiant addysgol, yn meddu ar 8% o'r swyddi gorau ac yn llunio dim ond 8% o'r bobl sydd yn y carchar. Mae patrwm cymdeithas yn wahanol iawn, ac mae lleiafrifoedd ethnig wedi'u tangynrychioli yn y swyddi gorau ac wedi'u gorgynrychioli yn y carchar.

Mae cymdeithas Prydain yn methu yr ail bawf o gydraddoldeb. Dengys ystadegau fod pobl sy'n perthyn i rai grwpiau cymdeithasol yn fwy tebygol o fynd ymlaen i gael swyddi da a safleoedd pŵerus yn y gymdeithas, tra bod aelodau o grwpiau cymdeithasol eraill yn llunio mwyafrif y bobl dlawd a difreintiedig. Mae astudiaeth o ystadegau addysg yn awgrymu yn wir, bod system addysg Prydain yn ffafrio aelodau o rai grwpiau cymdeithasol ac yn anfanteisio eraill yn sylweddol. Gall rhai unigolion wneud yn dda os ydynt yn dod o grwpiau dan anfantais, ond yn gyffredinol, mae patrwm y dystiolaeth yn awgrymu y bydd yn rhaid iddynt weithio'n galetach i lwyddo. Y ffactorau cymdeithasol sy'n ymddangos fel petaent yn dylanwadu ar gyfleoedd unigolyn o gael llwyddiant addysgol yw: rhyw, ethnigrwydd, dosbarth cymdeithasol a'r math o ysgol neu ansawdd yr ysgol a fynychwyd. Gellir gweld hyn mewn data a gynhyrchir gan y Llywodraeth ar eu gwefan ystadegau.

Cwestiynau

1. Pwy ddiffiniodd anghydraddoldeb yn nhermau cyfle a chanlyniad?
2. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cyfle cyfartal a chanlyniad cyfartal?
3. Pam mae angen gwahaniaethu rhwng cyfle a chanlyniad?

Allwedddeiriau

- Cydraddoldeb - mae pobl yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd.
- Cyfle cyfartal - pan fydd gan bobl yr un hawliau a chyfleoedd.
- Canlyniad cyfartal - pan fydd pobl yn gwneud cystal neu gynddrwg â'u cyfrannedd yn y boblogaeth.

A yw ysgolion yr un mor dda?

Deall diwylliant (Addysg)

Bwledi

- Nid yw pob ysgol yr un mor dda.
- Gall rhai pobl ym Mhrydain fforddio ysgolion drud drwy dalu ffioedd.
- Mae gan ysgolion sydd â'r canlyniadau gorau fyfyrwyr cyfoethog, dosbarth canol.
- Mae'n bosibl bod canlyniadau'n ymwneud ag ansawdd y myfyrwyr yn hytrach nag ansawdd yr addysgu a'r addysg a gynigir.

Testun

Nid yw pob ysgol yn gyfartal. Mae gan rai ysgolion gyfleusterau gwell, mwy o arian a staff sydd wedi'u hyfforddi'n well nag ysgolion eraill. Derbynnir bod dewis y rhieni o ysgol yn gallu cael effaith ar ansawdd yr addysg y mae plentyn yn ei derbyn. Mae llywodraethau ers y 1980au wedi ceisio gwella ysgolion drwy gynnig dewisiadau i rieni o ba ysgolion y dylent anfon eu plant atynt a datblygu cystadleuaeth rhwng ysgolion i gynnig y gwasanaeth gorau.

Mae gan Brydain sector lle telir ffioedd mewn addysg sydd hefyd yn cael ei alw'n sector annibynnol. Mae rhieni'n talu arian i ysgolion sy'n cael eu rhedeg fel busnesau. Mae'r ysgolion hyn yn elwa ar symiau mawr o incwm sy'n rhydd rhag treth gan eu bod yn cael eu cymhwyso fel elusennau. Mae rhai o'r gorau o'r ysgolion hyn yn cael canlyniadau rhagorol, ond mae llawer o ysgolion sydd â chyfleusterau cyfyngedig a thâl gwael i athrawon hefyd. Nid yw pob un o'r ysgolion hyn cystal â'r gorau. Fodd bynnag, yr hyn sydd ganddynt yn gyffredin yw eu bod yn paratoi plant ar gyfer lleoedd yn y prifysgolion sydd ag enwau da.

Yn y sector gwladol, mae llawer o wahanol fathau o ysgolion hefyd. Mae rhai'n cael eu hariannu'n llawer gwell ac yn meddu ar gyfleusterau llawer gwell nag eraill. Mae'r llywodraeth yn ceisio rhoi gwybodaeth i rieni ynghylch ansawdd ysgolion mewn nifer o ffyrdd. Mae adroddiadau arolygu ar gael ar y Rhynggrwyd ac anogir rhieni i ymweld ag ysgolion i ddewis y gorau ar gyfer eu plant. Cyflwynwyd tablau'n dangos y gwahaniaethau mewn canlyniadau a gynhyrchwyd gan ysgolion adeg TGAU ym 1992. Mae cyflwyno dewis a gwybodaeth i rieni bellach yn golygu bod tai yn nalgylchoedd ysgolion da wedi mynd yn ddrud iawn ac mae'n hysbys y bydd rhieni'n symud i fyw mewn dalgylchoedd ysgolion sydd â chanlyniadau arholiad da. Mae tystiolaeth anecdotaidd wedi cael ei ategu gan waith a wnaed gan Reay a Lucey. Mae'n hysbys bod rhai rhieni wedi dweud celwydd a thwylllo i gael eu plant i ysgolion sydd â chanlyniadau da.

Y broblem yw ei bod yn anodd gwybod ai ysgolion sy'n cynhyrchu canlyniadau arholiad da yw'r ysgolion gorau mewn gwirionedd. Canfu Karl Turner fod ysgolion â chanrannau uchel o ddisgyblion yn cael prydau ysgol am ddim yn annhebygol o gael adroddiadau arolygu da. Mae'r ysgolion sydd â'r canlyniadau arholiad gorau yn tueddu i fod yn ysgolion benywaidd unrhyw, yn ysgolion lle telir ffioedd neu'n ysgolion mewn ardaloedd cyfoethog iawn sy'n dethol eu disgyblion. Ai oherwydd eu bod yn ysgolion gwell, yn meddu ar gyfleusterau gwell neu oherwydd bod ganddynt ddisgyblion mwy breintiedig y mae eu canlyniadau da? Mae gan ysgolion amrywiol ffyrdd o wella'u canlyniadau arholi, fel annog plant dawnus i sefyll arholiadau ychwanegol neu wahardd myfyrwyr anodd cyn eu harholiadau.

Cwestiynau

1. Beth yw ysgol annibynnol?

Deall diwylliant (Addysg)

2. A ddylid caniatáu i rieni brynu addysg freintiedig i'w plant?
3. Ai canlyniadau arholiadau yw'r ffordd orau o ddweud y gwahaniaeth rhwng ansawdd addysg a ddarperir rhwng ysgolion?

Allweddeiriau

- Ysgol annibynnol - mae rhieni yn talu ffioedd i addysgu eu plant.
- Tablau - cyhoeddir canlyniadau TGAU ysgolion i rieni eu gweld.
- Data gwerth ychwanegol - caiff canlyniadau eu haddasu i ddangos yr hyn a gyflawnodd myfyrwyr yn ôl yr hyn y rhagwelwyd y byddent yn ei gyflawni ar sail canlyniadau TASau.

A yw pob plentyn yn gyfartal?

Bwledi

- Nid yw pob ysgol yr un mor dda.
- Nid yw plant tlotach yn tueddu i wneud cystal â phlant cyfoethocach.
- Gall fod yn bosibl nad ysgolion yw sail y broblem, ond strwythur y gymdeithas.
- Os dyna yw achos y broblem, yna a yw'n ymwneud â thlodi pobl neu eu hagweddau?
- Mae'r llywodraeth yn gwario symiau enfawr o arian yn mynd i'r afael â thlodi drwy wella ysgolion, ond os yw'r broblem yn un gymdeithasol, yna mae'r arian hwn yn cael ei wastraffu.

Testun

Mae'r llywodraeth wedi brwydro i wneud addysg ym Mhrydain yn fwy cyfartal trwy ganolbwyntio ar ysgolion. Fodd bynnag, dim ond tua 14% o'u hamser y mae plant yn ei dreulio yn yr ysgol. Mae cymdeithasegwyr wedi bod yn ymdrechu i fwrw golwg ar yr hyn sy'n digwydd mewn cartrefi. Mae cysylltiad hirsefydlog a hysbys rhwng incwm teuluol a chanlyniadau arholiad. Nid yw plant o gartrefi tlotach yn tueddu i wneud cystal yn y system addysg â phlant o gefndiroedd cyfoethog. Gall plant o'r teuluoedd tlawd fod blwyddyn y tu ôl plant cyfoethog yn ddatblygol cyn iddynt hyd yn oed ddechrau'r ysgol. Tua 25% o blant sy'n cael prydau ysgol am ddim sy'n cael 5 gradd dda mewn TGAU o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o ryw 50%. Mae plant o gartrefi tlotach yn dueddol o fod â golwg negyddol o'r system addysg o gymharu â phlant cyfoethog.

Dywedodd Stephen Gorard a Peter Tymms (2006) fod cyfoeth teuluol a gallu blaenorol disgyblion yn effeithio ar ganlyniadau arholiad disgyblion a safleoedd ysgolion mewn tablau. Gall y berthynas hon fod yn gysylltiedig â ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth rhieni: deiet gwael, iechyd gwael, diffyg adnoddau. Fodd bynnag, ceir dadl gref, yn enwedig o du'r llywodraeth, sy'n awgrymu y gall hyn fod o ganlyniad i rianta gwael, addysg wael ymysg rhieni, teuluoedd sydd wedi chwalu a diffyg hunan-barch. Er enghraifft, canfu Hibbert et al (1990) fod triwariantiaeth cyson a diffyg presenoldeb ymysg plant yn gysylltiedig â chanlyniadau gwael mewn arholiadau, gwaith isel ei statws, ansefydlogrwydd priodasol a throseddau gan oedolion.

Er gwaethaf cyfres gyfan o fentrau a rhaglenni gan y llywodraeth fel Cychwyn Cadarn, y Lwfans Cynhaliaeth Addysgol, Connexions a Rhagoriaeth mewn Dinasoedd, sydd wedi cael biliynau o bunnoedd, mae'n parhau'n wir ym Mhrydain nad yw plant o deuluoedd tlotach yn cyflawni'r un canlyniadau arholiad â phlant o deuluoedd cyfoethog. Ym Mai

Deall diwylliant (Addysg)

2007, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Addysg, Alan Johnson y byddai £1 biliwn arall yn cael ei wario erbyn 2011 ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb addysgol. Meddai "Mae bellach yn fwy anodd dringo'r ysgol gymdeithasol ym Mhrydain nag yn unman arall yn Ewrop." Fodd bynnag, dywed Aldridge (2001), economegwyr fod 'y rhwystrau i blant deallus, dosbarth canol lwyddo yn eithaf isel, mae'r amddiffyniadau rhag methiant a gyflawnir gan blant dosbarth canol araf yn eithaf cryf'. Mae'r dystiolaeth felly'n awgrymu, ymysg plant sydd â'r un deallusrwydd mesuredig, bod plant dosbarth canol yn mwynhau mwy o lwyddiant yn yr ysgol na phlant dosbarth gweithiol.

Cwestiynau

1. Beth y mae'r llywodraeth yn ei ystyried yn achos anghydraddoldeb addysgol?
2. Awgrymwch resymau o'ch profiad eich hun pam nad yw rhai plant yn tueddu i wneud cystal yn yr ysgol, er eu bod yn amlwg yn ddeallus.
3. A oes gan Brydain system addysg feritocrataidd?

Allwedddeiriau

- Triwantiaeth - treulio amser o'r ysgol heb achos da.

Beth yw patrymau cyflawniad myfyrwyr o wahanol gefndiroedd ethnig?

Beth yw patrymau cyflawniad myfyrwyr o wahanol gefndiroedd ethnig?

Bwledi

- Mae'n ymddangos bod gan grwpiau ethnig gwahanol lefelau gwahanol o gyflawniad yn yr ysgol.
- Bu pryder am lefelau cyflawniadau lleiafrifoedd du penodol.
- Mae archwiliad manwl o'r ystadegau yn awgrymu, mewn gwirionedd, mai bechgyn gwyn, dosbarth gweithiol, yw'r grŵp addysgol sy'n perfformio waethaf.
- Mae cymdeithasegwyr yn cael anhawster mesur effaith ethnigrwydd ar gyflawniad oherwydd gall ffactorau eraill fod yn gysylltiedig.

Testun

Dim ond yn 2003 y cyhoeddodd y llywodraeth ystadegau am y tro cyntaf yn dangos cyfraddau pasio TGAU ar draws grwpiau ethnig gwahanol. Er hynny, bu'n hysbys am amser hir bod grwpiau ethnig gwahanol yn ymddangos gael cyfraddau cyrhaeddiad gwahanol yn y system addysg. Mae ystadegau'n dangos bod disgyblion Indiaidd, Tsieiniaidd, ac Affricanaidd-Asiaidd yn cael lefelau cyson uwch o gyflawniad na grwpiau ethnig eraill ar draws yr holl Gyfnodau Allweddol. I'r gwrthwyneb, mae disgyblion Du, Pacistanaidd, Bangladeshaidd a Sipsiwn/teithwyr yn cael lefelau cyson is o gyrhaeddiad na grwpiau ethnig eraill ar draws yr holl Gyfnodau Allweddol.

Mae pryder cyffredinol ynghylch cyflawniad lleiafrifoedd Du. Er enghraifft, mae data sy'n dangos eu bod yn llawer mwy tebygol o gael eu gwahardd yn barhaol o'r ysgol na thrasau eraill. Fodd bynnag, mae canlyniadau swyddogol a gyhoeddir ym mis Tachwedd 2007 yn

Deall diwylliant (Addysg)

dangos bod disgyblion Du yn cau'r bwlch addysgol adeg TGAU. Mae niferoedd y disgyblion Du Caribiaidd sy'n cyflawni pum TGAU da bron dwbl y cynnydd cenedlaethol, gan olygu bod y bwlch wedi culhau wyth pwynt canran mewn pedair blynedd. Ffaith ddiddorol am y system addysg bresennol yw mai'r grŵp sy'n perfformio waethaf (o safbwynt cyflawni pum gradd A*-C adeg TGAU) yw bechgyn gwyn dosbarth gweithiol.

Mae'n dilyn felly bod gan gymdeithasegwyr dasg anodd yn ynysu a mesur unrhyw gysylltiad rhwng cyflawniad isel mewn ysgolion ac ethnigrwydd. Sut maent yn mesur effaith ethnigrwydd yn hytrach nag unrhyw un o'r ffactorau niferus eraill sy'n gallu effeithio ar ba mor dda y mae unigolyn yn ei wneud yn y system addysg?

Cwestiynau

1. Pryd dechreuodd y llywodraeth gasglu data ar ethnigrwydd a chyrhaeddiad?
2. Pa grwpiau ethnig y mae'n ymddangos eu bod yn cyflawni'n well na'r cyfartaleddau cenedlaethol?
3. Pa grwpiau ethnig y mae'n ymddangos eu bod yn cyflawni'n waeth na'r cyfartaleddau cenedlaethol.
4. Pa grŵp cymdeithasol sy'n ymddangos ei fod yn cyflawni isaf mewn addysg?

Allweddeiriau

- Ethnigrwydd - ymdeimlad o ddiwylliant neu o genedlaetholdeb y mae rhywun yn perthyn iddo.
- Gwahardd - cael eich atal rhag bod yn yr ysgol am gyfnod penodol o amser (neu efallai'n barhaol).

Cyflawniad ethnig a dosbarth cymdeithasol

Bwledi

- Mae gwahaniaethau mesuradwy mewn cyflawniad rhwng grwpiau ethnig gwahanol.
- Mae rhai awduron yn honni bod gwahaniaethau ethnig mewn lefelau deallusrwydd. Mae'r dystiolaeth sy'n cefnogi hyn yn brin.
- Mae'n ymddangos mai'r ffactor allweddol sydd y tu cefn i gyflawniad addysgol yw dosbarth cymdeithasol.
- Mae rhyw hefyd yn ffactor o ran cyflawniad, gyda merched yn perfformio'n well na bechgyn ym mhob grŵp ethnig.

Testun

Er bod rhai awduron fel H J Eysenck a'r genetegwr James Watson wedi hawlio bod gwahaniaethau mewn gallu rhwng amrywiol grwpiau ethnig a 'hiliau', mae'r dystiolaeth ar gyfer y farn hon yn wael iawn. Mae profion deallusrwydd yn aml ynghlwm wrth ddiwylliant; mae'n anodd i rywun lwyddo mewn prawf nad yw wedi cael ei gynllunio ar gyfer eu diwylliant. Nid yw unrhyw grŵp ethnig yn llai galluog yn naturiol nag unrhyw un arall er y gallwn nodi patrymau cyflawniad sy'n gysylltiedig â grwpiau ethnig. Mae'n bwysig cydnabod bod amrywiaeth unigol sylweddol mewn cyflawniad ym mhob grŵp. Bydd llawer o ddisgyblion Du Caribiaidd a disgyblion Bangladeshaidd yn rhagori a bydd rhai disgyblion Tsieineaidd yn methu.

Deall diwylliant (Addysg)

Y ffactor mwyaf wrth bennu cyflawniad yn yr ysgol yw cefndir dosbarth cymdeithasol. Mae astudiaethau o dangyflawniad ethnig yn aml yn anwybyddu'r amlwg: os yw lleiafrifoedd ethnig yn bobl dosbarth gweithiol yna dylem ddisgwyl iddynt berfformio fel y rhan fwyaf o aelodau eraill y dosbarth gweithiol, hynny yw, tangyflawni. Fodd bynnag, mae angen i gymdeithasegwyr ystyried a yw grwpiau ethnig yn perfformio hyd yn oed yn is nag y byddem yn disgwyl iddynt ei wneud o'u lleoliad mewn dosbarthiadau cymdeithasol.

Yn yr un modd ag y mae'r grŵp gwyn, ethnig yn cael ei gynrychioli ar draws y dosbarthiadau cymdeithasol, mae'n dilyn mai hyn felly yw'r achos ar gyfer grwpiau ethnig lleiafrifol hefyd. Mae rhai, fel y gymuned Du Caribïaidd a Bangladeshaidd, wedi'u lleoli'n aml yn y dosbarth gweithiol. Yn ogystal, mae cymdeithasegwyr yn cofnodi sut mae merched yn perfformio'n well na bechgyn ym mhob grŵp ethnig lleiafrifol. Felly tra bod ethnigrwydd yn chwarae rhan mewn cyflawniad mewn ysgolion a cholegau, mae'n rhan o gyfuniad cymhleth o ddosbarth cymdeithasol a ffactorau rhyw hefyd. Wrth geisio deall y rôl y gall ethnigrwydd ei chwarae wrth lywio cyflawniad addysgol mae angen i ni gydnabod ffactorau eraill yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol sy'n gallu chwarae rhan hefyd.

Cwestiynau

1. Beth yw'r dystiolaeth bod rhai grwpiau ethnig a hiliau yn llai deallus nag eraill y dywedir eu bod yn wan?
2. Pa ffactorau cymdeithasol eraill sy'n gallu effeithio ar batrymau cyflawniad?
3. A ellir dweud bod aelodaeth o grŵp ethnig lleiafrifol yn 'achosi' cyflawniad isel yn yr ysgol?

Allweddeiriau

- 'Hil' - Mae 'hil' yn derm problemus i gymdeithasegwyr, felly caiff ei roi mewn dyfynodau. Mae'n cyfeirio at gategoreiddio pobl ar sail gwahaniaethau biolegol
- Ethnigrwydd - ymdeimlad o'r diwylliant neu'r cenedligrwydd y mae rhywun yn perthyn iddo
- ynghlwm wrth ddiwylliant - wedi'i ddylanwadu'n drwm gan y diwylliant a'i cynhyrchodd.
- Dosbarth gweithiol - pobl sy'n gweithio gyda'u dwylo neu sydd â sgiliau addysgol lefel isel.

Ethnigrwydd a deallusrwydd

Bwledi

- Mae pobl sy'n agored yn hiliol wedi ceisio profi bod rhai grwpiau diwylliannol yn israddol.
- Mae'r dystiolaeth i gefnogi'r dadleuon hyn yn wan iawn.
- Mae'n rhaid bod cwestiynau am symbyliad unrhyw un sy'n dymuno profi bod gan bobl eraill allu is, statws is neu werth anghyfartal.

Testun

Yn y gorffennol, bu dadlau hiliol agored a ddatblygwyd ymhellach gan bobl fel Arthur Jenson a Hans Eysenck a ddywedodd fod gan fyfyrwyr du lefelau genetigol is o ddeallusrwydd na phobl wyn. Aethpwyd yn ôl at y ddadl hon yn y 1990au gan Herrnstein a

Deall diwylliant (Addysg)

Murray (1994) a fu'n dadlau achos tebyg. Yn 2006 lansiwyd ymgyrch ledled campysau prifysgol ar draws y wlad yn erbyn Frank Ellis, darlithydd ym Mhrifysgol Leeds wedi iddo hawlio bod pobl ddu a menywod yn israddol yn enetigol. Mae'r achos wedi cael ei wrthod gan y rhan fwyaf o bobl, ond mae'n parhau i ddod i'r amlwg weithiau mewn trafodaethau cyhoeddus.

Mae'r ddadl yn troi o gwmpas a oes y fath beth â deallusrwydd ac a all gael ei fesur yn gywir. Mae profion deallusrwydd weithiau wedi awgrymu y gall fod gwahaniaethau rhwng grwpiau cymdeithasol; fodd bynnag, mae profion deallusrwydd wedi cael eu beirniadu am adlewyrchu diwylliant a gwybodaeth awdur y prawf. Yn holl bwysig, mae ffactorau eraill sy'n gallu effeithio ar ddeallusrwydd mesuredig plentyn sy'n datblygu: datblygiad ieithyddol, addysg, iechyd, maeth, hyder, disgwyliadau a'r amgylchedd gartref. Nid oes genynnau penodedig ar gyfer deallusrwydd. Nid yw'r rhan fwyaf o brofion yn mesur y gallu i ddysgu, dim ond tystiolaeth o ddysgu yn y gorffennol. Yn ogystal, mae gan y rhan fwyaf o bobl dreftadaeth genetig biolegol cymysg iawn ac ychydig iawn sy'n perthyn i unrhyw un o'r 'hiliau' a nodwyd mewn unrhyw fath o ystyr mesuradwy.

Mae cwestiwn difrifol ynghylch pam y byddai unrhyw un eisiau gwybod bod 'hil' yn cael effaith ar ddeallusrwydd. Mae'r seicolegydd Sternberg (2005) yn dadlau bod y bobl sy'n dymuno profi bod 'hil' arall yn israddol yn gwneud hynny am resymau cymdeithasol yn hytrach nag am resymau gwyddonol. Mae'r dystiolaeth yn dangos, os caiff ffactorau amgylcheddol fel y gyfran uchel o bobl dduon sy'n byw mewn tlodi eu hystyried, bod gwahaniaethau mewn Cyniferedd Deallusrwydd (IQ) yn gostwng yn sylweddol. Mae myfyrwyr gwyn o gefndiroedd tebyg yn tueddu i berfformio'r un mor wael.

Cwestiynau

1. Pa ddadleuon y gellir eu defnyddio i awgrymu mai prin yw'r gwahaniaeth rhwng deallusrwydd grwpiau ethnig gwahanol?
2. Pam y byddai pobl angen neu eisiau profi bod deallusrwydd rhai grwpiau ethnig yn is nag eraill.

Allweddeiriau

- Mesuradwy - gellir ei fesur.
- 'Hil' - Mae 'Hil' yn derm problemus i gymdeithasegwyr, felly caiff ei roi mewn dyfynodau. Mae'n cyfeirio at gategoreiddio pobl ar sail gwahaniaethau biolegol.

Dosbarth Cymdeithasol, ethnigrwydd a thlodi

Bwledi

- Mae aelodau o grwpiau ethnig lleiafrifol yn agored i dlodi.
- Mae lefelau uchel o ddiweithdra ymysg rhai grwpiau.

Testun

Amlygodd Modood et al (1997) fod y grwpiau ethnig sydd â'r lefelau cyflawniad gwaethaf - pobl Bangladeshaidd, Pacistanaid a Du-Caribiaidd - yn tueddu o fod wedi'u lleoli yn y

Deall diwylliant (Addysg)

dosbarth gweithiol. Ar y llaw arall, gall llwyddiant cymharol y grŵp ethnig Indiaidd a'r Affricanaidd-Asiaidd gael ei egluro oherwydd eu bod yn aml yn y dosbarth canol. Roedd ymchwil gan Cassen a Kingdon ar gyfer Sefydliad Joseph Rowntree (2007) wedi nodi mai nodwedd allweddol y rheiny nad oeddent yn cyflawni'n dda oedd eu bod yn dod o gefndiroedd difreintiedig (yn gymwys am brydau ysgol am ddim), yn byw mewn ardaloedd o ddiweithdra uchel, a chael rhieni sengl sydd eu hunain â chymwysterau gwael.

Mae ystadegau'r llywodraeth yn dangos bod 70% o ddisgyblion Bangladeshaidd a thua 60% o ddisgyblion Pacistanaidd a Du Affricanaidd yn byw yn 20% o'r ardaloedd côd post mwyaf difreintiedig o gymharu â llai nag 20% o ddisgyblion Gwyn Prydeinig. Mae disgyblion Pacistanaidd a Bangladeshaidd yn fwy tebygol na grwpiau eraill i fyw mewn aelwydydd lle nad yw pennaeth yr aelwyd erioed wedi gweithio neu lle bo'r pennaeth yn ddi-waith yn yr hirdymor. Mae mynediad i brydau ysgol am ddim yn cael ei ystyried yn ddangosydd da o ddifreintedd ac mae perthynas agos yn bodoli rhwng prydau ysgol am ddim a thangyflawniad. Mae dwy ran o dair (66%) o ddisgyblion Sipsiwn a Theithiwr yn gymwys am brydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd o gymharu â 18% o'r holl ddisgyblion. Hefyd, mae cyfrannau uwch na'r cyfartaledd o ddisgyblion Bangladeshaidd, Pacistanaidd, hil gymysg ac Affricanaidd-Caribïaidd sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd.

Defnyddiodd Richard Berthoud (1998) ddata a gynhyrchwyd ar gyfer yr arolwg Adnoddau Teuluol a darganfu fod grwpiau Indiaidd, Caribïaidd, Pacistanaidd a Bangladeshaidd yn agored iawn i dlodi. Mae incymau yn isel, ac yn aml, dim ond un partner sy'n gweithio. Os oes nifer o blant, mae tlodi plant yn deillio o hyn. Roedd wedi darganfod bod llai o arian ar gael nag mewn aelwydydd Gwyn, ar ôl didynnu anghenion sylfaenol o incwm.

Cwestiynau

1. Pa grwpiau ethnig sy'n debygol o ddioddef tlodi?
2. Pam mae'r grwpiau ethnig hynny'n agored i dlodi?

Allweddeiriau

- Difreintedd - bod heb y pethau y mae eraill yn eu cymryd yn ganiataol.

Gwerthoedd teuluol

Bwledi

- Mae cysylltiad rhwng diddordeb rhiant a chyrhaeddiad addysgol plant.
- Nid yw'r cysylltiad hwn yn amlwg, ac mae rhwystrau i rai rhieni.
- Awgryma rhai cymdeithasegwyr y gallai materion iaith lesteirio rhai plant.
- Mae rhai awduron yn feirniadol o rai mathau o deuluoedd, gan gredu eu bod yn cyfrannu at fethiant addysgol.
- Mae llawer o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn cefnogi addysg ac yn annog eu plant.

Testun

Mae cred gref bod diddordeb rhieni yn bwysig o ran codi safonau mewn addysg. Ym 1997, cyhoeddwyd Papur Gwyn, Rhagoriaeth mewn Ysgolion. Roedd hyn yn gosod tri llwybr i

Deall diwylliant (Addysg)

rieni ddod i chwarae rhan fwy gweithgar mewn ysgolion: darparu gwybodaeth, dod yn rhiant llywodraethwyr a rhoi adborth i arolygwyr. Awgrymodd Desforges (2003) ar ran yr Adran Addysg a Sgiliau fod ymwneud gan rieni'n bwysicach na dosbarth o ran cyrhaeddiad addysgol. Fodd bynnag, mae eraill yn dadlau mai dim ond hyn a hyn gall rieni wneud i ddylanwadu ar addysg eu plant oherwydd - tlodi, iselder, sgiliau llythrennedd gwael, diffyg cefnogaeth gan ysgolion.

Mae iaith wedi bod yn faes y mae cymdeithasegwyr wedi ymchwilio iddi i egluro cyflawniad addysgol gwahaniaethol gan grwpiau ethnig. Mewn rhai aelwydydd Asiaidd, nid Saesneg yw'r brif iaith. Fodd bynnag, canfu Cassen a Kingdon (JRF, 2007) mai 'anhawster byrdymor' oedd peidio â siarad Saesneg ar yr aelwyd, a bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn goresgyn hyn erbyn eu bod yn mynychu'r ysgol uwchradd. Fodd bynnag, canfu Mac an Ghaill (1988) fod y 'Creoliaith' neu'r 'dafodiaith' a siaradwyd gan bobl Affricanaidd-Caribïaidd yn gallu achosi problemau; naill ai drwy achosi camddealltwriaeth iddynt neu nad oedd athrawon yn ei ddeall.

Mae nifer o gymdeithasegwyr wedi awgrymu bod natur bywyd teuluol yn effeithio ar gyflawniad ymysg lleiafrifoedd ethnig. Mae'r Dde Newydd wedi beirniadu teuluoedd rhiant sengl - math cyffredin o deulu yn y gymuned Caribïaidd. Mae awduron fel Murray a Saunders wedi awgrymu bod gan bobl Garibïaidd fywyd teuluol sydd heb gymhelliant i fechgyn sy'n tyfu i fyny heb ffigwr tadol. Yn ogystal, mae'r Dde Newydd yn tynnu sylw at y ffaith bod nifer fawr o famau Caribïaidd yn gweithio amser llawn ac oriau anghymdeithasol. Yn anochel, mae hyn yn peri problemau ymarferol o ran arian ac amser wrth gefnogi addysg eu plant. Gallai hyn fod yn ffactor o ran cyflawniad addysgol Caribïaidd gwael.

Daeth Tizzard et al. (1988) ar draws brwdfrydedd mawr ar gyfer llwyddiant addysg ymysg y gymuned Affricanaidd-Caribïaidd. Maent yn annog 'ysgolion Sadwrn' a leolir ym mhob dinas lle ceir poblogaeth gweddol niferus o bobl Ddu. Trefnir yr ysgolion gan y gymuned ddu. Yng nghymunedau De Asiaidd, yn enwedig yn y grŵp Indiaidd ac Affricanaidd-Asiaidd, ystyrir addysg yn 'adnodd cadarnhaol' sy'n helpu rhoi mynediad at y proffesiynau a symudoledd cymdeithasol i fyny. Mae gan rieni ddisgwyliadau uchel ar gyfer addysg eu plant, ac mae'n bosibl bod anogaeth a disgwyliadau rhieni yn ffactor sylweddol sy'n cyfrannu at lwyddiant eu plant.

Darganfu Bhatti (1999) fod rieni Asiaidd yn gwerthfawrogi addysg, nid oedd ganddynt lawer o ddealltwriaeth o sut mae ysgolion yn cael eu trefnu. Roeddent yn teimlo bod ysgolion yn ddigroeso ac yn anghefnogol. Roedd y plant wedi cael profiad o hiliaeth, ond nid oedd yr ysgolion yn cydnabod hyn yn gyfan gwbl nac yn ymdrin ag ef yn effeithiol. Doedd dim llawer o ddiddordeb mewn diwylliant Asiaidd yn ysgolion Prydain ac ychydig o gydnabyddiaeth gadarnhaol o'r gwahaniaethau diwylliannol.

Cwestiynau

1. Pa anawsterau y gallai rhieni o leiafrifoedd ethnig ddod ar eu traws wrth gefnogi eu plant?
2. Ym mha ffyrdd y mae aelodau o leiafrifoedd ethnig yn cefnogi eu plant?

Allwedddeiriau

Deall diwylliant (Addysg)

- Ysgolion Sadwrn - ysgolion penwythnos a drefnir gan ac ar gyfer lleiafrifoedd ethnig er mwyn gwneud yn iawn am berfformiad gwael yn ysgolion traddodiadol y wladwriaeth.
- Heb gymhellant - digalonni pobl i beidio â gwneud rhywbeth.
- Y Dde Newydd - safbwynt gwleidyddol sy'n gysylltiedig â Margaret Thatcher a Llywodraethau'r Ceidwadwyr yn ystod y 1980au. Credai fod cystadlu yn beth da i'r gymdeithas a bod pobl dlawd yn dlawd oherwydd budd-daliadau lles.
- Papur Gwyn - adroddiad Llywodraeth sy'n amlinellu polisi posibl ar gyfer y dyfodol.
- Dyheadau - gobeithion ac uchelgeisiau.
- gwaddol - tâl a wneir i deulu'r gŵr wrth briodi
- Hiliaeth - gwahaniaethu ar sail ethnigrwydd, diwylliant neu grefydd.

Pwysau gan gyfoedion neu hiliaeth?

Bwledi

- Awgryma Tony Sewell a Mairtin Mac an Ghaill fod diwylliant gwrth-ysgol ymhlith bechgyn Affricanaidd-Caribiaidd.
- Mae awduron eraill yn awgrymu bod ysgolion yn hiliol ac yn gwahaniaethu yn erbyn bechgyn Affricanaidd-Caribiaidd.
- Dymuna rhai rhieni Affricanaidd-Caribiaidd gael ysgolion i ddisgyblion du yn unig er mwyn gwrthsefyll hiliaeth.

Testun

Nododd Tony Sewell (1997) fod pwysau gan gyfoedion a diwylliant y stryd yn ffactor allweddol i esbonio pam mae cyflawniad cymaint o ddisgyblion Du-Caribiaidd yn dirywio trwy gyfnod ysgol uwchradd. Mae'n ystyried bod nifer mawr o fechgyn sy'n tyfu i fyny mewn teulu un-rhiant benywaidd yn ffactor, ac mae'n tynnu sylw at y ffaith y gall hyn wneud bechgyn yn agored i ddylanwadau negyddol pwysau gan gyfoedion a diwylliant y stryd. Mae bechgyn yn cael eu denu at ddiwylliant gwrywaidd sy'n tanseilio gwerth ysgol a chymwysterau addysgol. Dengys Máirtín Mac an Ghaill (1988) yr agwedd hon yn ei ddisgrifiad o 'Rastas' a oedd yn cyrraedd yn hwyr am wersi, yn tarfu ar fyfyrwyr eraill, yn ymyrryd ar athrawon, yn ceisio creu dadl ac yn siarad yn ddi-baid trwy gydol gwersi.

Dadleuai beirniaid Sewell ei fod yn anwybyddu cwricwlwm cudd ethnoganolog hiliol, ymagweddau athrawon a pholisïau'r system addysg. Dadleuai Andrew Pilkington (1999) y dylai ymchwiliad ganolbwyntio ar ddau gwestiwn allweddol. Oes tystiolaeth o wahaniaethu ar sail hil wrth ddyrannu disgyblion i set/ffrwd? Oes tystiolaeth o wahaniaethu ar sail hil yn y dosbarth? Ymchwiliodd Cecile Wright (1992) i bedair ysgol gynradd canol dinas a daeth ar draws tystiolaeth bod athrawon yn trin plant o leiafrifoedd ethnig yn wahanol i blant gwyn. Daeth David Gillborn (1990) i gasgliad tebyg yn ei astudiaeth o addysg uwchradd. Credai mai'r rheswm am dangyflawni ymhlith grwpiau o leiafrifoedd ethnig yw hiliaeth.

Darganfu Gillborn a Youdell (2001) dystiolaeth bod hiliaeth yn ffactor allweddol mewn tangyflawni addysgol. Mewn astudiaeth o ddwy ysgol yn Llundain, gwelsant mai plant Du oedd y grŵp cyflawniad isaf ar ôl iddynt adael yr ysgol yn dilyn sefyll arholiadau TGAU er eu bod y grŵp cyflawniad uchaf pan wnaethant ddechrau yno. Roeddent yn llai tebygol hefyd i gael eu cofrestru ar gyfer y haenau uwch o arholiadau TGAU.

Deall diwylliant (Addysg)

Astudiodd Smith a Tomlinson (1989) 2,400 o ddisgyblion rhwng 11 a 16 oed o ystod o grwpiau ethnig a oedd yn mynychu 18 ysgol gyfun aml-ethnig. Darganfuont fod amrywiaeth mawr yn y lefelau cyflawni, sy'n awgrymu y gallai ysgolion wneud gwahaniaeth sylweddol i blant o bob grŵp ethnig.

Mewn ysgolion yn Lloegr, y grŵp Affricanaidd-Caribïaidd sydd â'r gyfradd gwahardd uchaf, mae dair gwaith gymaint â chyfradd disgyblion gwyn. Esboniad Bourne et al (1994) am y gwaharddiadau hyn oedd eu bod yn deillio o danseilio awdurdod a bod athrawon gwyn yn teimlo o dan fygythiad. Awgryma eraill fod y gwaharddiadau o ganlyniad i ymddygiad sy'n deillio o rwystredigaethau hiliaeth. Mewn ysgolion, mae tangynrychiolaeth o athrawon du sy'n cyfrif am 1.5% o athrawon yn unig (7% yn Llundain). Yn 2007 galwodd y grŵp Reach am fwy o fodelau rôl cadarnhaol o gymunedau'r bechgyn Du eu hunain er enghraifft cyfreithwyr, meddygon ac athrawon.

Yn 2004, dywedodd Trevor Phillips o'r Pwyllgor Cydraddoldeb Hiliol ddadl pan ddywedodd fod rhai rhieni Du am ddosbarthiadau ar wahân i ddisgyblion Du mewn ysgolion y wladwriaeth. Mae rhai rhieni Affricanaidd-Caribïaidd yn awgrymu creu 'ysgolion Du' i feithrin delwedd gadarnhaol o hunaniaeth Ddu. Yn yr un modd, mae'r gymuned Fwslimaidd yn dadlau y dylai addysg eu plant fod yn seiliedig ar Islam. Maent yn tynnu sylw at y ffaith bod ysgolion crefyddol 'prif-ffrwd' (Anglicanaidd, Pabyddol ac Iddewig) eisoes yn cael cymorth gan y llywodraeth ac felly mae'n wahaniaethol i beidio â rhoi'r un cymorth i Sikhiaid, Mwslemiaid a Hindŵiaid. Mae'n ymddangos bod ofn ffundamentalistaeth Islamaidd wedi gostwng y brwdfrydedd hwn, ond adferwyd diddordeb mewn Ysgolion Ffydd yn y Papur Gwyn Addysg (2006).

Cwestiynau

1. Pa dystiolaeth sydd o hiliaeth mewn ysgolion ym Mhrydain?
2. A ddylai fod ysgolion ethnig unigol? Beth yw'r ddadl o blaid ac yn erbyn hyn?

Allweddeiriau

- Creol - iaith sy'n gysylltiedig â disgynyddion Caribïaidd.
- Economi A-C - Y pwyslais y mae rhan fwyaf o ysgolion yn ei osod ar gael cynifer o ddisgyblion ag y bo modd i ennill 5 pwnc TGAU, gradd C.
- Brysbennu addysgol - term a gysylltir â Gillborn ac Youdell. Term meddygol yw brysbennu a ddefnyddir i flaenoriaethu anghenion y claf. Maent yn dadlau bod proses o ridyllu yn digwydd yn y system addysg lle mae pobl ddu a'r dosbarth gweithiol ar eu colled.
- Ethnoganolog -mabwysiadu safbwynt o'r byd o'ch diwylliant eich hunan.
- Cwricwlwm cudd - y gwerthoedd y mae'r ysgol yn eu rhoi heb fod pobl yn sylweddoli.
- Hiliaeth gyfundrefnol - term a ddefnyddir i ddisgrifio presenoldeb hiliaeth mewn sefydliadau prif-ffrwd, gan gynnwys ysgolion a cholegau.
- Ysgolion Sadwrn - Ysgolion penwythnos a drefnir gan ac ar gyfer lleiafrifoedd ethnig er mwyn gwneud yn iawn am berfformiad gwael yn ysgolion traddodiadol y wladwriaeth.

Gender ac ethnigrwydd

Bwledi

Deall diwylliant (Addysg)

- Mae gwelliant perfformiad merched du yn dangos nad yw lefelau cyrhaeddiad yn sefydlog ond maent yn newid dros amser.
- Mae'n ymddangos bod merched du yn mabwysiadu isddiwylliant sydd o blaid addysg ond yn wrth-ysgol (Fuller, Mac an Ghaill, Mirza).
- Mae merched du yn ymarfer gwrthwynebiad. Nid ydynt yn derbyn barn amdanynt eu hunain sy'n negyddol.

Testun

Yn 2004, dangosodd y canlyniadau am y tro cyntaf fod merched duon yn ennill graddau gwell na bechgyn gwyn. Mae astudiaethau gan bobl fel Mary Fuller (1980), Máirtín Mac an Ghaill (1991), a Heidi Mirza (1992) i gyd yn ystyried sut y gwnaeth merched Affricanaidd-Caribiaidd yn well na bechgyn Affricanaidd-Caribiaidd.

Dangosodd astudiaeth Fuller fod merched du yn gweithio'n galed er mwyn herio'r sarhad a'r hiliaeth sy'n rhan o'u bywydau. Roedd yr agwedd hon yn nodwedd o'r 'Chwirydd Du' safon A a astudiwyd gan Mac an Ghaill. Yn yr ysgol roeddent yn gwneud y gwaith ond roedd ganddynt agwedd negyddol hefyd. Gwnaethant hyn er mwyn sicrhau eu bod yn llwyddiannus yn eu harholiadau, ond roeddent yn parhau i herio agwedd hiliol athrawon. Yn ei hastudiaeth o ysgolion cyfun yn Llundain darganfu Mirza fod merched du (74%) yn fwy tebygol o anelu at gael swyddi proffesiynol â chyflogau da o'u cymharu â bechgyn du (27%) neu ferched gwyn (35%).

Cynhaliodd Geoffrey Driver (1980) arolwg o ddisgyblion a oedd yn ymadael â'r ysgol mewn pum ysgol canol dinas a gwelwyd bod merched Affricanaidd-Caribiaidd yn gwneud yn well na phlant gwyn. Mynnai fod llwyddiant y merched hyn yn deillio o gryfder y traddodiad teuluol sy'n canolbwyntio ar y fam (mamlinachol) a geir yn Jamaica. Ystyrir bod menywod yn gryf ac yn bwerus. Maent yn fodelau rôl cadarnhaol iawn i'w merched. Daethpwyd â'r ymagwedd fenywol gref hon i Brydain.

Cwestiynau

1. Sut y mae'n bosibl i isddiwylliannau addysgol merched du wahaniaethu o'u cymharu ag isddiwylliannau addysgol bechgyn du?
2. Pa ffactorau a allai esbonio cymhelliant merched Affricanaidd-Caribiaidd i lwyddo yn yr ysgol?

Allweddeiriau

- Teulu lle canolbwyntir ar y fam - teulu un rhiant lle mae'r fam yn ben ar y teulu sy'n ystadegol gyffredin yn y gymuned Affricanaidd-Caribiaid.
- Gwrthwynebiad - gwrthod derbyn safbwynt dominyddol a'i herio mewn rhyw ffordd.

Cyfranogiad mewn Addysg Bellach ac Addysg Uwch

Bwledi

- Mae myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o barhau mewn addysg ôl-16 na myfyrwyr gwyn.
- Mae Indiaid dwywaith yn fwy tebygol o fynd i brifysgol na myfyrwyr gwyn.

Deall diwylliant (Addysg)

- Mae myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig wedi'u canoli mewn prifysgolion sy'n llai cyfoethog ac sy'n is o ran statws.
- Mae myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig yn dueddol o beidio â chael y graddau gorau mewn prifysgolion.
- Mae'n ymddangos bod merched o leiafrifoedd ethnig sy'n fyfyrwyr o dan anfantais ddwbl wrth wneud cais am addysg uwch.

Testun

Dengys Astudiaeth Carfan Ieuenctid (2002) fod aelodau o leiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol i aros mewn addysg amser-llawn ar ôl 16 oed na myfyrwyr gwyn. Yn 2002, roedd 75 y cant o Indiaid mewn addysg amser-llawn ôl-16, dwywaith y gyfran o bobl wyn. Mae'r bwlch cyflawni rhwng pobl Wyn a phobl Affricanaidd-Caribïaidd wedi cau erbyn cyrraedd 18 oed. Fodd bynnag, ceir nifer mawr o bobl Affricanaidd-Caribïaidd yn cymryd rhan mewn cynlluniau hyfforddi fel New Horizons o gymharu â grwpiau ethnig eraill. Mae dynion De Asiaidd yn fwy tebygol o aros mewn addysg amser-llawn na menywod, ond ceir y gwrthwyneb o ran pobl Affricanaidd-Caribïaidd. Dynion Affricanaidd-Caribïaidd yw'r lleiaf tebygol o unrhyw grŵp i ennill gradd.

Gorgynrychiolir grwpiau ethnig lleiafrifol mewn Addysg Uwch (o gymharu â'u canran o'r boblogaeth). Fodd bynnag, Grŵp Russell yw'r enw ar yr ugain uchaf o brifysgolion y mae pobl wedi clywed amdanynt. Yn y prifysgolion hyn ceir 30% o'r holl fyfyrwyr a hwy sydd â 65% o'r arian ymchwil, a 56% o'r holl ddoethuriaethau (y graddau gorau). Darganfu Broecke a Nicholls eu bod yn llai tebygol i ddenu myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig i wneud cais i fynd yno. Mae myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig yn dueddol o wneud cais i fynd i brifysgolion sy'n llai cyfoethog neu ddim mor enwog.

Darganfu Taylor (1993) 'anfantais ddwbl' amlwg i ferched o leiafrifoedd ethnig a oedd yn gwneud cais i fynd i brifysgol. Un broblem i'r merched hyn oedd eu bod yn dueddol i wneud cais i astudio pwnc sydd yn boblogaidd iawn neu le mae angen cymwysterau mynediad uchel. Mae merched Asiaidd wedi'u canoli mewn gwyddoniaeth a gwyddorau cymdeithasol a cheir merched Affricanaidd-Caribïaidd wedi'u canoli mewn gwyddorau cymdeithasol. Mae'r gost wedi digalonni llawer o fyfyrwyr dosbarth gweithiol rhag mynd i brifysgol. Efallai bod hyn yn effeithio ar fyfyrwyr o leiafrifoedd ethnig sy'n dod o gefndiroedd tlotach. Yn bwysig, darganfu astudiaeth yn 2007 gan Clark a Drinkwater, ar ran Sefydliad Joseph Rowntree, nad yw pobl â chymwysterau sy'n dod o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn cael yr un gwobrau o ran swyddi a dyrchafiad o gymharu ag eraill.

Cwestiynau

1. Pam rydych yn meddwl bod dynion De Asiaidd yn dueddol o aros mewn addysg yn hwy na merched?
2. Ym mha ffyrdd y mae myfyrwyr benywaidd o leiafrifoedd ethnig o dan 'anfantais ddwbl'?
3. Pam efallai bod myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig yn gwneud cais i fynd i brifysgol sy'n llai cyfoethog ac o statws is?

Allweddeiriau

- Astudiaeth Carfan Ieuenctid - Astudiaeth sydd wedi olrhain grŵp o bobl ifanc yn ystod eu bywydau.
- Prifysgolion Grŵp Russell - yr 20 brifysgol orau yn y Deyrnas Unedig.

Deall diwylliant (Addysg)

Beth yw patrymau cyflawniad y ddau ryw?

Beth yw patrymau cyflawniad y ddau gender?

Bwledi

- Hyd at ganol y 1980au, roedd bechgyn yn gwneud yn well na merched mewn ysgolion.
- Ystyrir mai hyn oedd yn naturiol, ac eithrio gan ffeministiaid hyd at ganol y 1970au.
- Newidiodd ymchwil ffeministiaid lawer o agweddau mewn ysgolion.
- Erbyn canol y 1980au, roedd merched a bechgyn yn cyflawni cystal â'i gilydd.
- Mae merched bellach yn gwneud yn well na bechgyn yn gyson ar bob lefel ac yn y rhan fwyaf o bynciau.
- Mae hyn yn achos pryder i lawer o wleidyddion.

Testun

Mae gwahaniaethau sylweddol rhwng y ddau gender o ran llwyddiant addysgol merched a bechgyn. Hyd ganol yr 1980au, roedd bechgyn yn gwneud yn well na merched ar bob lefel o'r system addysg, ac eithrio'r 11+. Yn y 1960au, ar gyfartaledd, roedd canlyniadau bechgyn 5% yn well na rhai'r merched. Ystyrir hyn gan y rhan fwyaf o awduron addysg yn brawf fod merched ar y cyfan yn llai deallus na bechgyn a bod bechgyn yn 'ddatblygwyr hwyr'. Ni fu unrhyw her o ddifrif i'r math hwn o feddylfryd tan y 1960au a'r 1970au pan oedd ffeministiaid yn tynnu sylw at y ffaith nad oherwydd deallusrwydd bechgyn roedd eu perfformiad yn yr ysgol yn well na merched, ond am fod profiadau addysgol bechgyn a merched yn wahanol iawn. Mae nifer o astudiaethau arwyddocaol gan awduron fel Spender, Deem, Stanworth a Delamont yn tynnu sylw at y rhywiaeth yn y system addysg a oedd yn adlewyrchu rhywiaeth bywyd bob dydd yn eu golwg hwy.

At ei gilydd, cynigiwyd cwricwlwm i ferched a oedd yn eu paratoi ar gyfer bywyd yn y cartref, tra roedd bechgyn yn cael cynnig pynciau ymarferol fel gwaith coed a gwaith metel. Ysgrifennwyd llyfrau ysgol yn canolbwyntio'n gadarn ar ddynion. Roedd hyd yn oed y wisg ysgol yn wrywaidd eu dull sef cot, crys a thei, a'r unig wahaniaeth oedd sgert i ferched. Roedd hyn yn atgyfnerthu'r syniad o'r cwricwlwm cudd sef bod addysg a deallusrwydd yn wrywaidd. Hyd yn oed mor ddiweddar â 1993, arolygodd Scrimgeour addysg gyda sampl fechan o athrawon yn Yr Alban a gwelodd fod tueddiad sylweddol o blaid dynion o ran ymarfer a deunyddiau.

Fodd bynnag, mae'r ddadl hon wedi mynd yn ddryslyd ers canol yr 1980au, pan ddechreuodd y ddau gender wella eu perfformiad ysgol yn sylweddol. Roedd y gwelliant ymhlith merched yn gyflymach nag oedd ymhlith bechgyn. Nid merched yw'r gender a gysylltir bellach â thangyflawni. Yn 2007, roeddent yn gwneud yn well na bechgyn ym mhob Cyfnod Allweddol (ac eithrio Mathemateg CA2). Roedd merched yn gwneud yn well na bechgyn yn arholiadau TGAU yn 2007 o 9.1 pwynt canrannol. Er bod cyflawniad bechgyn wedi codi ochr yn ochr â chyflawniad merched er yr 1980au, mae cyflawniad merched wedi gwella'n gyflymach.

Mewn Saesneg, mae merched wedi symud ymlaen gyflymach ym mhob Cyfnod Allweddol. Yn arholiadau TGAU mae'r bwlch rhwng y rhywiau yn 13.9% gyda 69.2% o ferched yn ennill gradd A* i C o gymharu â dim ond 55.3% o fechgyn yn 2007. Amlinellir pwysigrwydd gallu mewn Saesneg er mwyn cefnogi'r holl bynciau eraill gan fod merched ar y blaen o ran holl

Deall diwylliant (Addysg)

ganlyniadau TGAU. Roedd cyfran y merched a gafodd bump neu fwy gradd C neu well yn 2007 yn 66%; roedd y ffigur ar gyfer bechgyn yn ddim ond 57%. Ni enillodd chwarter o fechgyn unrhyw raddau A* i C. Er bod bwlch rhwng y rhywiau mewn mathemateg a gwyddoniaeth nid yw mor sylweddol.

Cwestiynau

1. Beth yw'r patrymau a'r tueddiadau o ran gender mewn cyrhaeddiad addysgol sydd wedi bod yn nodweddiadol o'r 40 mlynedd diwethaf?
2. Pam yr ystyrir bod tangyflawniad bechgyn yn achos i bryderu?

Allweddeiriau

- Ffeministiaeth - safbwynt sy'n awgrymu bod dynion yn dominyddu cymdeithas.
- Rhywiaeth - ymddygiad sy'n rhoi mantais i un rhyw dros y llall.
- Bwlch gender - y gwahaniaeth rhwng cyrhaeddiad gwrywod a benywod.

Tangyflawni ymhlith gwrywod - chwedl neu ffaith

Bwledi

- Mae cyflawniad addysgol pob plentyn wedi gwella.
- Cyfeiria'r ymadrodd 'bwlch gender' at y gwahaniaeth mesuradwy sylweddol mewn cyflawniad rhwng gwrywod a benywod.
- Mae benywod yn gwneud yn well na gwrywod ym mhob grŵp ethnig.
- Mae bechgyn o'r dosbarth canol yn parhau i fod yn gymharol lwyddiannus. Y grŵp gwaethaf o ran perfformiad yn y system addysg yw bechgyn du neu wyn o'r dosbarth gweithiol.

Testun

Tra bod bwlch amlwg rhwng y ddau gender o ran cyrhaeddiad, mae cymdeithasegwyr yn ystyried dosbarth cymdeithasol fel y ffactor fwyaf o ran cyrhaeddiad. Felly dim ond rhai bechgyn sy'n methu. Yn gyffredinol, mae bechgyn o'r dosbarth canol yn gwneud yn dda yn y system addysg, tra bod merched o'r dosbarth gweithiol ddim yn gwneud cystal, er hynny maent yn gwneud yn well na bechgyn dosbarth gweithiol. Bechgyn du neu wyn o'r dosbarth gweithiol sydd wedi dod yn ganolbwynt panig moesol am dangyflawni.

Mae Warrington a Younger (1999) yn nodi y dylai llwyddiant merched fod yn destun dathlu a llongyfarch, ond yn lle hynny fe'i ystyrir yn 'broblem' a mynegir pryder am sut mae gwrywod yn 'methu'. Nid yw tangyflawni ymhlith gwrywod yn rhywbeth sy'n unigryw i Brydain, ond ymddengys ei fod yn ffenomenon fyd-eang. Wrth organolbwyntio ar y broblem gymdeithasol hon o 'fechgyn sy'n tangyflawni', mae perygl ein bod yn anwybyddu'r realiti sef bod perfformiad bechgyn fel grŵp wedi bod yn gwella'n sylweddol dros amser. Y gwir yw bod canlyniadau arholiadau yn adlewyrchu cyfraddau gwella'r ddwy ryw.

O ran addysg ôl-16, mae mwy o fenywod yn aros mewn addysg ac yn mynychu Addysg Uwch. Mae hyn yn cael effaith gynyddol yn y gweithle gan fod mwyfwy o fenywod â statws graddedigion yn mynd i feysydd a ystyrir yn hanesyddol yn rhai gwrywod.

Serch hynny, mae ffeministiaid fel Becky Francis (2006) yn honni er gwaethaf y

Deall diwylliant (Addysg)

canolbwyntio o ran tangyflawni ymhlith gwrywod, bod cyfran uchel o ferched dosbarth gweithiol yn parhau i fethu o hyd. Yn ogystal, maent yn dadlau bod llawer o fenywod yn methu â chyflawni eu potensial neu'n dewis i astudio pynciau gwahanol. Lle bo menywod yn llwyddo, mae ffeministiaid yn honni bod hyn er gwaetha'r system addysg ac nid o'i herwydd. Mae ffeministiaid yn hawlio bod merched o dan anfantais sefydliadol mewn ysgolion. Hefyd, mae Hartman yn dweud bod y sylw a roir i wahaniaethau o ran gender yn fawr o'i gymharu â'r modd mae gwahaniaethau mwy mewn cyrhaeddiad rhwng y dosbarthiadau cymdeithasol yn cael ei anwybyddu.

Cwestiynau

1. Pam rydych chi'n meddwl bod y gwelliant ymhlith gwrywod wedi bod ar gyfradd is na'r gwelliant ymhlith menywod?
2. Pam rydych chi'n meddwl na ddethlir llwyddiant menywod, ond yn hytrach fe'i ystyrir yn broblem o fechgyn yn 'methu'?

Allweddairiau

- Bwlch gender - y gwahaniaeth rhwng cyrhaeddiad gwrywod a benywod.
- Addysgeg - addysgu.
- Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw (1975) - cyfraith a wnaeth gwahaniaethu ar sail rhyw yn anghyfreithlon.

Pa ffactorau cymdeithasol sydd o fantais i ferched?

Bwledi

- Mae seicolegwyr yn dueddol o awgrymu bod ymennydd dynion a menywod yn wahanol.
- Mae cymdeithasegwyr yn hawlio bod y gwahaniaethau biolegol yn cael eu gorbwysleisio, ac mai diwylliannol yw'r rhan fwyaf o wahaniaethau rhwng dynion a menywod.
- Mae awduron fel Sharpe yn herio'r syniadau fod merched o'r dosbarth gweithiol heb gymhelliant am yrfa a'u bod yn gweld eu dyfodol o ran bod yn fam yn y cartref.
- Mae Wilkinson yn cyfeirio at y canolbwyntio gan fenywod ar uchelgais a gwella o ran gyrfa a'r gallu i ennill cyflog da fel 'cryniad gender' (genderquake).
- Mae bellach mwy o fodelau rôl benywaidd.
- Mae menywod o'r dosbarth canol yn llwyddo'n well yn yr ysgol na menywod o'r dosbarth gweithiol.

Testun

Mae benywod yn dueddol o ddangos sgiliau llythrennedd gwell na gwrywod. Mae rhai ymchwilwyr o'r farn y gallai hyn fod yn tarddu o fioleg; mae'r farn hon yn boblogaidd ymhlith rhai seicolegwyr. Mae cymdeithasegwyr yn fwy tueddol o ddadlau ei fod yn ymwneud â ffactorau diwylliannol fel cymdeithasoli ac arferion magu plant.

Yn draddodiadol, mae benywod sy'n llwyddo'n dda yn dod o gefndiroedd dosbarth canol. Darganfu Riddell (1992) fod merched dosbarth canol yn rhannu gwerthoedd yr ysgol ac yn ceisio cymeradwyaeth athrawon. Roedd merched dosbarth gweithiol yn gweld eu dyfodol o ran y farchnad swyddi lleol ynghyd â mamolaeth a chartrefgarwch. Fodd bynnag, darganfu Sharpe (1994) fod agweddau merched dosbarth gweithiol wedi newid yn

Deall diwylliant (Addysg)

sylweddol iawn yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf gyda gyrfa, teithio ac annibyniaeth yn cael eu gwerthfawrogi fwyfwy.

Mae agweddau o'r fath yn adlewyrchu'r hyn a eilw Wilkinson (1994) yn 'gryniad gender' lle mae menywod ifanc yn ymdrechu fwyfwy am yrfa foddhaus a'r potensial i ennill cyflog da. Mae menywod ifanc yn fwy hyderus, pendant ac uchelgeisiol ac yn ymdrechu am gydraddoldeb rhywiol. Bu twf mawr yn nifer y menywod sy'n gweithio, gyda menywod sydd â gyrfa lwyddiannus yn enghraifft o fodelau rôl cadarnhaol. Yn 2005, dengys y ffigurau fod ddwywaith cymaint o fenywod wedi dechrau mewn gyrfaedd statws uchel fel meddyginiaeth a'r gyfraith. Yn ogystal, yn y cartref, mae mamau sy'n gweithio hefyd yn fodelau rôl cadarnhaol i'w merched. Darganfu Fuller (1984) yn ei hastudiaeth o ferched du yn Brent, bod merched wedi eu hysgogi i beidio â bod mewn swyddi heb ragolygon am yrfa fel eu mamau. Er hyn mae menywod o'r dosbarth gweithiol sydd heb gymwysterau yn parhau i fod yn gaeth i lanhau, gofalu, arlwyio a gweithio wrth y til. (Adweinir y rhain fel y 4 C yn Saesneg.)

Cwestiynau

1. Pa newidiadau yr arsylwyd arnynt yn enwedig o ran ymagwedd menywod o'r dosbarth gweithiol tuag at addysg?
2. Beth mae Wilkinson yn ei olygu wrth ddefnyddio'r ymadrodd 'cryniad gender'?

Allweddeiriau

- Cryniad gender - y newid dramatig mewn ymagwedd a ddangoswyd gan fenywod yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- Model rôl - unigolyn a ystyrir fel enghraifft berffaith i rywun ei efelychu.

Cyfleoedd Cyflogaeth a chyflawniad isel ymhlith gwrywod.

Bwledi

- Mae rhai awduron yn beio diffyg llwyddiant academiaidd gan wrywod ar dwf ffeministiaeth.
- Mae awduron wedi cysylltu argyfwng gwroldeb â ffeministiaeth.
- Mae eraill wedi awgrymu a wnelo'r broblem â'r modd y mae bechgyn yn creu hunaniaeth gwrywaidd.

Testun

Bu cyfyngiad ar gyfleoedd i wrywod o'r dosbarth gweithiol heb gymwysterau. Mae Shores (1998) yn dweud bod newid o ran gwaith oherwydd dirywiad diwydiannau traddodiadol wedi cyfrannu at ddiweithdra ymhlith dynion. Gelwir hyn yn ddiddiwydiannaeth. Mae'n ffactor allweddol o ran tangyflawniad ymhlith gwrywod o'r dosbarth gweithiol. Gyda'r dirywiad o swyddi gwaith llaw traddodiadol i ddynion, mae llawer o fyfyrwyr gwrywaidd yn teimlo'n ddigymhellant. Maent yn teimlo bod y farchnad gyflogi yn tueddu fwyfwy at ferched.

Deall diwylliant (Addysg)

Awgryma awduron fel Susan Faludi a Robert Bly fod tangyflawni ymhlith gwrywod yn gysylltiedig ag 'argyfwng gwrywdod'. Dadleuir bod disgyblion gwrywaidd, yn synhwyro newidiadau ehangach yn y gymdeithas a chyfleoedd a hyder cynyddol merched yn gyffredinol. Hyd yn oed cyn gadael yr ysgol, mae rhai bechgyn yn cael y neges bod dynion yn ddianghenraid ac nid oes eu hangen ar fenywod. Gall syniadau o'r fath fod yn ddigalon iawn ac yn lle ysgogi dynion ifanc i ennill cymwysterau ymddengys fod hyn eu dieithrio ymhellach i dderbyn eu bod yn fethiant neu i 'ddiwylliant llancaidd' creulon.

Ym 1987 astudiodd Aggleton (1987) ddynion ifanc o'r dosbarth canol proffesiynol newydd a gwelwyd bod y bechgyn hyn yn ymbellhau eu hunain oddi wrth gwroldeb ymosodol dosbarth gweithiol. Maent hefyd yn gwrthod y syniad o weithio'n galed a bod yn ddifrifol. Yn lle hynny, maent yn anelu am hunaniaeth gwrywaidd diymdrech. Mae'n amlwg bod llwyddiant heb ymdrech yn wir yn anodd iawn ei gyflawni.

Dywed Salisbury a Jackson (1995) fod mwy nag un ffurf ar wrywdod i fechgyn uniaethu ag ef. Mae Archer yn dweud nad yw rhain i gyd yn ymosodol. Mae'r syniadau am wrywdod yn gyfnewidiol felly bydd bechgyn yn ymddwyn yn wahanol mewn sefyllfaoedd gwahanol. Mae hunaniaeth gwrywaidd fodd bynnag, yn ymwneud â chreu hierarchaeth o rym a dominyddiaeth felly ystyrir bod mwy o statws yn perthyn i rai hunaniaethau gwrywaidd nag i eraill. Mor gynnar â'r 1970au roedd Willis yn tynnu sylw at y ffaith yr ystyrir cyflawniad academaidd trwy waith caled ymhlith bechgyn yn rhywbeth merchetaidd, o statws isel ac felly'n annymunol, hyd yn oed gan rai athrawon.

Cwestiynau

1. Sut y mae newidiadau yn y gweithle wedi dylanwadu ar lefelau cyflawniad gwrywod a benywod?
2. Beth a ddeallir gan yr ymadrodd 'argyfwng gwroldeb'?
3. Pam mae ffeministiaid yn feirniadol o'r sawl sy'n sôn am argyfwng gwrywdod?

Allwedddeiriau

- Diwylliant llancaidd - ymagwedd o wrywdod difater ac ymddigrifwch sy'n rhoi'r pwyslais ar hiwmor.
- Argyfwng gwroldeb - gwrywod yn teimlo o dan fygythiad oherwydd twf ffeministiaeth a'r angen i greu hunaniaeth iddynt eu hunain.
- Merchetaidd - yn orfenywaidd ac yn ymddwyn fel merch.
- Dieithriad - teimlad o beidio â pherthyn neu fod yn anaddas.
- Hierarchaeth - cyfres o haenau lle mae rhai pobl uwchben eraill.
- Diddiwydiannaeth - dirywiad diwydiant traddodiadol fel gweithgynhyrchu.

Polisïau'r Llywodraeth a gwahaniaethau gender

Bwledi

- Nid rhywbeth newydd yw cyflawniad merched, roedd merched yn gwneud yn well na bechgyn yn arholiad 11-plus y system deir-ran (1944 -1960au) ond roedd cael yr un faint o leoedd i fechgyn a merched yn golygu bod llawer o ferched wedi colli cyfle.
- Ystyrir bod disodli'r system deir-ran ag ysgolion cyfun yn ffactor allweddol wrth wella cyflawniad merched.

Deall diwylliant (Addysg)

- Ystyrir bod mentrau addysg fel cyflwyno ysgolion cyfun, arholiadau TGAU a'r Cwricwlwm Cenedlaethol hefyd wedi bod o fudd o ran cyflawniad merched.
- Ystyrir bod gwaith cwrs o fudd i gyflawniad merched ond mae Elwood yn tynnu sylw at y ffaith fod y newid mewn TGAU Saesneg a oedd gynt yn cynnwys 100% o waith cwrs i gynnwys mwy o arholiadau wedi gwneud y bwlch rhwng merched a bechgyn yn fwy fyth.

Testun

Nid ffenomenon newydd o reidrwydd yw bod benywod yn fwy llwyddiannus yn academiaidd na gwrywod. Mae Chitty (2002) yn tynnu sylw at warth yr arholiadau 11-plus yn y 1950au a'r 1960au pan oedd dau o bob tri a fu'n llwyddiannus yn ferched ond roedd gan awdurdodau lleol gyfraddau llwyddiant gwahanol ar gyfer merched a bechgyn er mwyn sicrhau bod yr un nifer o'r ddwy ryw yn mynd i ysgolion gramadeg. Ar ôl disodli'r arholiad 11-plus ag ysgolion cyfun bu gwelliant sylweddol yn lefelau cyflawniad merched - gan nid oeddynt bellach yn 'methu' er mwyn sicrhau'r un nifer o fechgyn a merched mewn ysgolion gramadeg.

At ei gilydd, ystyrir bod cyflwyno TGAU wedi bod o fudd i fyfyrwyr benywaidd. Un o nodweddion arholiadau TGAU oedd y pwyslais ar waith cwrs. Ystyrir bod merched yn fwy ymrwymedig a chydwybodol wrth gwblhau'r gwaith cwrs yn llwyddiannus. Fodd bynnag, i raddau helaeth, mae Elwood yn gwrthbrofi hyn. O ystyried canlyniadau TGAU mewn Saesneg a oedd gynt yn cynnwys 100% o waith cwrs, mae'r newid i fwy o arholiadau wedi dangos mwy o wahaniaeth rhwng perfformiad merched a pherfformiad bechgyn gyda'r merched yn gwneud yn well na'r bechgyn.

Yn ogystal, ystyrir bod cyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol hefyd wedi helpu merched, gan ei fod yn gorfodi pob disgybl i astudio gwyddoniaeth a thechnoleg - pynciau yr oedd merched gynt yn dewis peidio â'u hastudio. Wrth astudio gwyddoniaeth dangosodd y merched iddynt eu hunain ac i'w hathrawon eu bod yn gymwys mewn pynciau o'r fath a gallent eu mwynhau, a'u bod yn werth eu gwneud ac yn ddewisiadau posibl ar gyfer gradd neu yrfa.

Yn y 70au a'r 80au bu amryw fentrau gwyddoniaeth ar gyfer merched fel WISE (menywod mewn gwyddoniaeth a pheirianeg) a GIST (merched mewn gwyddoniaeth a thechnoleg). Mae'r rhain yn codi proffil merched sy'n wyddonwyr ac yn rhoi model rôl gadarnhaol i fenywod, sy'n wahanol i'r ddelwedd fenywaidd arferol, er bod merched yn cael eu tangynrychioli mewn pynciau gwyddonol a pheirianeg mewn Prifysgolion. Erbyn hyn mae ymchwil a pholisïau'r llywodraeth yn ceisio datrys y broblem o fechgyn yn tangyflawni.

Cwestiynau

1. Pa newidiadau mewn polisïau addysg mae'n ymddangos sydd wedi bod o fudd arbennig i ferched?

Allweddeiriau

- Arholiad 11-plus - arholiad a gyflwynwyd drwy Ddeddf Addysg 1944, a safwyd gan bob disgybl 11 oed yn y sector gwladol. Roedd gan y rhai llwyddiannus fynediad at ddarpariaeth addysg well.
- Cwricwlwm Cenedlaethol - cwricwlwm cyffredin i bob disgybl mewn ysgol wladol a gyflwynwyd yng Nghymru a Lloegr ym 1987.

Deall diwylliant (Addysg)

Gwersi ac ysgolion un rhyw

Bwledi

- Mae llawer o ffeministiaid a seicolegwyr wedi dadlau y dylai bechgyn a merched gael eu haddysg ar wahân.
- Mae awduron eraill wedi awgrymu nad oes llawer o dystiolaeth i gefnogi'r farn hon.
- Mae ysgolion ac Awdurdodau Lleol wedi arbrofi ag addysg un rhyw ar gyfer gwersi.
- Nid oes unrhyw dystiolaeth amlwg i gefnogi'r naill farn na'r llall.

Testun

Dywed seicolegwyr fel Baron-Cohen a Goswami fod mwy o orgyffwrdd na gwahaniaethau rhwng meddyliau merched a bechgyn. Fodd bynnag, mae llawer sydd wedi'u hargyhoeddi bod gan ddynion a menywod feddwl gwahanol a phatrymau dysgu gwahanol.

Yn UDA, mae Leonard Sax o'r farn a gynigir gan lawer o seicolegwyr bod ymennydd dynion a menywod yn wahanol. Mae ef yn ddadleuwr cryf o blaid addysg un rhyw, gan ddadlau y dylai gwersi fod yn briodol i'r rhyw gan fod angen addysg wahanol ar fechgyn a merched. Bellach mae ysgolion a cholegau yn lleoedd mwy ystyriol i ferched. Ceir rhywfaint o gefnogaeth gymdeithasegol gan awduron fel Murphy ac Elwood (1998) sy'n dadlau bod athrawon bellach yn fwy sensitif i faterion sy'n wynebu merched yn ymwneud â'r rhywiau. Mae addysgu wedi dod yn alwedigaeth mwy i fenywod gyda llai o ddynion yn dewis gyrfa mewn addysg. Bu cryn dipyn o HMS ar gyfle cyfartal sy'n peri i athrawon fynd i'r afael ag ymagweddau ac ymarferion rhywiaethol mewn ysgolion.

Yn y 1970au a'r 1980au, arbrofodd amryw o Awdurdodau Lleol â dosbarthiadau un rhyw a mentrau eraill i wella perfformiad merched. Bu profion i symud bechgyn allan o ddosbarthiadau yn ddefnyddiol iawn i ferched mewn dosbarthiadau gwyddoniaeth a mathemateg gan roi iddynt fwy o gyfle i ateb cwestiynau, magu hyder a datblygu diddordeb yn y pwnc.

Mae tystiolaeth ar gael bod merched mewn ysgolion un rhyw yn gwneud yn well na merched mewn ysgolion cydaddysg (cymysg). Mae llawer o ffeministiaid wedi dadlau'n gryf o blaid addysg un rhyw i ferched. Dangosodd ymchwil a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Ysgolion Merched (2007) fod merched a addysgir heb fechgyn yn ennill graddau uwch na hyd yn oed merched yn yr ysgolion cymysg gorau. Mae ysgolion un rhyw i ferched yn aml ar frig y tabl gynghrair i ysgolion. Awgrymir bod ysgolion un rhyw yn annog sgiliau dadlau mewn merched a gellir teilwra cynnwys y wers at ddiddordebau merched. Yn rhyfedd, er bod rhieni o blaid addysg un rhyw i'w merched maent yn anfodlon derbyn hyn ar gyfer eu meibion.

Bu gwrthwybiad cryf i'r farn bod addysg un rhyw yn fwy o blaid merched. Mae Alan Smithers wedi dadlau y gellir priodoli'r gwahaniaeth rhwng cyrhaeddiad mewn ysgolion un rhyw ag ysgolion cydaddysg i ddosbarth cymdeithasol a'r plant a dderbynnir gan fod ysgolion un rhyw gan amlaf yn y sector preifat neu ymhlith ysgolion ffydd a gallant hwy ddewis eu disgyblion.

Cwestiynau

Deall diwylliant (Addysg)

1. Ym mha ffyrdd y mae'n ymddangos bod gwersi ac ysgolion un rhyw o blaid myfyrwyr benywaidd?
2. Pam rydych yn meddwl bod ysgolion un rhyw yn cael llai o effaith fanteisiol ar fechgyn?
3. Pa ddadleuon y gellir eu gwneud o blaid ac yn erbyn addysg un rhyw yn y DU?

Allweddeiriau

- Cydaddysg - ysgolion cymysg yn cynnwys bechgyn a merched.
- Ysgolion un rhyw - un rhyw yn unig sy'n mynychu'r ysgol.
- Ysgolion preifat - ysgolion lle mae'n rhaid i rieni dalu am addysg.
- Ysgolion ffydd - wedi'u cynllunio ar gyfer disgyblion ag un gred, mae ei sefydliad crefyddol yn cyfrannu arian at yr ysgol, yn ogystal â'r cyngor lleol.

Beth yw'r cyswllt rhwng diwylliant dosbarth ac ymddygiad o safbwynt gender?

Bwledi

- Ymddengys fod merched yn gweithio'n galetach ac yn fwy cydwybodol wrth wneud gwaith cartref, gwaith cwrs ac adolygu ar gyfer arholiadau.
- Mae merched yn mabwysiadu strategaethau effeithiol ac ymrwymedig ar gyfer llwyddiant a ysgogwyd gan nodau tymor hir o gymharu ag ymagwedd dyngedfennol bechgyn (bydd popeth yn iawn ar y diwrnod).
- Ymddengys fod bechgyn o dan bwysau oddi wrth eu cyfoedion i ystyried bod yn llwyddiant mewn gwaith academiaidd yn tanseilio eu gwrywod.

Testun

Mewn ysgolion gydaddysg darganfu Mitsos a Browne (1998) fod merched yn gweithio'n galetach, yn treulio mwy o amser i wneud eu gwaith cartref, roeddent yn trefnu eu hunain yn well ac roeddent yn fwy tebygol i fodloni terfynau amser na bechgyn. Darganfu Lyon, et al (2006), fod merched yn sylweddol yn fwy cydwybodol wrth wneud gwaith cartref. Yn ôl ymchwil Harris et al (1993) gellir gwrthdynnu sylw bechgyn yn haws yn y dosbarth ac roeddent yn llai penderfynol o ran goresgyn anawsterau academiaidd.

Roedd rhai bechgyn, yn enwedig o'r dosbarth gweithiol yn ystyried mai rhywbeth merchetaidd oedd gwaith ysgol academiaidd ac yn ei wrthwynebu gan ei fod yn tanseilio eu diwylliant o wrywdod (Willis, 1979). Nid yw'n 'cwl' i fod yn abl yn academiaidd a gall hyn olygu cael eu labelu fel 'sglaig' neu 'gic'. O ganlyniad mae bechgyn yn ceisio gwerthoedd gwrthysgol ac yn mabwysiadu ymagwedd ac ymddygiad 'llancaidd' (Mac an Ghail, 1994).

Darganfu Arnot (2004) fod merched yn mabwysiadu strategaethau dysgu fel holi athrawon ar ôl i'r wers orffen er mwyn gwella eu dealltwriaeth. Dengys tystiolaeth fod merched yn fwy tebygol o adolygu'n fwy effeithiol. Nid ydynt yn gadael pethau tan y funud olaf fel llawer o fechgyn sy'n tybio y bydd "popeth yn iawn ar y diwrnod". Gwna fechgyn esgusodion oherwydd canlyniadau gwael. Byddant yn beio ffactorau allanol fel ansawdd yr addysgu neu'n hawlio y gofynnwyd y cwestiynau anghywir yn yr arholiad. Mae merched yn fwy tebygol o feio eu hunain am berfformio'n wael ac felly ymddengys fod eu cymhelliant yn fwy yn ystod eu hadolygu a'u paratoi er mwyn sicrhau canlyniad llwyddiannus.

Deall diwylliant (Addysg)

Cwestiynau

1. Ym mha ffyrdd y mae ymddygiad merched yn y dosbarth a thu allan iddo yn gwella eu lefelau cyflawniad?
2. Pa ffactorau a nodwyd i esbonio perfformiad gwael bechgyn?

Allweddeiriau

- Diwylliant llancaidd - ymagwedd o wrywdod difater ac ymddigrifwch sy'n rhoi'r pwyslais ar hiwmor.

Beth yw patrymau cyflawniad myfyrwyr o wahanol ddosbarthiadau cymdeithasol?

Beth yw patrymau cyflawniad myfyrwyr o wahanol ddosbarthiadau cymdeithasol?

Bwledi

- Mae bwlch parhaus rhwng lefelau cyflawniad disgyblion dosbarth gweithiol a disgyblion dosbarth canol.
- Mae cydberthynas agos rhwng côd post plentyn a chyflawniad addysgol.
- Er bod cyflawniad dosbarth gweithiol wedi gwella mewn termau absoliwt, mae'r gwahaniaeth cymharol rhwng y dosbarthiadau cymdeithasol bron wedi aros yn ddigyfnewid
- Mae mynediad at ysgolion preifat yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i blant o deuluoedd mwy cyfoethog.

Testun

Mae cyswllt amlwg ac adnabyddus rhwng dosbarth cymdeithasol a chyflawniad addysgol. Mae plant dosbarth canol sydd â lefelau gallu tebyg i blant o'r dosbarth gweithiol bron yn anochel yn ennill graddau gwell.

Ers cryn amser, mae cymdeithasegwyr wedi bod yn pryderu am y bwlch cyflawniad fesul dosbarth cymdeithasol. Ers i addysg orfodol gychwyn, maent wedi bod yn ymwybodol o wastraff mawr o ddoniau dosbarth gweithiol yn y system addysg. Fel grŵp mae'n ymddangos bod llai o gymhelliant ymhlith y dosbarth gweithiol ac felly ni wnânt gystal mewn arholiadau.

Yn ogystal, maent yn fwy tueddol i adael yr ysgol yn 16 oed yn hytrach nag aros ymlaen ar gyfer addysg bellach neu addysg uwch. Er bod y llywodraeth yn beio addysgu ac ysgolion gwael am dangyflawni, mae'n cydnabod bod côd post plentyn hefyd yn ffactor wrth benderfynu cyflawniad. Mae côd post yn dueddol o adlewyrchu cefndir dosbarth cymdeithasol plentyn.

Dengys tablau cynghrair ysgolion fod llwyddiant ysgol yn seiliedig i raddau helaeth ar gefndir dosbarth eu disgyblion. Fodd bynnag, fel rydym wedi gweld mewn testunau eraill, mae ffactorau cymdeithasol fel gender ac ethnigrwydd yn bwysig hefyd o ran llwyddiant addysgol.

Deall diwylliant (Addysg)

Darganfu Bynner a Joshi (1999) bod gwahaniaethau dosbarth cymdeithasol wedi parhau heb nemor ddim newid er y 1950au i'r 1990au. Er mewn termau absoliwt, mae mwy o bobl (gan gynnwys y dosbarth gweithiol) yn ennill mwy o gymwysterau a chymwysterau gwell, mae'r gwahaniaeth cymharol rhwng y dosbarthiadau cymdeithasol bron wedi aros yn ddigyfnawid. Yn wir, darganfu Jefferis et al (2002) fod y bwlch rhwng y dosbarth uwch a'r dosbarth is wedi mynd yn fwy rhwng 1958 a heddiw.

Ni all unrhyw ddadansoddiad o ddosbarth cymdeithasol ac addysg anwybyddu addysg breifat. Crynhowyd manteision addysg breifat i'r rhai hynny y gallant ei fforddio gan Anthony Seldon yn 2008. Dywedodd "Nid yw'n iawn bellach i unrhyw un o'n hysgolion i hufennu'r disgyblion gorau, yr athrawon gorau, y cyfleusterau gorau, y canlyniadau gorau a'r lleoedd prifysgol gorau."

Cwestiynau

1. Pam rydych chi'n meddwl bod bwlch dosbarth cymdeithasol o ran cyflawniad?
2. A ydych chi'n cytuno gyda barn Anthony Seldon am ysgolion preifat?

Allweddeiriau

- Dosbarth cymdeithasol - aelodaeth o grŵp cymdeithasol sy'n seiliedig ar alwedigaeth, statws, addysg ac incwm.

Sut mae amddifadedd materol yn effeithio ar blant?

Bwledi

- Ystyr amddifadedd materol yw bod heb y pethau materol y mae eu hangen arnoch.
- Mae amddifadedd materol yn gysylltiedig â deiet gwael, salwch ac absenoldeb, tai anfodddhaol.
- Mae amddifadedd materol fel arfer yn golygu byw mewn dalgylch ysgol sy'n perfformio'n wael.
- Gall rhieni mwy cyfoethog symud i ddalgylch ysgolion sy'n cyflawni'n dda neu brynu addysg breifat.
- Mae amddifadedd materol yn effeithio ar agweddau tuag at ysgolion.

Testun

Term yw amddifadedd materol a ddefnyddir i ddisgrifio effaith incwm isel ar gartref. Nid oes gan bobl y pethau y mae arnynt eu hangen i gael llwyddiant i'w plant: cyfrifiaduron, bwyd o ansawdd da, lle i wneud eu gwaith, teganau, llyfrau a gemau.

Pwysleisiodd ymchwil cynnar fel hwnnw a wnaed gan Halsey, Heath a Ridge (1980), bwysigrwydd amddifadedd materol a'r cyswllt rhwng cefndir dosbarth cymdeithasol a chanlyniad addysgol. Astudiodd Paul Harrison (1985) fwrdeistref Hackney yn Llundain. Darganfyddodd gydberthynas agos rhwng y ffaith fod problemau mawr o ran tlodi ac amddifadedd ac yma roedd y canlyniadau arholiad isaf yn Llundain.

'Mae'r cartref sy'n nodweddiadol o Hackney yn cynnig llai o deganau a llyfrau, llai o wibdeithiau a gwyliau, prinder lle personol ar gyfer chwarae neu astudio, a diffyg sylw gan

Deall diwylliant (Addysg)

rieni oherwydd oriau gwaith anghymdeithasol neu... problemau parhaus sy'n gysylltiedig â thai ac incwm' (Harrison, 1985).

Ystyr amddifadedd materol yn nodweddiadol yw bod plentyn yn cael diet llai iachus sy'n arwain at salwch, absenoldeb o'r ysgol a chanolbwyntio llai yn y dosbarth. Efallai bod y plentyn mewn amodau byw anfoddhaol fel cartref gorlawn, llety oer a llaith ar ystadau di-raen. Mae bod yn dlawd yn golygu wrth reswm na ellir fforddio addysg breifat na byw mewn dalgylch ysgol â chyrhaeddiad uchel. Dadleuai Smith a Noble (1995) fod rieni dosbarth canol yn gallu symud eu plant o ysgolion sy'n perfformio'n wael a symud i ddalgylch ysgolion perfformiad uchel.

Yn ogystal, efallai bydd plant o deuluoedd incwm isel dan bwysau i ennill arian ac y gall hyn effeithio ar eu hastudio drwy flinder neu ddiffyg amser i wneud gwaith cartref. Darganfu Holmes a Croll (1989) pe bai bechgyn dosbarth gweithiol yn gwneud o leiaf awr o waith cartref y nos byddent yn gwneud cystal â bechgyn dosbarth canol mewn arholiadau. Gall amddifadedd materol roi pwysau i adael ysgol yn 16 oed ac nid i fynd ymlaen i addysg uwch neu i adael coleg neu brifysgol. Yn ei adroddiad i Sefydliad Joseph Rowntree darganfu Ridge (2007) mai'r prif gostau i deuluoedd tlotach oedd gwisg ysgol, cinio a theithiau ysgol. Yn aml roedd rhai rhieni yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i gyn lleied â 50c. Yn ogystal roedd plant tlotach yn cael llai o brofiadau ysgogol allan o'r ysgol fel gwyliau gyda'r teulu, gweithgareddau cymdeithasol, teithiau a gwersi fel dawnsio neu gerdd. Gallai cinio ysgol fod yn ddud i deuluoedd nad oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ond roedd ganddynt nifer o blant o oed ysgol.

Yn fwyfwy, mae ymchwilyr yn ymwybodol bod amddifadedd materol yn effeithio ar emosiynau pobl, felly bydd yn effeithio ar agwedd plant tuag at yr ysgol. Mae Ridge (2007) yn tynnu sylw at y ffaith bod plant tlotach yn ymwybodol na fydd eu profiad o'r ysgol o'r un ansawdd â phrofiadau pobl gyfoethocach. Mae plant dosbarth canol yn ystyried addysg yn llwybr i fywyd da fel oedolyn, tra bo plant dosbarth gweithiol yn ystyried addysg yn negyddol ac yn awgrymu ei fod yn eich atal rhag edrych yn dwp.

Cwestiynau

1. Beth yw amddifadedd materol?
2. Sut y gall amddifadedd materol ddylanwadu ar ffordd o fyw a phrofiadau plant?
3. Sut gall cyfoeth gyfrannu at lwyddiant addysgol?

Allweddeiriau

- Amddifadedd materol - Bod heb y pethau materol y mae eu hangen arnoch i gael safon byw dda.
- JRF - Sefydliad Joseph Rowntree, sef elusen a sefydlwyd i noddi ac adrodd am ymchwil i dlodi ac anghydraddoldeb ym Mhrydain.

Beth yw effaith amddifadedd diwylliannol?

Bwledi

- Cyfeiria amddifadedd diwylliannol at werthoedd ac agweddau rhieni dosbarth gweithiol y mae rhai yn eu hystyried yn achos methiant addysgol i blant.

Deall diwylliant (Addysg)

- Cyfalaf diwylliannol yw y wybodaeth a werthfawrogir gan bobl sy'n rheoli'r system addysg.
- Mae Bernstein yn dadlau bod iaith addysg yn adlewyrchu iaith cartref dosbarth canol.
- Ystyria Bourdieu fod tanseilio diwylliant a gwybodaeth y dosbarth gweithiol mewn ysgolion yn ffurf o drais symbolig. Mae pynciau y mae plant dosbarth gweithiol yn gwneud yn dda ynddynt yn cael eu dibrisio fel pynciau hawdd.

Testun

Mae damcaniaeth amddifadedd diwylliannol yn awgrymu nad yw diwylliant pobl dosbarth gweithiol 'cystal' â diwylliant pobl dosbarth canol ac mae hyn yn arwain at fethiant addysgol ymhlith plant dosbarth gweithiol. Mewn gwirionedd, mae'r syniad yn un poblogaidd er ei fod yn un dadleuol mewn cymdeithaseg. Un farn yw nad yw rhieni dosbarth gweithiol cystal rhieni o ran magu plant. Mae'r agwedd hon yn canolbwyntio ar y nodweddion a'r gwerthoedd a drosglwyddir gan rieni i'w plant trwy arferion magu plant a chymdeithasoli. Cefnogir y fersiwn hon o'r ddamcaniaeth gan y Dde Newydd a phobl fel Melanie Phillips a Sue Palmer, awdur Toxic Childhood.

Fodd bynnag, mae barn arall yn cynnig bod y dosbarth gweithiol yn ddioddefwyr oherwydd cymdeithas anghyfartal. Felly ystyrir bod y cartref dosbarth gweithiol yn llai effeithiol wrth drosglwyddo gwerthoedd sy'n briodol i lwyddiant addysg. Datblygodd Pierre Bourdieu y cysyniad o 'gyfalaf diwylliannol' a 'habitus' i adlewyrchu pwysigrwydd diwylliant. Dadleuai Bourdieu mai uchaf yn y strwythur dosbarth y mae teulu, mwy o'r gwerthoedd diwylliannol pwysicaf sydd ganddynt. Gan fod y rhain yn adlewyrchu gwerthoedd y system addysg, maent yn darparu llwybr i lwyddiant. Mae athrawon yn ystyried disgyblion o gartrefi dosbarth canol yn gadarnhaol.

Cefnogir hyn gan Ridge (2007) a ddarganfu fod plant dosbarth gweithiol yn fwy tebygol o gwyno bod athrawon yn gweiddi arnynt ac yn eu hesgeuluso. Mae cyflawniad addysgol felly yn fwy tebygol pan fo gwerthoedd y cartref a'r gymdogaeth yn adlewyrchu ethos a'r diwylliant dysgu a hyrwyddir mewn ysgolion.

Dywed Basil Bernstein mewn darn dadleuol o'r 1970au fod un gwahaniaeth diwylliannol yn ymwneud ag iaith. Mae gan blant dosbarth canol fynediad at iaith gymhleth llyfrau a syniadau yn y cartref, lle nad oes hyn gan blant dosbarth gweithiol. Mae ef yn honni bod côd ieithyddol 'estynedig' y dosbarth canol yr un ag iaith gwrslyfrau ac iaith y dosbarth. Mae plant dosbarth gweithiol sy'n defnyddio'r hyn a eilw Bernstein y côd 'cyfyngedig' yn amlwg o dan anfantais.

Gan fod mantais gan y dosbarth canol o ran addysg draddodiadol, maent yn gwrthwynebu unrhyw cymwysterau newydd fel cyrsiau galwedigaethol neu bynciau lefel A mwy diweddar fel Astudiaethau Cyfryngau sy'n addas ar gyfer plant dosbarth gweithiol fel pethau 'hawdd' neu 'ansylweddol'.

Mae Pierre Bourdieu yn disgrifio'r tanseilio hyn o ddewisiadau, gwybodaeth, acen a hyder cyffredinol y dosbarth gweithiol yn ffurf ar 'drais symbolig'. Mae'r dosbarth canol yn gallu diffinio'r cwricwlwm a beth sy'n cyfrif fel gwybodaeth gwerth ei chael. Mae'n amlwg fod hyn yn anfantaisiol i'r dosbarth gweithiol er eu bod hwy'r un mor awyddus â'r dosbarth

Deall diwylliant (Addysg)

canol i wneud yr hyn sydd orau i'w plant.

Sonia Ball, Bowe a Gewirtz (1995) am 'gyfalaf diwylliannol a dewis addysgol' i adlewyrchu'r ffaith oherwydd bod gan rieni dosbarth canol wybodaeth a sgiliau gwell i drafod y system addysg am eu bod wedi derbyn addysg well eu hunain. Mae llawer o rieni dosbarth gweithiol yn uchelgeisiol ar ran eu plant, ond nid ydynt yn gwybod sut i roi cymorth ymarferol iddynt.

Darganfu Gillies (2005) y gallai rhieni dosbarth canol gael mynediad at lawer o adnoddau i helpu eu plant a chanolbwyntio ar hyfforddi eu plant mewn sgiliau cymdeithasol. Mae rhieni dosbarth gweithiol yn canolbwyntio ar ddarparu strategaethau i'w plant i ymdopi ag anghyfiawnder a chaledi. Mewn achosion o fwlio roedd mam o'r dosbarth canol wedi wynebu'r ysgol tra roedd mam o'r dosbarth gweithiol wedi gadael ei phlentyn i chwarae triwant o'r ysgol er mwyn osgoi bwlio.

Yn ogystal â chyfalaf diwylliannol y cartref, mae gwerthoedd isddiwylliannol hefyd. Mae'r rhain yn dueddol o effeithio ar fechgyn, ac yn gweithredu yn erbyn eu gallu i gyflawni yn y system addysg. Er enghraifft, darganfu Philip Brown (1987) yn ei astudiaeth o blant ysgol 'cyffredin' ym Mhort Talbot, efallai bod plant dosbarth gweithiol o dan bwysau gan rai rhieni ac yn sicr pwysau gan gyfoedion i wrthgilio'n (drop-out) gynnar o'r ysgol. Fe'u dysgir i osgoi rhoi'r argraff eu bod yn 'gic' neu'n 'sglaig' (yn enwedig os ydynt yn fechgyn). Darganfu Brown fod myfyrwyr a oedd yn cyflawni yn uchel mewn ysgolion dosbarth gweithiol yn aml yn cael eu bwlio a'u hynysu.

Cwestiynau

1. Beth yw amddifadedd diwylliannol?
2. A yw diwylliant dosbarth gweithiol yn wahanol iawn i ddiwylliant dosbarth canol?
3. Pa sgiliau cymdeithasol sydd eu hangen er mwyn llwyddo yn yr ysgol?

Allweddeiriau

- Cyfalaf diwylliannol - gwybodaeth a werthfawrogi gan bobl sy'n rheoli'r system addysg.
- Amddifadedd diwylliannol - heb y wybodaeth a'r ymagwedd iawn i lwyddo.
- Côt estynedig - patrymau llefaru'r dosbarth canol sy'n cynnwys brawddegau hir a geirfa soffistigedig.
- Côt cyfyngedig - patrymau llefaru'r dosbarth gweithiol sy'n cynnwys brawddegau byr a geirfa syml.
- Trais symbolig - y system addysg yn iselhau y dosbarth gweithiol am nad oes ganddynt, neu nid ydynt yn gwybod, y moesau, acen, hyder a'r wybodaeth iawn.

A oes atebion i amddifadedd materol a diwylliannol?

Bwledi

- Yr ymdrech gyntaf at addysg gydadferol oedd Operation Headstart yn UDA, ond roedd y gost yn ormodol a chyfyngedig oedd yr effaith.
- Roedd y Llywodraeth Lafur (2008) i raddau helaeth yn rhoi'r bai am dangyflawni ar ysgolion ac addysgu gwael.

Deall diwylliant (Addysg)

- Mae mentrau fel Cychwyn Cadarn, Parthau Gweithredu Addysg a Rhagoriaeth mewn Dinasoedd yn dangos rhyw dderbyniad o gyswllt rhwng amddifadedd materol a thangyflawni.
- Dadleuai Nell Keddie (1973) nad yw cefndir cartref dosbarth gweithiol yn amddifadus ond yn 'wahanol'.
- Gall y syniad o amddifadedd diwylliannol neu amddifadedd materol anwybyddu diffygion yr ysgolion eu hunain.
- Yn ôl ymchwil gan Y Sefydliad Addysg (2008), darganfuwyd bod plant o gefndiroedd tlawd yn gallu bod blwyddyn ar ôl plant o gefndiroedd mwy cyfoethog o ran datblygiad wrth gyrraedd tair oed.

Testun

Bu ymdrechion i wella cyflawniad plant o gefndiroedd materol a diwylliannol dlawd. Un o'r enghreifftiau cynharaf a drutaf o addysg gydadferol oedd Operation Head Start a ddatblygwyd yn UDA yn y 1960au. Roedd hyn yn cynnwys rhaglen cyn-ysgol o chwarae, gweithgareddau ac anogaeth i blant amddifadus i fynychu amgylcheddau 'wedi cyfoethogi' fel gwersyll haf ac ysgolion meithrin. Erbyn 1973 roedd y gost o Head Start yn \$390,000,000 y flwyddyn. Ni ystyriwyd bod Head Start yn werth da am yr arian ac fe'i dirwynwyd i ben.

Ym Mhrydain, mae'r llywodraeth yn tueddu i gysylltu tangyflawni'r dosbarth gweithiol â addysgu ac ysgolion gwael yn hytrach nag incwm isel. Gwariwyd symiau sylweddol o arian ymchwil ar astudiaethau i weld beth sy'n gwneud ysgol effeithiol, gwers effeithiol ac addysgu effeithiol. Mae enghreifftiau o ymchwil o'r fath yn cynnwys y prosiect enfawr Gwella Effeithiolrwydd Ysgolion gan MacBeath a Mortimore.

Cyflwynwyd Cychwyn Cadarn gan y Llywodraeth ym 1999, gyda'r nod o wella iechyd, addysg a'r rhagolygon am gyflogaeth trwy ymyrraeth gynnar ym mlynnyddoedd cyn-ysgol plant a oedd yn byw yn ardaloedd mwyaf amddifad Prydain. Fodd bynnag, 'siomedig' oedd y gwerthusiad swyddogol cynnar o Cychwyn Cadarn o ran ei effaith ar blant a darganfu Ofsted (McKnight et al, 2005) na chafodd Parthau Gweithredu Addysg (EAZ) unrhyw effaith ar Gyfnod Allweddol 3 na chanlyniadau TGAU. Mae hyn yn awgrymu bod y llywodraeth yn ymwybodol o'r cyswllt rhwng amddifadedd a thangyflawniad addysgol.

Disodlwyd EAZ gan Ragoriaeth mewn Dinasoedd sydd â'r nod hefyd o wella cyflawniad disgyblion o gefndiroedd incwm isel. Mae'r mentrau yn cynnwys llogi cyfrifiaduron am bris isel i'w defnyddio yn y cartref, mentoriaid dysgu a rhaglenni ar gyfer disgyblion dawnus. Awgryma tystiolaeth gynnar fod Ragoriaeth mewn Dinasoedd yn cael mwy o effaith na EAZ.

Mae academiâu yn ysgolion mewn ardaloedd canol dinas incwm isel a luniwyd i gymryd lle ysgolion cyfun sy'n 'methu' a gwella safonau mewn ardaloedd dosbarth gweithiol. Yn 2006, dywedodd y cyfrifwyr Price-Waterhouse y bu gwelliant o 6.1% yng nghanlyniadau TGAU mewn academiâu o gymharu â gwelliant cenedlaethol o 1.8%. Fodd bynnag, mae peth trafod ynghylch gwerth academiâu; mae tystiolaeth yn awgrymu pan sefydlir academiâu fod prisiau tai yn codi ac mae'r plant a dderbynnir yn newid gan fod yr ariannu yn denu rhieni dosbarth canol. Mae academiâu yn dueddol o ddefnyddio TGAU galwedigaethol sy'n cyfrif fel pedwar A* - C yn hytrach na'r TGAU traddodiadol.

Menter gan y Llywodraeth i fynd i'r afael â'r cyfraddau isel o fyfyrwyr dosbarth gweithiol ôl-16 sy'n aros ymlaen yw cyflwyno LCA (Lwfans Cynhaliath Addysg). Caiff myfyrwyr eu talu hyd at £30 yr wythnos ynghyd â thaliadau bonws drwy'r flwyddyn academaidd.

Deall diwylliant (Addysg)

Heblaw gwella'r cyfraddau aros ymlaen, fe'i lluniwyd hefyd i ostwng yr oriau mae disgyblion yn gweithio mewn swyddi rhan-amser.

Mae mynd i'r afael yn benodol ag amddifadedd diwylliannol yn hytrach nag amddifadedd materol yn ddadleuol oherwydd mae'n awgrymu fod agweddau a gwerthoedd y dosbarth gweithiol yn israddol. Mae Nell Keddie (1976) yn gwrthod yr ideoleg hyn sy'n awgrymu nad oes unrhyw beth o werth mewn bywyd dosbarth gweithiol. Mae hi'n dadlau bod y cartref dosbarth gweithiol yn wahanol nid yn israddol. Fodd bynnag yn ôl ymchwil a gyhoeddwyd yn 2007 gan Leon Feinstein, ar ran Y Sefydliad Addysg, darganfuwyd bod plant o deuluoedd tlawd hyd at flwyddyn ar ôl yn eu datblygiad wrth gyrraedd tair oed o gymharu â phlant o gefndiroedd mwy cyfoethog.

Cwestiynau

1. Pam rydych yn meddwl bod ymdrechion addysg gydadferol yn aml yn cynhyrchu canlyniadau 'siomedig'?
2. Pa ffactorau a allai esbonio pam bod plentyn o gefndir tlawd flwyddyn ar ôl plentyn o gefndir mwy cyfoethog o ran datblygiad wrth gyrraedd tair oed?
3. Pa bolisiâu gellid eu cyflwyno i wella'r problem o dangyflawni yn y dosbarth gweithiol?

Allweddairiau

- Parthau Gweithredu Addysg (EAZ) - Menter Llafur Newydd a sefydlwyd ym 1998 i godi cymhelliant a chyflawniad disgyblion mewn ardaloedd o 'amddifadedd' yng nghanol dinasoedd. Ariennir EAZ gan lywodraeth ganolog ac fe'u trefnir gan Fforwm Gweithredu sy'n cynnwys rhieni a chynrychiolwyr busnes, llywodraeth leol a llywodraeth ganolog. Ataliwyd cyllid ar gyfer y cynllun yn 2003.
- Rhagoriaeth mewn Dinasoedd - Menter Llafur Newydd i ddisodli Parthau Gweithredu Addysg â chanolfannau TG, mentoriaid dysgu, cyfrifiaduron wedi'u llogi i gartrefi a rhaglenni ar gyfer disgyblion dawnus.
- Operation Headstart - Menter addysg gydadferol yn y 1960au yn UDA a oedd yn targedu plant o dan oed ysgol o'r dosbarth gweithiol is, yn enwedig y rhai hynny o gefndiroedd Sbaenaidd neu ddu.
- Cychwyn Cadarn - Menter Llafur Newydd a sefydlwyd ym 1999 i helpu teuluoedd â phlant o dan bedair oed, yn targedu'r cymunedau mwyaf amddifadus yn economaidd trwy gysylltu gwasanaethau iechyd, cymdeithasol ac addysgol.
- Addysgu effeithiol - mae polisi'r llywodraeth wedi ceisio darganfod beth sy'n gwneud ysgol dda ac i annog arfer da fel ateb i anghydraddoldeb.

Beth yw'r cyswllt rhwng dosbarth cymdeithasol a rhyngweithiad mewn ysgolion?

Bwledi

- Cryfder barn persbectif y rhyngweithredwyr yw cydnabod cymhlethdod yr ystyron sydd y tu ôl i ryngweithio bob dydd mewn ysgolion.
- Mae cysyniadau fel mathau delfrydol, labelu a phroffwydoliaeth hunangyflawni yn disgrifio prosesau sy'n gwrthod cyfle cyfartal i'r dosbarth gweithiol.
- Mae awgrym bod ffrydio yn seiliedig ar ddosbarth cymdeithasol. Mae'r dosbarth canol yn ei weld fel ffordd i eithrio disgyblion israddol ac aflonydd.
- Mae'r hyn a ystyrir yn wybodaeth ac sy'n werth ei wybod wedi'i lunio gan oruchafiaeth diwylliant y dosbarth canol.

Deall diwylliant (Addysg)

Testun

Mae llawer o gymdeithasegwyr yn gweld cyflawniad dosbarth cymdeithasol wedi'i gysylltu â phrofiadau a'r ystyron a llunwyd mewn ysgolion ac yn yr ystafelloedd dosbarth. Yn ôl rhyngweithredwyr nid yw tangyflawniad cymdeithasol disgyblion dosbarth gweithiol wedi'i achosi gan strwythurau cymdeithasol anghyfartal ond gan brosesau yn yr ysgol gan gynnwys labelu a disgwyliadau athrawon. Mae rhain yn dylanwadu ar broffwydoliaeth hunan gyflawni, y cwricwlwm cudd ac isddiwylliannau grwth-ysgol. Dyma'r safbwynt sydd wedi dylanwadu ar feddwl y Llywodraeth ar sut i wella cyflawniad y dosbarth gweithiol.

Astudiodd Howard Becker (1963) 60 o athrawon a darganfu eu bod yn dosbarthu disgyblion o ran 'math delfrydol'. Darganfu fod athrawon yn canfod myfyrwyr o gefndiroedd dosbarth canol fel y rhai a oedd yn agosaf at y ddelfryd hon a'r rhai hynny o'r dosbarth gweithiol fel y rhai a oedd bellaf o'r ddelfryd, gan ddehongli eu hymddygiad fel diffyg diddordeb a chymhelliant. Dyma enghraifft glasurol o labelu. Pan gefnogir labelu gan awdurdod yr athro/athrawes gall labeli arwain at broffwydoliaeth hunan gyflawni lle mae'r disgybl yn mewnoli ac yn cydymffurfio â'r ymddygiad a'r disgwyliadau sy'n gysylltiedig â'r label.

Ers Deddf Diwygio Addysg (1988) bu ysgolion yn symud o ddosbarthiadau gallu cymysg i "ffrydio" a 'gosod mewn setiau'. Mae'n amryw resymau am hyn, ond mae'n ymddangos mai dosbarth cymdeithasol yw un o'r ffactorau pwysicaf. Mae rhieni dosbarth canol yn rhoi pwysau ar ysgolion i ffrydio gan eu bod yn tybio y bydd eu plant yn y set orau ac felly'n cael eu hamddiffyn rhag plant gwannach ac aflonyddgar a fyddai'n amharu ar ddysgu.

Mewn ymchwil diweddar gan Stephen Ball (2003), ar ran Y Sefydliad Addysg disgrifir ffrydio fel 'barbariaeth cymdeithasol' gan ei fod yn caniatáu rhieni dosbarth canol i wahanu eu plant wrth blant sydd yn eu tyb hwy yn 'israddol'. Darganfu Gillborn a Youdell (2001) mai cymhelliant ysgolion oedd yr 'economi A-C' ac roeddent yn fwy tebygol i roi plant dosbarth gweithiol mewn setiau is na phlant dosbarth canol a oedd yn gwneud gwaith o'r un safon. Dengys llawer o'r gwaith cynnar fod disgyblion yn cael eu gosod mewn ffrydiau neu setiau yn ôl eu hymddygiad yn hytrach na'u gallu. Roedd disgyblion dosbarth gweithiol hefyd yn llai tebygol o gael eu cofrestru ar gyfer haenau uwch arholiadau TGAU.

Dywed Michael Young (1971) mai 'gwybodaeth' yw unrhyw beth a ddiffinnir gan y dosbarth canol-uwch elitaidd sy'n werth ei wybod. Astudiodd Nell Keddie (1971) adran ddyniaethau ysgol gyfun fawr. Darganfu, er bod athrawon yn ei wadu, eu bod yn trin gwybodaeth disgyblion dosbarth gweithiol yn israddol. Roedd athrawon yn gwerthfawrogi gwybodaeth haniaethol yn fwy na gwybodaeth ddiriaethol a darganfu Keddie fod athrawon yn trin cwestiynau oddi wrth ddisgyblion dosbarth gweithiol â drwgdybiaeth, neu fel eu bod yn ceisio denu sylw neu'n ceisio aflonyddu'n fwriadol. Ystyrir disgyblion dosbarth canol a allai fynegi eu hunain yn haniaethol yn 'ddeallus' ac fe'u hanogir yn fawr. Daeth Keddie i'r casgliad fod agweddau o'r fath yn amharu'n fawr ar gynnydd plant dosbarth gweithiol.

Gwnaed llawer o ymchwil ar ysgolion yn ardal Llundain yn y 1980au ac awgrymodd canlyniadau nad oedd athrawon yn labelu ar sail dosbarth yn unig, ond ar sail ethnigrwydd a gender hefyd. Fodd bynnag, gellir barnu peth o'r ymchwil i'r ddamcaniaeth labelu gan nad oes esboniad o ba un sy'n dod gyntaf, labelu gan yr athro neu ymddygiad y disgybl sy'n peri i'r athro labelu disgyblion. Mae'n bosibl nad yw athrawon yn labelu ond yn ymateb i brofiadau blaenorol gyda blant tebyg. Yn ogystal, gwnaed llawer o'r ymchwil o

Deall diwylliant (Addysg)

safbwynt y disgybl, felly roedd tuedd i esgeuluso profiad yr athro. Tynnodd Safia Mirza sylw at y ffaith y gellir gwrthsefyll yn erbyn labelu, felly gwrthwynebodd merched du mewn ysgolion cyfun y labelu negyddol trwy lwyddo a hynny'n groes i ddisgwyliadau eu hathrawon.

Cwestiynau

1. Beth yw nodweddion disgybl 'da'? Pa ddosbarth sy'n cyd-fynd â'r nodweddion hynny?
2. Pa ddadleuon y gellir eu gwneud o blaid ffrydio?
3. Pa ddadleuon y gellir eu gwneud yn erbyn ffrydio disgyblion?
4. Ai bai'r athrawon yw methiant addysgol?

Allweddeiriau

- Math delweddol - cysyniad sy'n gysylltiedig â Becker i ddisgrifio'r ddelwedd o'r ddisgyl delfrydol.
- Y ddamcaniaeth labelu - theori sy'n cydnabod grym athrawon i labelu disgyblion a'u trin fel bo'r label yn gywir.
- Proffwydoliaeth hunan gyflawni - proses lle gwneir proffwydoliaeth ac mae'n ddod yn wir yn unig am ei fod wedi'i wneud.
- Ffrydio - dyrannu disgyblion i setiau neu fandiau yn ôl eu gallu canfyddedig.
- Rhyngweithredwyr neu gymdeithasegwr dehongliadol - sy'n ystyried yr ystyron cymdeithasol rydym yn eu creu.

Pa ddosbarth cymdeithasol sydd yn mynychu prifysgolion?

Bwledi

- Mae polisi'r Llywodraeth wedi annog ehangu Addysg Uwch gyda tharged o 50% wedi'i osod ar gyfer pobl 18 oed i fynychu rhyw fath o gwrs A.U. erbyn 2010.
- Fodd bynnag, dengys ymchwil fod cost addysg uwch yn cael effaith andwyol ar geisiadau oddi wrth y dosbarth gweithiol, yn enwedig oddi wrth ddynion.

Testun

Mae addysg uwch yn digwydd mewn colegau a phrifysgolion ar lefel uwch na lefel 'A'. Yn ystod y 50 mlynedd diwethaf, mae llywodraethau wedi ceisio agor Addysg Uwch a chwalu natur elitaidd prifysgolion fel 'sefydliadau dosbarth canol', yn enwedig Rhydychen a Chaergrawnt y gellir eu hystyried yn ddosbarth uwch neu ddosbarth canol-uwch gan fod y rhan fwyaf o'u myfyrwyr yn dod o ysgolion preifat. Roedd Tony Blair yn enwog am ei fwriad i annog 50% o bobl 18 oed fynd ymlaen i ryw fath o addysg uwch erbyn 2010. Mae unrhyw dwf sydd wedi digwydd wedi ei ddigwydd ymysg disgyblion dosbarth canol.

Darganfu ymchwil gan Forsyth a Furlong (2003) fod nifer o ffactorau sy'n digalonni'r dosbarth gweithiol rhag gwneud cais i fynd i brifysgol. Y mwyaf sylweddol ohonynt yw cost addysg uwch, yn enwedig y rhagolwg o ddyled yn sgil ffioedd dysgu, benthyciadau myfyrwyr a gorddrafftiau banc.

Yn 2006, ar gyfartaledd, roedd myfyrwyr ar ôl gorffen yn y brifysgol â dyled gwerth £13,252 (NatWest Bank). Ffactor arall yw'r pryder am ddiweithdra ar ôl graddio neu orfod gweithio rhan-amser trwy gydol eu hamser yn y brifysgol a allai gael effaith negyddol ar

Deall diwylliant (Addysg)

eu hastudiaethau. Mae'n ymddangos mai gwrywod o'r dosbarth gweithiol sydd lleiaf tebygolo o wneud cais i fynd i brifysgol.

Cwestiynau

1. Beth yw'r dadleuon o blaid ac yn erbyn ffioedd dysgu?
2. Beth yw'r dadleuon o blaid ac yn erbyn benthyciadau myfyrwyr?

Allweddeiriau

- Addysg uwch - addysg wedi gadael ysgol a lefelau 'A'.
- Gradd - cymhwyster a ddyfernir mewn Prifysgol neu sefydliad o lefel Prifysgol.

Sut mae'r gymdogaeth yn dylanwadu ar gyflawniad addysgol?

Sut mae'r gymdogaeth yn dylanwadu ar addysg?

Bwledi

- Gall cymdogaeth lle mae plentyn yn byw gael effaith ar ei siawns o ennill graddau TGAU uchel.
- Lleolir cyfoeth mewn ardaloedd penodol o drefi a dinasoedd yn ogystal â mewn rhai ardaloedd o'r wlad.
- Mae'r astudiaeth o gymdogaeth a'i heffaith ar addysg, felly yn bennaf yn astudiaeth o effaith dosbarth cymdeithasol ac amddifadedd cymdeithasol ar addysg.

Testun

Mae cysylltiad rhwng yr ardal mae plentyn yn byw ynddi a'r siawns bod y plentyn hwnnw yn mynd i ennill graddau penodol mewn arholiadau. Ym Mhrydain, mae pobl yn dueddol o fyw mewn ardaloedd daearyddol sy'n adlewyrchu'r ansawdd o dai sydd ar gael, felly yn eich cymdogaeth eich hunan, yn ôl pob tebyg byddwch yn gwybod lle mae'r cyfleusterau orau a lle mae'r tai drutaf. Mewn ardaloedd trefol neu ddinesig, mae'n hysbys bod ysgolion sy'n gwasanaethu ardaloedd o dlodi ac amddifadedd fel ardaloedd canol dinas yn mynd i fod yn llai llwyddiannus o ran canlyniadau arholiadau nag ysgolion sy'n gwasanaethu ardaloedd cyfoethog. Mae ysgolion mewn ardaloedd gwledig iawn hefyd yn tuedd i fod yn llai llwyddiannus.

Cesglir ystadegau manwl gan y llywodraeth ac mae'r rhain ar gael ar lefel awdurdod lleol, sirol ac ysgol. Yn ogystal, gall ysgolion ac awdurdodau lleol amrywio ychydig o ran y gofal maent yn cymryd wrth gasglu ystadegau. Bydd ysgolion yn awyddus iawn i beidio â chofrestru lefelau uchel o driwantiaeth, er enghraifft, er na fyddant yn dweud celwydd neu'n camarwain yn fwriadol. Dylai cymdeithasegwyr ymdrin â phob data swyddogol yn ofalus.

Bydd y math o ddata a gesglir yn cynnwys manylion megis: nifer y disgyblion ym mhob dosbarth ar gyfartaledd, y gymhareb disgyblion i athrawon, absenoldeb heb ei awdurdodi,

Deall diwylliant (Addysg)

gwaharddiadau (parhaol ac am gyfnod penodol), nifer y disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, ac yng Nghymru, nifer y plant a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg. Gellir cymharu'r data hyn rhwng siroedd a gwelir patrymau diddorol yn ymddangos. Er enghraifft, roedd 21% o ddisgyblion yn hawlio prydau ysgol am ddim yn Rhondda Cynon Taf (2006) o gymharu â 10.7% ym Mro Morgannwg. Yng Nghaerdydd, yn 2006 roedd 67 o ddisgyblion yn wynebu gwaharddiad parhaol o'r ysgol roeddent yn mynd iddi o gymharu â 35 yng Nghasnewydd a dim un ym Mlaenau Gwent.

Cwestiynau

1. Pam mae côd post plentyn yn berthnasol i'w siawns i ennill cymwysterau da?
2. Pam dylai cymdeithasegwyr fod yn ofalus wrth ymdrin ag ystadegau swyddogol?

Allweddeiriau

- Trefol - dinasoedd ac ardaloedd adeiledig
- Gwledig - cefn gwlad.
- Amddifadedd - nid oes gan bobl yr hyn mae arnynt eu hangen ar gyfer safon dda o fyw neu ni allant eu fforddio.
- Triwantiaeth - bod yn absennol o ysgol heb ganiatâd.
- Cymdogaeth - ardal lle mae pobl yn byw.

Beth yw'r cysylltiad rhwng canol dinasoedd ac ysgolion sy'n methu?

Bwledi

- Ardaloedd yw canol dinasoedd lle mae pobl dlawd, rhai lleiafrifoedd ethnig a mewnfudwyr diweddar yn byw fel arfer.
- Mae ysgolion sy'n methu yn aml yn ysgolion canol dinas.
- Mae'r llywodraeth yn ymdrin â'r broblem naill ai trwy gau ysgolion o'r fath neu eu targedu ar gyfer gweithredu.
- Mae gan rieni dosbarth canol y grym economaidd i brynu tai yn nalgylchoedd ysgolion sydd ag enw da iddynt am ganlyniadau da neu gallant ddod o hyd i ffyrdd eraill i osgoi anfon eu plant i ysgolion sydd â chyflawniad isel a chanlyniadau gwael.

Testun

Lleolir rhai o'r ysgolion mwyaf heriol i athrawon weithio ynddynt mewn ardaloedd canol dinas. Ardaloedd yw'r rhain sydd ar gyrion canol dinasoedd lle mae'r tai yn hŷn ac mae'r rhent a'r trethi yn is, felly dyma lle mae pobl dlotach yn dueddol o fyw. Mae nifer o resymau pam bod ysgolion canol dinas yn dueddol o fod yn heriol ac yn anodd ac mae ganddynt gyfraddau llwyddo isel mewn arholiadau.

Yn 2003, awgrymodd David Bell, Prif Arolygwr Ysgolion (Ofsted) fod problemau ysgolion canol dinas yn ymwneud ag anawsterau recriwtio staff, trosiant uchel o ddisgyblion, diffyg hyder yn y gymuned a diffyg buddsoddi. Mae'r llywodraeth wedi cydnabod y broblem ac wedi sefydlu cynlluniau i wella canlyniadau arholiadau mewn ysgolion canol dinas. Mae'r rhain yn cynnwys Parth Gweithredu Addysg (EAZ) a Rhagoriaeth mewn Dinasoedd (EiC). Rhoddwyd cyllid enfawr i'r cynlluniau hyn. Yn 2003/4, dyrannwyd £350 miliwn i'r prosiectau sydd wedi cael ond rhywfaint o lwyddiant.

Deall diwylliant (Addysg)

Ym 1997, dyfarnwyd bod dros 500 o ysgolion yng Nghymru a Lloegr yn methu ac roedd y rhan fwyaf o'r rhain yng nghanol dinasoedd. Erbyn 2003, roedd y nifer o'r math hwn o ysgolion wedi gostwng i 160. Yn 2007, yn Llundain, roedd nifer yr ysgolion yn methu wedi disgyn o 26 i 21 ond roedd y llwyddiant ymddangosol hwn o ganlyniad i gau rhai o'r ysgolion cyflawniad isaf. Ym mis Tachwedd 2007, mynnodd y Prif Weinidog, Gordon Brown y gallai derfynu methiant addysgol trwy gau mwy o ysgolion a bygythiodd y 670 o ysgolion cyfun â'r cyflawniad isaf y byddid naill ai'n eu trosfeddiannu neu'n eu cau.

Hawliai Diane Reay (2004) fod rhai ysgolion uwchradd a grwpiau o blant yn cael eu cythreulio. Fe wnelo hyn yn aml â dosbarth cymdeithasol a materion yn ymwneud â gender ac ethnigrwydd. Mae hyn yn golygu nad oes llawer o gyfle i'r ysgolion canol dinas y mae'r plant hyn yn eu mynychu wella oherwydd bydd rhieni dosbarth canol yn anfon eu plant i rywle arall i gael eu haddysg. Mewn astudiaeth â Lucey darganfu Reay yn aml nad oedd rhieni dosbarth gweithiol yn byw yn nalgylch ysgolion a oedd yn cyflawni'n dda, a hyd yn oed pan oeddent yn byw yno, roeddent yn ei chael hi'n anodd cael lleoedd i'w plant. Os oedd rhieni dosbarth canol yn byw mewn dalgylch ysgol cyflawniad isel, gallent ddewis symud o'r ardal, anfon eu plant i ysgolion talu ffioedd neu wneud cais i'w plant fynd i ysgolion ffydd neu ysgolion dethol fel nad oedd rhaid i'w plant gael eu haddysg mewn ysgolion gyda nifer mawr o blant naill ai o'r dosbarth gweithiol neu leiafrifoedd ethnig. Darganfu Alan Smithers a Pamela Robinson (2005) fod athrawon ond yn gweithio mewn ysgolion canol dinas am gyfnodau byr, ac yna'n gadael i fynd i ysgolion llai heriol yn y maestrefi.

Cwestiynau

1. Ble mae ysgolion sy'n methu yn aml wedi'u lleoli yn ddaearyddol?
2. Beth yw'r ddwy brif strategaeth a ddefnyddir gan y llywodraeth i ymdrin ag ysgolion sy'n methu?
3. Sut y gall rhieni dosbarth canol osgoi anfon eu plant i ysgolion sy'n methu?
4. Pa effaith y caiff canlyniadau arholiadau ysgolion lleol ar brisiau tai mewn ardal?

Allwedddeiriau

- Canol dinas - ardaloedd tlawd mewn dinasoedd lle mae pobl o'r dosbarth gweithiol yn aml yn byw.
- Dalgylch - ardal o amgylch ysgol o le mae'r ysgol yn denu ei disgyblion.
- Cythreulio - cael enw gwael iawn nad yw'n gwbl gyfiawn.
- Ysgolion ffydd - ysgolion a ariennir yn rhannol gan grwpiau crefyddol.
- Ysgolion dethol - ysgolion sy'n dewis pa ddisgyblion byddant yn eu caniatáu i fynychu'r ysgol.

Beth yw'r cysylltiad rhwng tablau cynghrair a mynegeion amddifadedd?

Bwledi

- Yn Lloegr, mae tablau cynghrair ar gyfer ysgolion sy'n seiliedig ar eu canlyniadau arholiad.
- Mae ysgolion â chanlyniadau da yn denu rhieni dosbarth canol ac athrawon mwy profiadol.

Deall diwylliant (Addysg)

- Efallai bod gan ysgolion sydd mewn safle isel yn y tablau cynghrair lawer o fyfyrwyr difreintiedig.
- Er gwaethaf y ffaith eu bod yn ysgolion da, mae ysgolion â chanddynt fyfyrwyr difreintiedig yn ei chael hi'n anodd i wella'u canlyniadau arholiadau.
- Dadleuir bod tablau cynghrair yn pegynnu ysgolion.
- Mae Cymru a Gogledd Iwerddon wedi rhoi'r gorau i dablau cynghrair ac mae Cymru wedi rhoi'r gorau i rai profion (TASau).

Testun

Fel rhan o'r ymgyrch i wella ysgolion a gwneud iddynt gystadlu a'i gilydd, yn 1992, cyflwynodd Llywodraeth Geidwadol Margaret Thatcher dablau cynghrair arholiadau yn y DU ar gyfer ysgolion uwchradd. Ym 1997, fe'i cyflwynwyd, yn ogystal, ar gyfer ysgolion cynradd. Argraffwyd y tablau cynghrair mewn papurau newydd ac maent ar gael yn hawdd ar y Rhyngwrdd i unrhyw un a oedd â diddordeb gweld sut roedd ysgolion penodol yn perfformio. Creodd hyn ddiwylliant lle ystyrir bod ysgolion naill ai'n 'dda' neu'n 'wael'. Dywedwyd hyn gan Herbert a Thomas (1997) a ddarganfu fod cyflwyno dewis i rieni yn cael effaith begynol ar ysgolion.

Er hynny, gwnaeth Llafur Newydd dablau cynghrair yn bwysicach fyth yn Lloegr gan iddynt ddefnyddio'r data i osod targedau i ysgolion er mwyn iddynt wella eu safle yn y tabl ac i dynnu sylw at benaethiaid yr ysgolion a wellodd fwyaf.

Mae perthynas rhwng ansawdd y disgyblion a dderbynnir a'r canlyniadau a gyflawnir gan y disgyblion hynny. Dadleuir mai un o effeithiau tablau cynghrair yw eu bod wedi'i gwneud hi'n anodd i ysgolion tua gwaelod y tabl i wella gan nad ydynt bellach yn denu'r myfyrwyr mwyaf galluog. Mae hyn wedi arwain at wahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr o ran polisi ar brofion addysgol.

Yng Nghymru, rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru'r gorau i dablau cynghrair yn 2001. Yng Nghymru rhoddwyd y gorau hefyd i'r TASau ar gyfer plant 11 ac 14 oed, er bod prawf sgiliau byr ac asesiad athro ar gyfer plant 10 oed. Mae gan ysgolion yn Yr Alban system addysg wahanol ond nid oes ganddynt hwythau Dablau Cynghrair ychwaith a rhoddir prawf i'r plant pan fo'r athro/athrawes yn ystyried eu bod yn barod amdano. Yn Lloegr, yn 2007, cyflwynwyd Ychwanegu Gwerth Cyd-destunol (CVA) sy'n mesur sut mae ysgol unigol yn ei wneud o ystyried elfennau a all effeithio ar ganlyniadau fel gender, anghenion arbennig, ethnigrwydd, prydau ysgol am ddim, codau post, iaith gartref y disgybl a chyrhaeddiad blaenorol y disgybl ei hun. Dengys hyn fod rhai ysgolion sydd mewn safle isel yn y tablau yn wirioneddol yn gwneud yn dda ar ran eu disgyblion pan ystyrir amddifadedd.

Astudiodd Stephen Gorard (2005) 124 o ysgolion uwchradd yn swydd Efrog a darganfu mai effaith gyfyngedig a gaiff ysgolion ar ddisgyblion o gymharu â ffactorau allanol fel tlodi. Mae ef yn feirniad blaenllaw o dablau cynghrair ar sail eu bod yn pegynnu mathau o ysgolion ac yn gweithredu yn erbyn cymysgu cymdeithasol mewn ysgolion unigol. Mae hyn yn digwydd oherwydd nad yw pobl o'r dosbarth canol yn aml yn anfon eu plant i ysgolion sydd yn eu tyb hwy yn perfformio'n wael.

Cwestiynau

Deall diwylliant (Addysg)

1. Beth yw'r ymresymiau o blaid tablau cynghrair ar gyfer canlyniadau arholiadau ysgolion?
2. Beth yw'r ymresymiau yn erbyn tablau cynghrair ar gyfer canlyniadau arholiadau ysgolion?

Allweddeiriau

- Tablau cynghrair - Dyfernir safle i ysgolion yn unol â chanlyniadau eu disgyblion yn arholiadau TASau a TGAU.
- CVA - Data Ychwanegu Gwerth Cyd-destunol yw data a gymhwyswyd ar gyfer ffactorau diwylliannol a allai ddylanwadu ar ganlyniadau arholiadau ysgol.
- Pegynnu - cynyddu gwahaniaethau.
- Amddifadedd - bod heb y pethau hynny y mae pobl eraill yn eu cymryd yn ganiataol.

A yw'r rhaglen Academi Dinas wedi bod yn effeithiol?

Bwledi

- Rhaglen ddadleuol yw'r Rhaglen Academi Dinas a luniwyd i wella canlyniadau mewn ardaloedd canol dinas ac i ddisodli ysgolion diffygiol.
- Mae'r cynllun yn ddrud ac yn ddadleuol am lawer o resymau.

Testun

Yn yr 1980au, noddodd Llywodraeth Thatcher raglen i adnewyddu a gwella ysgolion mewn ardaloedd canol dinas a elwir yn Golegau Technoleg Dinas. Er 2000, defnyddiwyd y gair Academi i ddisgrifio'r ysgolion hynny a ariennir yn gyhoeddus ond nis llywodraethwyd gan unrhyw awdurdod lleol. Mae'r ysgolion hyn yn annibynnol o unrhyw reolaeth gan y wladwriaeth. Fe'i lluniwyd i fynd i'r afael ag ysgolion canol dinas a oedd yn cyflawni'n wael ac mae llawer ohonynt wedi'u cau neu wedi'u newid yn Academïau. Erbyn canol y ddegawd bresennol, roedd tua 50 o Academïau ond mae'r Lywodraeth Lafur wedi ymrwymo'i hun i agor 150 arall erbyn 2010.

Mae'r rhaglen Academi Dinas wedi bod yn bwnc llosg am nifer o resymau. Caiff noddwyr preifat gryn dipyn o reolaeth dros yr ysgol am fuddsoddi arian ynddi. Bu ariannu sylweddol gan y Llywodraeth yn y cynlluniau. Gall Academïau ddewis hyd at 10% o'u disgyblion ac nid oes rhaid iddynt ddilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Dadleuir bod Academïau wedi gwella canlyniadau arholiadau. Fodd bynnag, dywed sylwebyddion eraill nad addysgu gwell nac ymagwedd well ymhlith myfyrwyr sy'n gyfrifol am ganlyniadau gwell ond newid i'r disgyblion a dderbynnir a mwy o addysgu cyrsiau galwedigaethol.

Gall academïau eithrio disgyblion heriol ac mae'r myfyrwyr hyn yn mynychu ysgolion canol dinas eraill. Cyhuddwyd rhai o'r noddwyr o hyrwyddo syniadau crefyddol neu wleidyddol yn yr ysgolion maent yn eu rheoli. Nid yw pob Academi wedi bod yr un mor llwyddiannus. Mae'n costio swm mawr o arian i gychwyn Academi a rhoddwyd grantiau gan y llwyodraeth i rai noddwyr noddi academïau. Mae ansawdd y canlyniadau yn destun trafod, gyda'r llywodraeth yn awgrymu eu bod yn ardderchog a beirniaid yn dweud eu bod yn parhau yn is na'r ffigurau cyfartalog am y wlad.

Cwestiynau

Deall diwylliant (Addysg)

1. Pryd sefydlwyd Rhaglen yr Academi?
2. Pam mae Rhaglen yr Academi yn bwnc dadleuol?
3. Beth yw manteision Academiâu?
4. Beth yw anfanteision Academiâu?

Allweddeiriau

- Academi Dinas - ysgol mewn ardal canol dinas a ariennir yn gyhoeddus ac a redir yn breifat.

Beth yw'r pwyntiau perthnasol eraill?

Bwledi

- Efallai bydd rhai ardaloedd yn datblygu diwylliant penodol sy'n effeithio ar y ffordd y mae pobl yn meddwl ac yn barnu'r byd.
- Efallai nad yw plant mewn rhai ardaloedd yn disgwyl llwyddiant addysgol nac i fynd i goleg.
- Gall rhai lleoliadau daearyddol achosi problemau ymarferol o ran addysg rhai plant.

Testun

Cysyniad yw habitus sydd wedi cael ei ddefnyddio mewn athroniaeth a chymdeithaseg ers tro. Yn fwyaf diweddar, mae'r syniad wedi cael ei ddefnyddio gan gymdeithasegwyr fel Bourdieu i ystyried sut mae diwylliant yr ardal rydych yn byw ynddi a'r bobl rydych yn byw yn eu mysg yn effeithio ar y ffordd rydych yn meddwl am y byd a'ch barn amdano. Mae habitus yn fwy na daearyddiaeth, ond fe'i cysylltir â daearyddiaeth ddynol gan y dywedir bod pobl yn datblygu eu barn am y byd sy'n dibynnu ar ddiwylliant y bobl o'u hamgylch.

Bydd pob plentyn yn tyfu i fyny mewn grŵp arbennig o bobl sy'n rhannu barn benodol am y byd. Mae hyn yn effeithio ar eu patrymau meddwl. Nid yw pobl yn ymwybodol o'u patrymau meddwl penodol eu hunain na sut y dylanwadir ar eu hymddygiad. Mae ymchwiliad yn Yr Alban (2003) wedi dangos bod 83% o blant a fagwyd mewn teuluoedd dosbarth canol yn disgwyl mynd i brifysgol. Mae hyn felly yn rhan o'u habitus. Ar y llaw arall dim ond 41% o blant o deuluoedd dosbarth is sy'n disgwyl mynd i brifysgol.

Astudiodd Archer a Yamashita (2003) ddisgyblion Blwyddyn 11 mewn ysgol ganol dinas amddifadus a gorlawn yn Llundain a darganfuont er gwaethaf barn dda ac ymdrechion yr athrawon, fod y disgyblion yn aml yn teimlo nad oeddent yn ddigon da ar gyfer addysg uwch. Roeddent yn rhoi'r bai ar eu hardal leol, gan bwysleisio'r peryglon a'r troseddoldeb. Ni fyddai rhai myfyrwyr yn mynychu rhai colegau lleol gan fod yn rhaid iddynt fynd trwy gymdogaethau anniogel lle byddent mewn perygl o drosedd. Mae'r ail ganfyddiad hwn yn tynnu sylw at broblemau ymarferol a achosir gan leoliad ysgolion a cholegau mewn rhai ardaloedd.

Darganfu ymchwil gan Forsyth a Furlong (2000) yn Yr Alban er bod llawer o fyfyrwyr o ardaloedd o amddifadedd yn mynd i brifysgol, nid oeddent o'r teuluoedd mwyaf amddifadus yn yr ardaloedd hynny ac yn fynych roeddent yn dod o'r teuluoedd cyfoethocaf yn y cymunedau hynny. Nid oeddynt yn gyfoethog o ran y gymdeithas gyfan, roeddynt ddim ond yn gyfoethog o ran yr ardaloedd roeddynt yn byw ynddynt. Roedd

Deall diwylliant (Addysg)

myfyrwyr tlotach a oedd yn mynychu prifysgol yn fwy tebygol am resymau economaidd o fyw gartref ac roedd teithio yn mynd yn broblem iddynt. Roedd yn ddud teithio yn ôl ac ymlaen i'r coleg, ac roedd hyn yn tarfu ar amser astudio. Yn ogystal, gan fod trafnidiaeth gyhoeddus yn wael, yn aml roeddent yn colli darlithiau.

Cwestiynau

1. Pa broblemau o ran habitus a all gyfyngu ar llwyddiant plant dosbarth gweithiol?
2. Pa broblemau ymarferol sy'n rhwystro plant mewn ardaloedd tlotach rhag cyflawni gystal â myfyrwyr cyfoethocach?
3. Ai canlyniadau arholiadau yw'r ffordd orau o ddangos y gwahaniaethau mewn ansawdd addysg a ddarperir gan ysgolion?

Allweddeiriau

- Habitus - ymddygiadau nodweddiadol unigolyn a ddysgwyr gan y gymdeithas, barn am y byd.

Beth mae esboniadau traddodiadol am addysg wedi awgrymu am gyrhaeddiad?

Beth mae esboniadau traddodiadol am addysg wedi awgrymu am gyrhaeddiad?

Bwledi

- Rhagdybir bod cysylltiad rhwng deallusrwydd a'r gallu i wneud yn dda yn yr ysgol.
- Nid yw seicolegwyr yn cytuno ar ddiffiniad o ddeallusrwydd.
- Yn y gorffennol ac mewn rhannau o Loegr heddiw, caiff plant gyfleoedd addysgol ar sail profion deallusrwydd.
- Mae llawer o bobl ddeallus heb gael eu hadnabod gan y systemau profion.
- Nid yw'r berthynas rhwng gallu a llwyddiant yn yr ysgol yn gwbl glir.

Testun

Un o'r rhagdybiaethau mwyaf cyffredin am y system addysg yw bod cysylltiad cryf rhwng deallusrwydd, gallu a llwyddiant mewn arholiadau. Dyna'r farn sy'n cael ei phrofi wrth astudio syniadau traddodiadol am gyrhaeddiad addysgol. Mae awduron yn y traddodiad ffwythiannaeth strwythurol o gymdeithaseg yn honni mai meritocratiaeth yw'r system addysg ac mae'r system addysg yn bodoli er mwyn caniatáu'r myfyrwyr mwyaf dawnus i lenwi'r swyddi pwysicaf yn y gymdeithas. Mae profi gallu trwy arholiadau yn un o'r elfennau mwyaf sylfaenol yn system addysg Prydain. Mae plant Prydain ymhlith y rhai sy'n cael y mwyaf o brofion yn y byd ac mae hyn yn ddadleuol am nifer o resymau, gan gynnwys yr effaith emosiynol ar blant o gael profion rheolaidd.

Fodd bynnag mae dadl arall am werth cynnal profion ar gyfer gallu a deallusrwydd. Nid yw pob seicolegydd yn cytuno ar beth yn wirioneddol yw deallusrwydd. Un o'r syniadau mwyaf cyffredin o beth yw deallusrwydd yw'r un a awgrymir gan Howard Gardner sef bod saith elfen wahanol o leiaf gan gynnwys ymwybyddiaeth ofodol, gallu cerddorol, ymwybyddiaeth emosiynol a gallu ag iaith. Mae'n werth nodi na fu rhai meddylwyr enwog

Deall diwylliant (Addysg)

yn llwyddiannus iawn yn yr ysgol: Syr Winston Churchill, Prif Weinidog Prydain yn ystod yr Ail Rhyfel Byd ac Albert Einstein, enillydd Gwobr Nobel am wyddoniaeth yn eu plith. Methodd y digrifwr Paul Merton yr arholiad 11+ ac nid oes ganddo ond ychydig iawn o gymwysterau ffurfiol. Mae'n debygol nad yw llawer o bobl wedi cael eu hadnabod gan y system addysg ac o ganlyniad, gwrthodwyd cyfleoedd iddynt.

Yn y 1940au, y 1950au ac mewn rhai ardaloedd o Brydain heddiw, caiff plant eu dewis ar gyfer y cyfleoedd addysgol gorau mewn ysgolion gramadeg ar sail prawf deallusrwydd pan oeddent yn 11 oed. Mae hyn yn wendid o'r arholiad 11+ y gellir ei ddefnyddio i amlygu'r anhawster o gysylltu'r gallu i fod yn llwyddiannus mewn arholiadau â deallusrwydd a gallu cyffredinol. Mewn llawer ardal, caniatwyd bechgyn i fod yn llwyddiannus mewn niferoedd mwy gan fod mwy o leoedd mewn ysgolion gramadeg i fechgyn. Roedd y profion yn dueddol o fod yn seiliedig ar wybodaeth ddiwylliannol a oedd o blaid plant dosbarth canol. Mewn rhannau o Gymru, rhoddwyd lleoedd mewn ysgolion gramadeg i 40% o blant, llai na 25% oedd y ffigur cyfatebol yn Lloegr.

Cwestiynau

1. Beth mae ffwythiannwyr strwythurol yn ei gredu yw'r cysylltiad rhwng gallu ac addysg?
2. Pa dystiolaeth sydd ar gael nad yw profion deallusrwydd yn fesur dibynadwy o allu rhywun?
3. Beth yw'r dadleuon o blaid ac yn erbyn un arholiad pan fo plentyn yn 11 oed er mwyn penderfynu beth yw gallu academiaidd y plentyn?

Allweddairiau

- Meritocraziaeth - bydd y rhai hynny sydd â'r gallu mwyaf yn codi i'r brig mewn unrhyw gymdeithas.
- Ffwythiannaeth - Math o gymdeithaseg lle astudir sefydliadau cymdeithasol o ran eu defnydd i'r gymdeithas.
- Arholiad 11-Plus - Arholiadau detholgar a gyflwynwyd yn Neddf Addysg 1944 a safwyd gan yr holl ddisgyblion yn y sector gwladwriaeth pan oeddent yn 11 oed.

Beth yw barn ffwythiannaeth am gymdeithas?

Bwledi

- Barn gydsyniol o gymdeithas yw ffwythiannaeth.
- Cred ffwythiannwyr fod cymdeithas fel organeb, gyda rhannau gwahanol yn cyflawni swyddogaethau gwahanol er mwyn bod yr uned yn goroesi.
- Fel unrhyw organeb, mae dulliau mewn cymdeithas sy'n sicrhau goroesi.
- Mae cymdeithasegwyr ffwythiannol yn dueddol o edrych ar y mecanweithiau mewn cymdeithas er mwyn deall eu swyddogaethau ar gyfer y gymdeithas honno.

Testun

Mae ffwythiannaeth yn agwedd ar gymdeithaseg sy'n awgrymu mai swyddogaeth cymdeithasegydd yw ystyried sut mae cymdeithas yn gweithredu mewn dull gwyddonol er mwyn darganfod sut mae'n gweithio. Mae tair egwyddor sylfaenol sy'n sail ffwythiannaeth.

Deall diwylliant (Addysg)

Yn gyntaf, mae ffwythiannaeth yn system sy'n debyg iawn i organeb fiolegol ac mae rhannau gwahanol o gymdeithas yn cysylltu â'i gilydd yn yr un ffordd ag y mae organau yn y corff i gyd yn cyflawni swydd ar wahân i'r organeb. Damcaniaeth o gydsyniadau yw ffwythiannaeth, mae'n awgrymu bod pawb mewn cymdeithas yn cydweithio.

Yn ail, yn yr un modd ag y mae gan organeb ddulliau i sicrhau goroesi'r unigolyn a'r rhywogaeth, felly mae gan gymdeithas ddulliau i sicrhau y byddant yn llwyddo. Mae ffwythiannaeth yn awgrymu mai gofynion ffwythiannol yw'r pethau y mae angen ar gymdeithas i oroesi. Mae'r rhain yn cynnwys elfennau fel atgenghedlu a chyfantoled. Gelwir y farn hon yn 'gyfatebiaeth organig'.

Yn olaf, mae Holmwood (2005) ac eraill wedi dweud bod ffenomena cymdeithasol yn bodoli gan fod pwrpas iddynt. Mae hyn yn ddadleuol, mae'n arwain at y farn bod llawer o bethau negyddol fel troseddu yn bodoli gan ei fod yn cyflawni anghenion cymdeithasol.

Mae ffwythiannwyr yn cymryd golwg gyffredinol ar gymdeithas, gan edrych ar y sefydliadau gwahanol sy'n gwneud cymdeithas. Strwythuriaeth yw'r enw ar hyn, felly adweinir ffwythiannaeth fel ffwythiannaeth strwythurol hefyd. Awgryma ffwythiannwyr mai un o'r dulliau pwysicaf mewn cymdeithas ar gyfer cadw trefn gymdeithasol yw cymdeithasoli. Dyma'r broses o ddysgu rheolau ar gyfer cymdeithas. Mae pobl yn dysgu ac yna'n mewnoli'r rheolau fel y dânt yn rhan o'u meddwl.

Cwestiynau

1. Beth yw ffwythiannaeth strwythurol?
2. Pa dair egwyddor sy'n gwaelodoli syniadau ffwythiannaeth strwythurol am gymdeithas?
3. Ym mha ffyrdd y mae cymdeithas fel organeb fiolegol?
4. Ym mha ffyrdd mae cymdeithas yn annhebyg iawn i organeb fiolegol?

Allweddeiriau

- Cyfatebiaeth organig - swyddogaethau cymdeithas sydd fel organeb fiolegol.
- Cyfantoled - pan fo dylanwadau cystadleuol ar gymdeithas yn cydbwyso ei gilydd.
- Strwythuriaeth - ymagwedd sy'n cymryd golwg gyffredinol ar sefydliadau mewn cymdeithas a sut y maent yn cydweithio.
- Cymdeithasoli - y broses o ddysgu sut i ymddwyn mewn ffordd sy'n briodol i'ch diwylliant.
- Trefn gymdeithasol - sefydlogrwydd a chyfantoled mewn cymdeithas, pobl yn gwybod beth yw'r rheolau sylfaenol ac yn eu dilyn.
- Mewnoli - Gwneud cred neu syniad yn rhan o'ch personoliaeth neu'ch ffordd o feddwl.
- Ffenomena cymdeithasol - pethau sy'n digwydd mewn cymdeithas.

Beth ddywedodd Durkheim am addysg?

Bwledi

- Roedd Emile Durkheim yn un o sefydlwyr cymdeithaseg.
- Credai fod angen ysgolion arnom i'n helpu ni i deimlo'n rhan o'r gymdeithas.

Deall diwylliant (Addysg)

- Rydym yn dysgu rheolau a rolau cymdeithasol mewn ysgolion.
- Mae ysgolion yn trefnu pobl ar gyfer y swyddi mwyaf priodol sy'n cyd-fynd â'u sgiliau a'u galluoedd.

Testun

Cymdeithasegydd Ffrengig oedd Emile Durkheim (1858 - 1917) ac fe'i adwaenir fel un o Sefydlwyr y ddisgyblaeth. Daeth llawer o'i syniadau yn sail i ffwythiannaeth strwythurol. Roedd ganddo ddiddordeb mewn addysg ac am ran o'i yrfa bu'n hyfforddi athrawon. Credai fod gan addysg nifer o ddibenion (neu swyddogaethau) ar gyfer y gymdeithas.

Y cyntaf o'r rhain yw atgyfnerthu ein teimlad o berthyn a chymuned (undod cymdeithasol). Gwneir hyn mewn ysgolion mewn nifer o ffyrdd, ond fe'i gwelir ar ei orau yn y pethau hynny sy'n uno pobl ac yn gwneud iddynt deimlo yn rhan o grŵp. Meddylwch am ffurfwisg, chwaraeon a chystadlaethau yn erbyn ysgolion eraill. Mae astudio hanes yn rhoi teimlad o barhad o'n diwylliant.

Swyddogaeth nesaf addysg yw cynnal swyddogaethau a rheolau cymdeithasol (trefn gymdeithasol). Mae ysgolion fel adlewyrchiad llai o gymdeithas ehangach, felly mae disgyblion yn dysgu bod gan rai pobl fwy o rym na phobl eraill, a bod moesau yn bwysig. Maen nhw'n dysgu patrymau ymddwyn a fydd yn eu helpu i oroesi mewn cymdeithas pan fyddant yn gadael yr ysgol.

Swyddogaeth olaf addysg yw trefnu pobl fel eu bod yn gwneud y gwaith iawn o ran eu gallu (meritocratiaeth). Mewn cymdeithasau modern, ceir rhaniad llafur. Nid oes gan neb yr holl sgiliau y mae eu hangen i oroesi yn ein byd cymhleth. Dywedodd Durkheim fod ysgolion yn trosglwyddo gwerthoedd cyffredinol cymdeithas i fyfyrwyr a hefyd yn rhoi'r sgiliau y bydd arnynt eu hangen i gydweithio ac i gynhyrchu nwyddau. Rhaid i bobl arbenigo yn y math o waith maen nhw'n ei wneud, mae gennym blymwyr, gofalwyr, gweithredwyr tiliau a meddygon. Ni allai cymdeithas oroesi pe na bai gennym bobl i wneud gwaith gwahanol. Mae pobl yn sefyll arholiadau, fe'i gosodir mewn dosbarthiadau ac fe'u cymhellir i wneud gwaith sy'n addas at beth y gallant ei wneud. Bydd y mwyaf galluog yn astudio pynciau a fydd yn cymell eu sgiliau meddwl a dysgir i blant o allu isel yr hyn y mae arnynt eu hangen ar gyfer bywyd.

Cwestiynau

1. Beth ystyriai Durkheim oedd tri phrif swyddogaeth addysg?
2. Beth yw'r dadleuon o blaid ac yn erbyn ei farn?

Allweddeiriau

- Sefydlwr - Un o'r meddylwyr cyntaf a phwysicaf mewn cymdeithaseg.
- Undod cymdeithasol - cymdeithas yn rhannu yr un gwerthoedd.
- Trefn gymdeithasol - rheolau a threfn cymdeithas
- Rhaniad llafur - gwahanol bobl yn gwneud gwaith gwahanol i gymdeithas.

Beth yw'r farn ffwythiannol am addysg?

Bwledi

Deall diwylliant (Addysg)

- Mae Talcott Parsons yn ddamcaniaethwr Americanaidd adnabyddus.
- Cyslltir Parsons yn agos â'r ddamcaniaeth strwythurol - ffwythiannaeth.
- Awgryma Parsons fod ysgolion yn asiantaethau cymdeithasoli eilaidd.
- Maent yn hyfforddi plant i dderbyn normau a gwerthoedd y gymdeithas ehangach.
- Maent yn gweithredu i ddewis pa blant a gânt eu hyfforddi ar gyfer y swyddi gorau yn y gymdeithas.
- Maent yn dysgu'r plant bod y system yn deg ac yn gydradd i bawb.

Testun

Yn UDA, datblygodd Talcott Parsons (1902 - 1979) syniadau Durkheim. Canolbwyntiodd ar gymdeithasoli. Dywedodd mai'r teulu oedd yr asiantaeth bwysicaf o gymdeithasoli gan mai o'n teuluoedd rydym yn dysgu pwy ydym ni ac oddi wrthynt rydym yn cael ein safle mewn cymdeithas. Felly disgrifiodd y teulu yn asiantaeth o gymdeithasoli cynradd.

I Parsons, asiantaeth bwysicaf cymdeithasoli eilaidd yw addysg. Mae ysgolion yn trosglwyddo normau a gwerthoedd y gymdeithas ehangach ac rydym yn dysgu'r rheolau sy'n berthnasol y tu allan i'r cartref. Mae'r gwerthoedd a ddysgwn yn yr ysgol yn berthnasol i bob rhan o gymdeithas, nid i'n cartrefi yn unig. Ond mae swyddogaeth bwysicach i ysgolion na hyn. Maent hefyd yn ein paratoi ar gyfer bywyd yn y dyfodol. I wneud hynny, maent yn gweithredu fel asiantaeth dewis cymdeithasol gan ddethol myfyrwyr ar gyfer gwahanol rolau yn y dyfodol. Yn union fel cymdeithas, mae ysgolion yn gystadleuol a bydd y myfyrwyr gorau yn mynd ymlaen i gael y swyddi gorau a bydd yn rhaid i'r gwannaf dderbyn cyflog is a gwaith o statws isel. Mae ysgolion yn dysgu plant ei bod yn deg cael gwobrau gwahanol ac felly maent yn dysgu plant i fod yn gystadleuol.

Y gwerthoedd y mae ysgolion yr UDA yn rhoi i blant yw cyflawniad a chydraddoldeb cyfleoedd. Maent yn gwobrwyo'r rhai hynny sydd â lefelau uchel o lwyddiant ac yn annog plant i weithio'n galed er mwyn cael y gwobrwyon hynny. Yn ogystal, cynhelir arholiadau ar amodau cyfartal ac mae'r un cyfle i gael graddau uchel gan bob myfyriwr am fod y system yn amheronol. Golyga hyn fod myfyrwyr yn dysgu bod y drefn yn deg a chyfartal. Fel pwynt o werthuso, dylid nodi bod maint cyfle cyfartal mewn systemau addysg yn destun trafod ymhlith cymdeithasegwyr.

Un o feirniaid enwocaf Parsons oedd Alvin Gouldner a oedd yn ysgrifennu yn y 1970au pan oedd terfysg myfyrwyr yn erbyn Rhyfel Fietnam ar ei fwyaf. Dywedodd fod ffwythiannaeth strwythurol yn honni ein bod ni'n cael eu cymdeithasoli gan addysg. Meritocratiaeth yw'r system addysg felly mae'r bobl orau yn cael y swyddi gorau. Mae pobl nad ydynt yn cydymffurfio yn wyredig. Sut felly, mae'r bobl orau a mwyaf deallus oedd y rhai a oedd yn ddigon gwyrddoedig i gwyno am y Rhyfel, diffyg cyfleoedd i bobl hoyw a menywod ac a oedd yn herio'r dulliau traddodiadol o feddwl?

Cwestiynau

1. Ar syniadau pwy y seiliwyd gwaith Parsons?
2. Sut roedd Parsons yn meddwl bod y system addysg yn gweithio?
3. Pa feirniadaethau y gellir eu gwneud o ddamcaniaeth Parsons?

Allweddairiau

- Normau - Y rheolau sy'n llywodraethu ymddygiad arferol mewn cymdeithas.

Deall diwylliant (Addysg)

- Gwerthoedd - Yr egwyddorion neu gredoau tywys sy'n effeithio ar sut y mae pobl yn gweithredu.
- Dewis cymdeithasol - Dewisir myfyrwyr ar gyfer eu rolau yn y dyfodol.

Beth mae awduron eraill o'r traddodiad hwn wedi'i awgrymu?

Bwledi

- Dywed Davis a Moore fod anghydraddoldeb yn dda i'r gymdeithas.
- Mae'n rhaid i'r bobl fwyaf dawnus ymdrechu am ei addysg ac felly dylid eu hannog.
- Eu gwobr yw cael cyflog uchel a swyddi da pan fyddant wedi gorffen astudio.
- Dylai pobl nad ydynt yn cael y swyddi da dderbyn eu sefyllfa.

Testun

Yn 1945, yn sgîl yr hyn a ysgrifennodd Parson a rhesymeg Durkheim, awgrymodd Davis a Moore os nad oedd systemau addysg yn gyfartal, mae'n rhaid bod rheswm ffwythiannol am yr anghydraddoldeb hwn. Dadleuant fod anghydraddoldeb yn angenrheidiol ac yn gyffredinol gan fod anghydraddoldebau mewn pob cymdeithas. Yn wir, os yw'n bodoli, yna mae'n bodoli am ei fod er lles cymdeithas. Daeth y dadansoddiad hwn yn waith dylanwadol gan ei fod yn cyfiawnhau cyflogau a statws uchel y bobl gyfoethocaf mewn cymdeithas.

Y ddadl sylfaenol yw bod rhai swyddi a galwedigaethau yn fwy pwysig i'r gymdeithas na rhai eraill. Rhaid i'r bobl yn y swyddi arbennig hyn feddu ar y sgiliau a'r priodweddau hynny sy'n eu gwahanu oddi wrth bobl eraill. Mae'n bwysig i'r gymdeithas fod y bobl orau yn gwneud y swyddogaethau hyn er bod angen llawer o waith arnynt ac nid ydynt yn ddymunol bob amser.

Ychydig iawn o bobl sydd â'r sgiliau a'r doniau ar gyfer y swyddi gorau. Yn ogystal, mae angen cryn dipyn o hyfforddiant ar gyfer y swyddi gorau. Yn aml mae pobl sy'n cael hyfforddiant addysgol estynedig i gael y swyddi hynny, neu sy'n astudio'n galed, yn aberthu llawer. Efallai byddant yn gweithio oriau hir iawn ac nid oes ganddynt amser i fwynhau. Gelwir hyn yn foddhad gohiriedig; pobl sy'n gweithio'n galed nawr ar gyfer y posibilrwydd o bleser yn y dyfodol. Ni fydd pobl yn gwneud hyn oni bai y teimlant fod hyn yn rhoi rhyw fath o fantais iddynt dros bobl eraill.

Felly rhaid rhoi rhyw fath o gymhelliant iddynt i aberthu eu hamser ac felly y dylent gael eu gwobrwyo â tâl a gwobrwyon ardderchog. Dylai'r tâl a'r gwobrwyon fod yn dipyn gwell na rhai pawb arall, yn gymhelliant iddynt weithio'n galed. Felly, mae anghydraddoldeb cymdeithasol yn beth da i'r gymdeithas gyfan gan mai dim ond y rhai hynny sy'n haeddu'r gwobrau gorau a all eu cael. Ar ben hynny, gan fod y gymdeithas yn anghyfartal, mae'n amlwg bod anghydraddoldeb yn ateb diben i'r gymdeithas gyfan neu ni fyddai'n digwydd fel arall.

Er syndod, fe wnaeth y math hwn o syniadau ddylanwadu ar rai aelodau o'r Blaid Lafur yn y 1960au fel Antony Crosland a fu'n Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Gwyddoniaeth. Meddyliodd mai un ffordd o wneud y gymdeithas yn fwy cyfartal oedd gwneud cystadlu rhwng disgyblion mewn ysgolion yn fwy cyfartal. Arweiniodd hyn at bolisiau a greodd ysgolion cyfun.

Deall diwylliant (Addysg)

Ym 1971, datblygodd awdur arall syniadau Davis a Moore. Awgrymodd Turner fod y system addysg yn gweithredu er mwyn gwneud dewis cynnar o blant galluog iawn o adrannau isaf y gymdeithas ar gyfer y swyddi gorau trwy ddulliau fel ysgolion gramadeg a systemau arholiadau. Cydnabyddai hefyd fod rhai pobl yn ymdrechu ond nid yn llwyddo, felly mae angen i ysgolion gael systemau i annog y gorau ond hefyd ganiatáu pobl lai galluog fod yn hapus yn eu sefyllfa ac i dderbyn nad ydynt yn ddigon da ar gyfer y swyddi gorau.

Cwestiynau

1. Pa ymresymu y defnyddia Davis a Moore i gyfiawnhau pam y dylai'r gymdeithas fod yn anghyfartal?
2. Pam bod Davis a Moore yn awgrymu bod angen i ni dalu mwy i bobl yn y swyddi gorau nag i bobl eraill?
3. I ba raddau rydych yn cytuno bod anghydraddoldeb yn dda i'r gymdeithas? Nodwch yr hyn sydd o blaid ac yn erbyn y farn hon.

Allweddeiriau

- Boddhad gohiriedig - gohirio pleser yn y presennol er mwyn cael gwobr fwy yn y dyfodol.

Sut mae ffwythiannaeth wedi'i beirniadu?

Bwledi

- Nid yw ffwythiannaeth strwythurol mor boblogaidd mewn cymdeithas ag yr oedd ar un adeg.
- Mae'n tybio bod popeth sy'n digwydd mewn cymdeithas er lles cymdeithas.
- Nid yw'n egluro newid cymdeithasol yn dda
- Mae'n tybio bod pobl yn rhannu normau a gwerthoedd pan fo'n amlwg nad ydynt yn eu rhannu.

Testun

Mae ffwythiannaeth strwythurol wedi bod yn farn ddylanwadol iawn, er y cafodd fwy o effaith yn UDA nag ym Mhrydain. Cafodd effaith ar bolisi cymdeithasol ac mae wedi dylanwadu ar lywodraethau. Mae'n llai poblogaidd ymhlith cymdeithasegwyr ond mae rhyw werth iddo o ran y ddealltwriaeth mae'n ei chynnig. Un o'r prif ddealltwriaethau yw'r ffordd y mae'r system addysg yn cymdeithasoli plant ac yn trosglwyddo iddynt werthoedd cymdeithas.

Er i Parsons ysgrifennu cryn dipyn, ni wnaeth lawer o ymchwil ymarferol ac er ei fod yn ystyried ei hun yn wyddonydd, nid oes llawer o ymchwil i gefnogi ei syniadau. Mae hyn yn wendid gan nad oes tystiolaeth i gefnogi ei ddamcaniaethau.

Ymddengys fod Parsons a ffwythiannwyr strwythurol yn cymysgu achos ac effaith. Dadleuant fod rhai ffenomena cymdeithasol yn bodoli gan fod ar gymdeithas eu hangen. Os oes ar gymdeithas eu hangen, rhaid iddynt gyflawni swyddogaeth i'r gymdeithas honno. Yn ôl y rhesymeg honno, mae menywod yn gofalu am blant yn ein cymdeithas oherwydd dyna beth y maent yn ei wneud. Nid yw hyn yn ystyried yr holl resymau eraill pam mae menywod yn gofalu am blant, fel cymdeithasoli neu hyd yn oed uchafiaeth

Deall diwylliant (Addysg)

dynion, fel y byddai ffeministiaid yn dadlau. Mae llawer o ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar ddatblygu diwylliannau, nad ydynt yn dda i gymdeithas: hiliaeth, rhywiaeth a gwahaniaethau mewn grym, ond ymddengys fod ffwythiannaeth yn anwybyddu hyn.

Mae ffwythiannwyr strwythurol yn cyflwyno'r gyfatebiaeth organig i gymdeithas. Awgryma hyn fod cymdeithasau am fod yn sefydlog a pheidio â newid gan fod organebau yn dueddol o osgoi newid. Nid yw hon yn ddamcaniaeth dda i egluro newid cymdeithasol. Mae newidiadau mawr yn digwydd mewn cymdeithas, ac ambell dro mewn cyfnod byr o amser. Meddylwch am y newidiadau sydd wedi digwydd yn rolau y ddau gender yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf.

Ymddengys fod ffwythiannaeth strwythurol yn credu bod pobl yn rhannu'r un gwerthoedd a moesau mewn cymdeithas. Mae hyn yn anodd ei brofi. Mae llawer o grwpiau cymdeithasol a chanddynt oll farn a phatrymau ymddwyn gwahanol. Nid yw'r normau sy'n berthnasol i un grŵp o reidrwydd yn berthnasol i grŵp arall, er enghraifft, mae llawer o ddiwylliannau ieuencid yn feirniadol o gymdeithas prif-ffrwd. Tynnodd Alvin Gouldner sylw at y ffaith fod llawer o'r myfyrwyr a oedd yn erbyn cyfranogiad UDA yn Rhyfel Fietnam ac a oedd yn cymryd rhan mewn gwrthdystiadau ymhlith y rhai mwyaf dawnus. Dyma'r rhai, yn ôl Parsons, a ddylai fod yn mynd ymlaen i gael y swyddi gorau mewn cymdeithas.

Cwestiynau

1. Yn ôl ffwythiannwyr a oes gennym ewyllys rhydd?
2. A yw ffwythiannwyr yn rhoi cyfrif am y rhai hynny sy'n cefnu ar gymdeithas fel terfysgwyr?
3. A yw pobl mewn cymdeithas yn wir yn rhannu gwerthoedd, moesau a normau?

Allweddeiriau

- Ffenomena - pethau sy'n digwydd.

Sut mae safbwyntiau ffwythiannol addysg wedi eu moderneiddio?

Rhagymadrodd

Bwledi

- Yn ôl y ffwythiannwyr mae gan addysg dair swyddogaeth - cymdeithasoli, darparu sgiliau a dosbarthiad rôl.
- Mae addysg yn helpu i gynnal cymdeithas drwy gymdeithasoli pobl ifanc i werthoedd diwylliannol.
- Mae addysg yn dosbarthu pobl i'r swyddi mwyaf addas ar gyfer eu talentau, gan ddefnyddio arholiadau a chymwysterau.
- Mae gan pawb y cyfle i gael llwyddiant mewn cymdeithas ar sail eu gallu.
- Mae'r ysgolion yn gweithredu yn ôl egwyddorion meritocrataidd, ac mae statws yn cael ei ennill ar sail haeddiant.

Testun

Deall diwylliant (Addysg)

Mae'r safbwynt ffwythiannol ar addysg yn tueddu i ganolbwyntio ar gyfraniadau positif addysg i'r drefn gymdeithasol. Mae ffwythiannwyr yn dadlau bod gan addysg dair swyddogaeth - cymdeithasoli, darparu sgiliau, a dosbarthiad rôl. Mae addysg yn helpu i gynnal cymdeithas drwy gymdeithasoli pobl ifanc i werthoedd diwylliannol allweddol.

Mae addysg yn dysgu sgiliau sydd eu hangen ar gymdeithas ddiwydiannol fodern. Fe allai rhain fod yn sgiliau cyffredinol mae pawb eu hangen, fel llythrennedd a rhifedd, neu sgiliau penodol sydd eu hangen ar gyfer galwedigaethau arbennig. Mae addysg yn dosbarthu pobl i'r swyddi mwyaf addas ar gyfer eu talentau, gan ddefnyddio arholiadau a chymwysterau. Mae hyn yn ymddangos yn deg oherwydd bod cydraddoldeb cyfle - mae gan pawb y cyfle i gael llwyddiant mewn cymdeithas ar sail eu gallu.

Mae ymddygiad y disgyblion yn cael ei fesur yn erbyn ffon fesur rheolau'r ysgol, ac mae eu cyraeddiadau yn cael eu mesur yn ôl eu perfformiad mewn arholiadau. Mae pob plentyn yn cael ei farnu yn ôl yr un safonau, heb ystyried ei statws o ran rhyw, hil, cefndir teuluol na dosbarth genedigol. Mae'r ysgolion yn gweithredu yn ôl egwyddorion meritocrataidd, ac mae statws yn cael ei ennill ar sail haeddiant.

Cwestiynau

1. Pa dair swyddogaeth sydd i addysg yn ôl y ffwythiannwyr?
2. Beth yw egwyddorion meritocrataidd?

Allweddeiriau

- Ffwythiannwyr - cymdeithasegwyr sydd yn gweld consensws yn ein cymdeithas ni.
- Cymdeithasoli - y broses o ddysgu ymddwyn mewn ffordd sy'n briodol i'ch diwylliant.
- Cydraddoldeb cyfle - bod pawb yn ein cymdeithas ni yn cael yr un cyfle.
- Meritocratiaeth - mae'r bobl orau yn codi i frig y strwythur cymdeithasol oherwydd mai nhw yw'r bobl fwyaf dawnus a'r rhai mwyaf cymwys i lywodraethu arnom.

Y Dde Newydd

Bwledi

- Gallai addysg hybu twf economaidd.
- Defnyddiwyd addysg i hyrwyddo twf economaidd drwy annog cystadlu, cynyddu'r dewis i rieni a rhoi pwyslais ar godi safonau.
- Roedd y Dde Newydd yn gobeithio cynyddu'r gystadleuaeth trwy gynnal profion newydd a chyhoeddi canlyniadau.
- Roeddent yn cefnogi profion ac arholiadau safonedig cenedlaethol a oedd yn caniatáu cymharu ysgolion yn uniongyrchol a'i gilydd.
- Defnyddid tablau cynghrair i annog rhagor o gystadlu.

Testun

Mewn araith yng Ngholeg Ruskin yn 1976, galwodd y prif weinidog Llafur, James Callaghan, am 'Drafodaeth Fawr' ar addysg.

Ar adeg pan oedd diweithdra yn cynyddu ac economi Prydain yn dirywio, roedd ofn bod addysg yn methu â chynhyrchu gweithwyr ifanc gyda'r sgiliau priodol ar gyfer byd

Deall diwylliant (Addysg)

gwaith. Roedd angen i ysgolion wella addysg ac hyfforddiant galwedigaethol er mwyn cwrdd ag anghenion diwydiant.

Daeth y pwyslais hwn, a'r polisïau a ddeilliodd ohono, yn adnabyddus fel yr alwedigaethedd newydd.

Er mai prif weinidog Llafur a ysgogodd y 'Drafodaeth Fawr', roedd rhai o syniadau'r Dde Newydd a'r llywodraethau Ceidwadol o 1979 ymlaen yn adlewyrchu ei syniadau. Dadleuent y gallai addysg hyrwyddo'r newidiadau cymdeithasol y dymunent eu gweld, yn enwedig hybu twf economaidd trwy ganolbwyntio ar wella sgiliau'r gweithlu.

Defnyddiwyd addysg i hyrwyddo twf economaidd trwy annog cystadlu, cynyddu'r dewis (i rieni yn arbennig) a rhoi pwyslais ar godi safonau.

Gellid arbed arian trwy orfodi sefydliadau addysgol i gystadlu am fyfyrwyr a disgyblion. Byddai'r rhai a oedd yn methu â denu myfyrwyr yn colli eu cyllid. O ganlyniad, byddai'n rhaid iddynt godi eu safonau neu wynebu'r posibilrwydd o orfod cau.

Yr oedd y Dde Newydd yn gobeithio cynyddu'r gystadleuaeth trwy gynnal profion newydd a chyhoeddi'r canlyniadau. Pwrpas hynny oedd darparu gwybodaeth i rieni, a'u galluogi i ddewis yr ysgolion gorau i'w plant.

Fodd bynnag, rhai mathau o brofion yn unig a gefnogid gan lywodraethau Ceidwadol yr wythdegau a'r nawdegau. At ei gilydd roeddynt yn erbyn gosod gwaith cwrs a chaniatáu i athrawon asesu gwaith eu disgyblion. Gwell oedd ganddynt brofion ac arholiadau safonedig cenedlaethol, a oedd yn caniatáu cymharu ysgolion yn uniongyrchol â'i gilydd. Defnyddid tablau cynghrair i annog rhagor o gystadlu.

Daeth gwrthwynebiad, er enghraifft, oddi wrth Awdurdodau Addysg Lleol ac oddi wrth athrawon a'u hundebau. Yr oedd rhaniadau hefyd yn rhengoedd y Ceidwadwyr. Nid oedd pawb yn cytuno â'r cyfeiriad a gymerwyd gan y Ceidwadwyr ac roedd llawer o'u syniadau yn amhoblogaidd.

Cwestiynau

1. Beth oedd syniadau'r Dde Newydd?
2. Pa gynlluniau oedd ganddyn nhw?

Allweddeiriau

- Hyfforddiant galwedigaethol - hyfforddi rhywun ar gyfer swydd arbennig.
- Yr alwedigaethedd newydd - addysg sydd a'r nod o baratoi myfyrwyr at fywyd yn y gweithle
- Tablau cynghrair - tablau sydd yn gosod ysgolion mewn trefn yn ôl lwyddiant arholiadau.

Egwyddorion y Dde Newydd

Bwledi

Deall diwylliant (Addysg)

- Mae nifer o egwyddorion y Dde Newydd yn seiliedig ar theorïau grymoedd y farchnad ('market forces').
- Dylid cael cystadleuaeth rhwng ysgolion fel y mae cwmnïau preifat yn cystadlu yn erbyn ei gilydd.
- Dywed Chubb a Moe bod angen i ysgolion cyhoeddus gael yr un cymhelliant i wella â'r sector breifat.
- Roedd y Dde Newydd yn bwriadu defnyddio addysg i hyrwyddo twf economaidd.

Testun

Mae nifer o egwyddorion y Dde Newydd yn seiliedig ar theorïau grymoedd y farchnad. Roeddent yn teimlo bod economi Prydain yn dirywio a bod angen gwneud rhywbeth i newid y sefyllfa. Roedd angen i bobl gymryd cyfrifoldeb dros eu dyfodol eu hunain yn hytrach na dibynnu ar y wladwriaeth. Felly hefyd yn yr ysgolion. Dylid cael cystadleuaeth rhwng ysgolion fel y mae cwmnïau preifat yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Dylai hyn arwain at godi safonau addysgol. Dadleuwyd y byddai'r ysgolion gorau yn denu mwy o ddisgyblion, a byddai'r ysgolion gwan yn dirywio os nad oeddynt yn newid pethau er mwyn denu mwy o ddisgyblion.

Dywed Chubb a Moe(1997) bod angen i ysgolion cyhoeddus gael yr un cymhelliant i wella â'r sector breifat. Fe fyddai hyn yn arwain at godi safonau addysgol. Mae angen i ysgolion ddenu eu 'cwsmeriaid' drwy fod yn ysgolion llwyddiannus a phoblogaidd.

Roedd y Dde Newydd yn bwriadu defnyddio addysg i hyrwyddo twf economaidd. Amcanion y diwygiadau oedd codi safonau ar bob lefel, cynyddu dewis rhieni a gwella'r bartneriaeth rhwng rhieni ac ysgolion, yn ogystal â gwella'r cysylltiad rhwng addysg bellach ac addysg uwch ac anghenion yr economi.

Roedd arholi a gosod profion yn un ffordd o symud ymlaen. Byddai cyhoeddi'r canlyniadau yn rhoi gwybodaeth i rieni ynglŷn a pha ysgolion oedd gyda'r canlyniadau gorau. Cyflwynwyd y Tablau Cynghrair a oedd yn cyhoeddi canlyniadau arholiadau y disgyblion i'r cyhoedd. Roedd pawb erbyn hyn yn gallu cymharu ysgolion â'i gilydd ac roedd y rhieni yn gallu casglu gwybodaeth cyn penderfynu ar eu dewis o ysgol i'w plant.

Cwestiynau

1. Beth oedd egwyddorion y Dde Newydd?
2. Sut oedden nhw'n bwriadu codi safonau?
3. Oedd y polisiau yn llwyddiannus?

Allweddeiriau

- Tablau cynghrair - tablau sydd yn gosod ysgolion mewn trefn yn sgîl llwyddiant arholiadau.

Deddf Diwygio Addysg

Bwledi

- Roedd rhai pynciau yn orfodol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol.
- Roeddent yn cynnwys targedau cyrhaeddiad a fyddai'n dweud yr hyn oedd angen i bob disgybl fod yn gwybod yn y pedwar cyfnod allweddol.

Deall diwylliant (Addysg)

- Sefydlwyd Colegau Technolegol Dinas a oedd yn cael eu noddi gan ddiwydiannau preifat.
- Cafodd ysgolion fwy o reolaeth ar eu arian eu hunain.

Testun

Cafodd y Cwricwlwm Cenedlaethol ei gyflwyno yn 1988. Roedd yn rhaid i ddisgyblion 11 - 16 oed astudio Mathemateg, Saesneg, (a Chymraeg yng Nghymru), Gwyddoniaeth, Hanes, Daearyddiaeth, Technoleg, Cerddoriaeth, Celf, Addysg Gorfforol a Iaith Dramor. Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth oedd y pynciau craidd. Y pynciau sylfaenol oedd y gweddill.

Roedd y Cwricwlwm Cenedlaethol hefyd yn cynnwys targedau cyrhaeddiad, a fyddai'n dweud yr hyn oedd angen i bob disgybl fod yn gwybod yn y pedwar cyfnod allweddol. Byddai hyn wedyn yn cael ei brofi mewn profion ffurfiol ar ddiwedd bob cyfnod - y TASau. Y gobaith oedd codi safonau yn yr ysgolion drwy annog ysgolion i gystadlu yn erbyn ei gilydd.

Roedd y Ddeddf hon yn pwysleisio dewis rhieni - roedd gan rieni y dewis i anfon eu plant i'r ysgol o'u dewis nhw. Roedd hyn eto yn annog cystadleuaeth rhwng ysgolion.

Sefydlwyd Colegau Technolegol Dinas, sef sefydliadau addysgol mewn dinasoedd a oedd yn canolbwyntio ar ddysgu technoleg. Roedd rhain yn cael eu noddi gan ddiwydiannau preifat, fel nad oedd raid i'r wladwriaeth dalu'r costau llawn o adeiladu'r colegau. Roeddent hefyd yn annibynnol o Awdurdodau Addysg Lleol.

Rhoddwyd y dewis hefyd i ysgolion dynnu allan o reolaeth yr awdurdod lleol a chael eu ariannu yn uniongyrchol o'r llywodraeth ganolog.

Cafodd ysgolion fwy o reolaeth ar eu arian eu hunain, gyda'r prifathrawon a'r llywodraethwyr yn gyfrifol am y gyllideb. Roedd yr ysgolion felly yn cael arian yn dibynnu ar y nifer o ddisgyblion oedd ar gofrestr yr ysgol. Bwriad hyn oedd gwobrwyo'r ysgolion oedd yn llwyddo i ddenu nifer mawr o ddisgyblion, a rhoi cymhelliad i ysgolion eraill i wella.

Cafwyd peth gwrthwynebiad gan Undebau'r Athrawon, ac ni chafodd y cynlluniau i gyd eu gwireddu.

O 1994 ymlaen, canolbwyntiwyd ar y pedwar pwnc craidd yn unig.

Cwestiynau

1. Beth oedd cynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol?
2. Beth oedd y Colegau Technolegol Dinas?

Allweddairiau

- Pynciau craidd - Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.
- Pynciau sylfaenol - gweddill y pynciau megis Hanes, Daearyddiaeth, Ffrangeg, Cerdd, Celf, TGCh, Addysg Gorfforol, Dylunio a Thechnoleg
- Targedau Cyrhaeddiad - yr hyn sydd angen i bob disgybl fod yn gwybod ar ddiwedd pob cyfnod allweddol.
- Colegau Technolegol Dinas - sefydliadau addysgol mewn dinasoedd a oedd yn canolbwyntio ar ddysgu technoleg.

Deall diwylliant (Addysg)

Llafur Newydd

Bwledi

- Roedd y New Deal yn 1998 yn cynnig addysg a hyfforddiant i bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed a oedd wedi bod allan o waith am dros chwe mis.
- Roedd y Blaid Lafur yn ymgyfarwyddo disgyblion â byd gwaith drwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol, yn y gobaith y bydd hyn yn darparu gweithwyr addas a gwell ar gyfer diwydiant.

Testun

Pan ddaeth y Blaid Lafur Newydd i rym yn 1997 dywedodd Tony Blair mai addysg oedd ei flaenoriaeth, ac roedd amrywiaeth a dewis yn bwysig.

Dadleuodd Llafur Newydd nad oedd cael un system gyfun a oedd yn darparu yr un ysgol i bawb yn addas bellach. Roedd angen eu moderneiddio, a chefnogwyd y syniad o gael ysgolion arbennigol. Roedd rhain yn ganolfannau a oedd yn arbennigo ar rai pynciau arbennig, a chredai Tony Blair bod rhain yn rhoi mwy o gyfleoedd i bawb.

Yn y New Deal yn 1998 cynigiwyd addysg a hyfforddiant i bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed a oedd wedi bod allan o waith am dros chwe mis. Hefyd fe roddwyd addewid i gynyddu y nifer o lefydd i fyfyrwyr o gefndir dosbarth gweithiol mewn addysg uwch. Yn 1998 newidiodd Llafur y drefn o gael grantiau myfyrwyr i drefn o gael benthyciadau llog-isel. Dadleua rhai bod hyn yn ymestyn y bwlch dosbarth mewn mynediad i addysg uwch.

Er bod mwy o ddewis ar gael i bobl ifanc, mae hi dal yn anodd cael gwared ar y rhaniad amlwg sydd rhwng addysg academiaidd ac addysg galwedigaethol. Mae'r niferoedd o ddisgyblion sydd yn dewis cyrsiau galwedigaethol yn hytrach na chysiau lefel 'A' yn dal yn fach. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr dosbarth canol gwyn yn dewis y cwricwlwm academiaidd traddodiadol fel o'r blaen, a'r myfyrwyr dosbarth gweithiol a lleiafrifoedd ethnig yn dueddol o ddewis y cyrsiau galwedigaethol. O'r herwydd cafwyd adolygiad Tomlinson o addysg 14-19, er mwyn cael gwared ar y rhaniad hwn unwaith ac am byth. Bwriad y llywodraeth Lafur newydd oedd ymgyfarwyddo disgyblion â byd gwaith drwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol, yn y gobaith y byddai hyn yn darparu gweithwyr addas a gwell ar gyfer diwydiant.

Cwestiynau

1. Beth oedd y New Deal?
2. A ddylai addysg fod yn fwy galwedigaethol?

Allweddeiriau

- Addysg alwedigaethol - addysg sydd â'r nod o baratoi myfyrwyr at fywyd yn y gweithlu.

Gwerthuso'r polisiau

Bwledi

Deall diwylliant (Addysg)

- Roedd astudiaeth Ball, Bowe a Gerwitz yn cadarnhau y gwahaniaethau rhwng ysgolion.
- Mae'r ysgolion yn y gymdogaeth yn cystadlu a'i gilydd am ddisgyblion.
- Mae addysg yn llai egalitariaidd yn ôl yr astudiaeth.
- Roedd yna nifer o feirniadaethau ar yr alwedigaethedd newydd.

Testun

Mae gan rai cymdeithasegwyr dystiolaeth i gefnogi'r farn bod anghyfartaledd yn parhau. Rhwng 1991 a 1994 bu Stephen Ball, Richard Bowe a Sharon Gerwitz yn astudio 15 ysgol mewn tri AAL cyfagos. Yr oedd yr astudiaeth yn cynnwys cymysgedd o ysgolion AALI, ysgolion a gynhelid trwy grant, ac un Coleg Technoleg Dinas (CTC). Yr oedd y sefydliadau yn gwasanaethu ardaloedd amrywiol, rhai gyda phoblogaethau dosbarth canol yn bennaf, ac eraill gyda nifer uwch o drigolion dosbarth gweithiol.

Buont yn ymweld â'r ysgolion, yn mynychu cyfarfodydd, yn archwilio dogfennau ac yn cyfweld sampl o'r athrawon. Buont yn cyfweld 150 o rieni, a oedd â phlant mewn ysgolion cynradd ac ar fin dewis ysgol uwchradd i'w plant fynd iddi. Buont hefyd yn cyfweld penaethiaid rhai ysgolion cynradd ac yn archwilio dogfennau'r AALLau ynglyn â newidiadau yn y patrymau dewis. Ymdrechwyd i ddarganfod beth oedd effeithiau caniatáu dewis i rieni ac annog cystadlu rhwng ysgolion, ar y system addysg, yn enwedig yr effaith ar y cyfleoedd i wahanol grwpiau cymdeithasol.

Daeth yr astudiaeth i'r casgliad fod y newidiadau addysgol yn dylanwadu'n sylweddol ar yr ysgolion uwchradd, yn enwedig y rhai oedd yn brin o ddisgyblion: yr oedd yn rhaid iddynt wneud rhywbeth i atal y dirywiad. Gallai'r ysgolion mwyaf llwyddiannus deimlo'n weddol fodlon, ond yr oeddynt hwythau hefyd yn dechrau newid rhai o'u harferion.

Nid oedd yr ysgolion yr un mor awyddus i ddenu pob myfyriwr. Oherwydd cyhoeddi'r tablau cynghrair, roeddynt yn fwyaf awyddus i ddenu plant â gallu academiaidd, a fyddai'n codi safle'r ysgol yn y tabl ac yn ychwanegu at ei bri.

Bu'r pwyslais hwn yn anogaeth i rai ysgolion ailddechrau ffrydio a setio, a chyfeirio rhagor o'r adnoddau i'r plant sydd yn debyg o lwyddo mewn arholiadau a phrofion. Arweiniodd hyn at lai o adnoddau i Anghenion Arbennig a rhagor i weithgareddau marchnata er mwyn denu disgyblion -taflenni lliwgar, nosweithiau agored ayyb.

Nid yw ysgolion yn y gymdogaeth bellach yn cydweithio â'i gilydd, ond yn hytrach yn cystadlu â'i gilydd am ddisgyblion.

Newidiwyd sefyllfa'r rhieni a'r disgyblion gan y diwygiadau addysgol. Wrth i'r AALLau gael llai o reolaeth ar ddyrannu disgyblion i'r ysgolion, rhoddir gwell cyfle i rieni i lywio'r farchnad. Gwelwyd rhieni dosbarth canol yn ecsploetio'r sefyllfa gan roi mwy o bwyslais ar eu gwerthoedd addysgol a diwylliannol eu hunain.

Maent mewn gwell sefyllfa na rhieni dosbarth gweithiol i sicrhau bod eu plant yn mynd i'r ysgol a ddewisant. Mae nifer o resymau dros hynny. Mae gan rieni dosbarth canol fwy o gyfalaf diwylliannol na'r rhan fwyaf o rieni dosbarth gweithiol. Mae casglu gwybodaeth am y system addysg a'i llywio i'ch mantais eich hun yn gofyn am ddyfalbarhad, gwybodaeth, amser ac arian. Daw arian hefyd â manteision eraill yn ei sgîl, fel talu am gludiant cyhoeddus i ysgolion yn bellach i ffwrdd.

Deall diwylliant (Addysg)

Ni chanfu'r astudiaeth fod gan rieni dosbarth gweithiol lai o ddiddordeb yn addysg eu plant. Fodd bynnag, roeddent yn brin o'r adnoddau materol a'r cyfalaf diwylliannol i ddylanwadu ar ysgolion uwchradd. Yr oedd yn well gan lawer o rieni'r dosbarth gweithiol anfon eu plant i'r ysgol agosaf.

Daw'r astudiaeth i'r casgliad bod annog rhieni i ddewis, cyhoeddi canlyniadau arholiad mewn tablau cynghrair, cofrestru agored, cyllido trwy fformiwla, a pholisïau eraill a ddyfeisiwyd i wneud addysg yn fwy marchnad-gyfeiriedig, i gyd wedi gwneud addysg yn llai egalitaraidd. Gwelir bod y rhai sydd eisoes dan fantais o fewn y system yn ennill manteision pellach, a'r rhai sydd dan anfantais yn colli rhagor o dir. Y mae ideoleg y sefydliadau addysgol yn newid, gan boeni mwy am ddenu'r dawnus a'r breintiedig, yn hytrach na helpu'r difantais.

Bu rhai beirniaid yn ymosod yn gryf ar yr alwedigaethedd newydd sydd yn nodweddu'r gwahanol gynlluniau hyfforddi ieuencid. Y mae Dan Finn yn gwrthod derbyn mai eu gwir fwriad yw cyflawni'r amcanion a honnir. Dywed Finn fod papurau cyfrinachol o eiddo'r llywodraeth, a ddadlennwyd i'r cylchgrawn Llundainig Time Out ym 1983, yn dangos mai gwir bwrpas YTS oedd cyfyngu ar nifer y gweithwyr a oedd yn ymuno ag undebau llafur, er mwyn lleihau grym bargeinio'r gweithlu. Byddai YTS hefyd yn uniongyrchol yn gostwng lefelau cyflog i weithwyr ifainc. Gellir dweud yr un peth am gynlluniau hyfforddi diweddar.

Daeth John Clarke a Paul Willis i gasgliad tebyg. Dadleuent fod yr alwedigaethedd newydd yn ffordd o gynhyrchu pobl a oedd eisiau gweithio, ond a oedd yn y canol rhwng addysg a byd gwaith. Gellid defnyddio'r hyfforddedigion yn lle gweithwyr eraill llawn-amser, a fyddai o'r herwydd yn rhatach i'r cyflogwyr.

Bu Philip Cohen yn astudio cynnwys yr addysg o fewn cynlluniau hyfforddi. Yn hytrach nag ailsgilio'r boblogaeth - hynny yw, eu hyfforddi mewn sgiliau penodol fel gosod brics - gwelodd Cohen mai dadsgilio'r gweithlu oedd y cyrsiau hyn. Roedd gwir gyflwr y farchnad lafur yn cael ei guddio, a'r ffaith bod diweithdra yn un o nodweddion strwythurol y gymdeithas.

Cwestiynau

1. Beth oedd darganfyddiadau Ball, Bowe a Gerwitz?
2. Beth oedd casgliadau'r astudiaethau?
3. Beth oedd y feirniadaeth ar yr alwedigaethedd newydd?

Allweddeiriau

- Egilataraid - cyfartal.
- Ideoleg - system credoau.
- Yr alwedigaethedd newydd - addysg sydd â'r nod o baratoi myfyrwyr at fywyd yn y gweithle.

Sut mae Marcswyr wedi beirniadu'r system addysg?

Rhagymadrodd

Deall diwylliant (Addysg)

Bwledi

- Mae'r Marcsywyr yn gweld bod y dosbarth rheolaethol ('bourgeoisie') yn rheoli'r gweithwyr ('proletariat').
- Mae gan y bourgeoisie y cyfoeth a'r pŵer i reoli.
- Mae'r proletariat yn cael eu ecsploetio oherwydd nid ydynt yn cael eu trin yn deg.
- Mae'r Marcsywyr yn dadlau bod y system addysg yn chwarae rhan allweddol wrth drosglwyddo ideoleg y dosbarth rhelaethol.

Testun

Mae'r Marcsywyr yn gweld y gymdeithas gyfalafol yn cael ei rheoli gan yr economi. Mae'r lleiafrif, sef y dosbarth rheolaethol ('bourgeoisie') yn rheoli'r mwyafrif, sef y gweithwyr ('proletariat'). Gan y bourgeoisie mae'r cyfoeth a'r pŵer i reoli. Mae'r proletariat yn cael eu ecsploetio oherwydd nid ydynt yn cael eu trin yn deg. Dyma sylfaen anghyfartaledd dosbarth.

Mae sefydliadau fel crefydd, y cyfryngau torfol, y system wleidyddol ac addysg, yn atgyfnerthu'r ideoleg mai'r cyfoethog a'r pwerus sydd a'r hawl i reoli. Maent yn trosglwyddo ideoleg neu'r farn bod ein cymdeithas yn un deg a chyfiawn, ac mae'r proletariat yn derbyn y gymdeithas gyfalafol yn dawel.

Mae'r Marcsywyr yn dadlau bod y system addysg yn chwarae rhan allweddol wrth drosglwyddo ideoleg y dosbarth rheolaethol.

Cwestiynau

1. Sut mae'r Marcsywyr yn gweld ein cymdeithas?
2. Pa sefydliadau sy'n atgyfnerthu'r ideoleg?
3. Ydy eich ysgol neu coleg yn hybu syniadau cyfalafol? Sut?

Allweddeiriau

- Cymdeithas gyfalafol - cymdeithas lle mae'r dosbarth rheolaethol yn elwa ar draul y gweithwyr
- Bourgeoisie - y dosbarth sydd yn rheoli.
- Proletariat - y gweithwyr.
- Ideoleg - system credoau.

Y Blaid Lafur

Bwledi

- Yn draddodiadol roedd y Blaid Lafur wedi ei chysylltu ag egwyddorion Marcsaidd.
- Mae Llafur Newydd yn Lloegr wedi ymbellhau oddi wrth ei pholisïau traddodiadol.
- Yng Nghymru mae cyswllt o hyd ag egwyddorion yn ymwneud â chydraddoldeb.

Testun

Yn draddodiadol mae'r Blaid Lafur wedi ei chysylltu ag egwyddorion Marcsaidd. Roedd yn credu bod angen hybu buddiannau'r dosbarth gweithiol. Yn hanesyddol cysylltwyd y Blaid Lafur â pholisïau addysgol a oedd yn hybu cydraddoldeb o ran mynediad i addysg.

Deall diwylliant (Addysg)

Y Blaid Lafur oedd yn gyfrifol am gyflwyno ysgolion cyfun, grantiau myfyrwyr a deddfwriaeth arall gyda'r bwriad o sicrhau cyfleoedd addysgol ehangach i fwy o bobl.

Ers i Lafur Newydd ddod i rym ym 1997 mae'r cysylltiad traddodiadol gydag egwyddorion Marcsaidd wedi chwalu. O safbwynt addysg mae'r Blaid Lafur newydd wedi dilyn syniadau'r Dde Newydd megis cystadleuaeth a grymodd y farchnad ac felly mae'r cysylltiad â delfrydau'r dosbarth gweithiol wedi ei wanhau.

Er hyn, mae'r Blaid Lafur yng Nghymru yn fwy traddodiadol na'r Blaid Lafur yn Llundain. Mae wedi cyflwyno deddfwriaeth sydd ychydig yn wahanol i'r ddeddfwriaeth yn Lloegr ac mae wedi pwysleisio yr angen i sicrhau mynediad i addysg i bawb. Mae wedi dileu y SATau amhoblogaidd ac mae'n rhatach i fyfyrwyr o Gymru fynychu addysg uwch yng Nghymru.

Cwestiynau

1. Beth yw'r cysylltiad rhwng y Blaid Lafur a syniadau Marcsaidd?
2. Pam fod gwahaniaeth rhwng polisïau y Blaid Lafur yng Nghymru a Lloegr?

Allweddeiriau

- Deddfwriaeth - cyfreithiau sydd wedi eu gwneud.

Bowles and Gintis

Bwledi

- Mae Bowles a Gintis yn credu bod addysg yn cyflenwi gweithlu gyda'r mathau o bersonoliaeth, agweddau a gwerthoedd sydd fwyaf defnyddiol i'r cyfalafwyr
- Mae'r cwricwlwm cudd yn cyfrannu at hyn drwy fowldio gweithlu'r dyfodol
- Cred Bowles a Gintis bod y cwricwlwm cudd yn darparu gweithlu goddefol ac ufudd
- Dadleuent fod addysg o fudd anuniongyrchol i gyfalafiaeth trwy gyfreithloni anghydraddoldeb

Testun

Ystyriai'r cymdeithasegwyr Americanaidd, Bowles a Gintis (1976), mai prif swyddogaeth addysg yn y gwledydd cyfalafol yw atgynhyrchu'r farchnad lafur.

Maen nhw'n wedi cynnig y ddamcaniaeth gyfatebol. Mae'r ddamcaniaeth yn honni bod anghyfartaledd addysgol yn adlewyrchu anghyfartaledd cymdeithasol.

Er mwyn i gyfalafiaeth lwyddo mae angen gweithlu gweithgar sydd rhy ufudd i herio awdurdod y rhai sy'n rheoli. Yn ôl Bowles a Gintis mae addysg yn cyflenwi gweithlu gyda'r mathau o bersonoliaeth, agweddau a gwerthoedd sydd fwyaf defnyddiol i'r cyfalafwyr.

Deall diwylliant (Addysg)

Mae Bowles a Gintis, fel Marx, yn ystyried bod gwaith mewn cymdeithas gyfalafol yn golygu cymryd mantais a gelyniaethu; ond os yw cyfalafiaeth i llwyddo rhaid wrth weithlu diwyd, dof ac ufudd, sydd yn rhy rhanedig i herio awdurdod y rheolwyr.

I raddau helaeth, y mae'r system addysg yn llwyddo i gyrraedd y nod hwn trwy gyfrwng y cwricwlwm cudd. Mae'r cwricwlwm cudd yn cynnwys y pethau y mae'r plant yn eu dysgu trwy fynychu'r ysgol, yn hytrach na'r amcanion addysgol honedig. Mae cyfatebiaeth rhwng y cwricwlwm cudd ac anghenion y gweithlu. Yn ôl Bowles a Gintis, y mae'r cwricwlwm cudd yn mowldio gweithlu'r dyfodol yn y ffyrdd canlynol:

Mewn astudiaeth yn seiliedig ar 237 aelod o'r flwyddyn hynaf mewn ysgol uwchradd yn Efrog Newydd, canfu Bowles a Gintis fod a wnelo'r graddau a enillwyd fwy â nodweddion personol na gallu academiaidd. Gwelwyd perthynas rhwng graddau isel a chreadigrwydd, tra'r oedd graddau uchel yn gysylltiedig â dibynadwyedd a phrydlondeb. Yr oedd y system addysg Americanaidd yn creu gweithlu diddychymyg, dirwgnach, a oedd yn hawdd i'w drin gan y cyflogwyr.

Ychydig o reolaeth a ganiateir i fyfyrwyr dros y pynciau a astudiant a'r dulliau o astudio. Mae hynny yn eu paratoi ar gyfer natur y berthynas yn y gweithle, lle y bydd disgwyl i weithwyr wrando ac ufuddhau.

Yn y gymdeithas gyfalafol y mae'n rhaid wrth weithlu a gymhellir gan wobrau allanol, oherwydd bod gwaith mor ddiflas. Ni threfnir mohono i roi boddhad i ddyn yn ei waith, ond oherwydd awydd y cyfalafwr i wneud elw. Y pecyn cyflog yw'r wobwr allanol i'r gweithiwr, yn union fel yr oedd ennill cymhwysterau yn wobwr allanol i fyfyrwyr yn yr ysgol.

Honnir gan Bowles a Gintis y rhennir gwybodaeth yn ddarnau, a'i chadw mewn 'adrannau' twt. Y mae'r agwedd hon ar addysg yn cyfateb i'r modd y dernir y gweithlu. Cred Bowles a Gintis fod swyddi mewn ffatrioedd hefyd wedi eu rhannu yn dasgau penodol i'w gwneud gan wahanol unigolion. Mae gweithlu sydd wedi ei ddarnio yn haws i'w reoli - enghraifft o rannu er mwyn goresgyn.

Mae Bowles a Gintis, felly, yn credu bod y cwricwlwm cudd yn darparu gweithlu goddefol ac ufudd, sydd yn derbyn awdurdod yn ddigwestiwn, a gymhellir gan wobrau allanol, ac sydd yn rhanedig. Dadleuant hefyd fod rhannau ffurfiol o'r cwricwlwm yn cyfateb i anghenion y cyflogwyr cyfalafol.

Dadleuant fod addysg o fudd anuniongyrchol i gyfalafiaeth trwy gyfreithloni anghydraddoldeb. Wrth wneud i gymdeithas ymddangos yn deg a chyfiawn, mae'n cuddio'r ymwybyddiaeth o ddosbarth, ac yn diogelu sefydlogrwydd y gymdeithas.

Er bod addysg i'w chael am ddim ac yn agored i bawb, ac er y gall unigolion ymgeisio am swyddi fel y dymunant, y mae Bowles a Gintis yn mynnu bod rhai yn cael llawer gwell cyfle nag eraill. Mae plant pobl gyfoethog a grymus yn tueddu i ennill gwell cymhwysterau a swyddi ar gyflogau uwch, beth bynnag fo'u galluoedd. Dyna y mae'r system addysg yn ceisio ei guddio tu ôl i fyth meritocratiaeth. Mae'r rhai a amddifadwyd o'u llwyddiant yn beio eu hunain, ac nid y system sydd wedi eu condemnio i fethu. Myth yw'r syniad ein bod i gyd yn cystadlu ar yr un telerau.

Deall diwylliant (Addysg)

Cwestiynau

1. Eglurwch beth yw y 'ddamcaniaeth gyfatebol'.
2. Sut mae'r cwricwlwm cudd yn mowldio gweithlu'r dyfodol yn ôl Bowles a Gintis?

Allweddeiriau

- Y ddamcaniaeth gyfatebol - y farn fod addysg yn adlewyrchu'r gymdeithas ehangach.
- Cyfalafiaeth - cymdeithas lle mae'r dosbarth rheolaethol yn elwa ar draul y gweithwyr.
- Cwricwlwm cudd - negeseuon sydd yn cael eu trosglwyddo i'r disgyblion heb iddynt sylweddoli.
- Hierarchaeth - trefn arbennig, lle mae'r rheolwyr ar y brig a phawb yn gwybod eu lle.
- Meritocratiaeth - mae'r bobl orau yn codi i frig y strwythur cymdeithasol oherwydd mai nhw yw'r bobl fwyaf dawnus a'r rhai mwyaf cymwys i lywodraethu arnom.

Althusser

Bwledi

- Credai Althusser bod addysg yn cymdeithasoli plant dosbarth gweithiol i dderbyn eu safle israddol i'r dosbarth canol.
- Mae addysg yn trosglwyddo ideoleg y dosbarth rheoli.
- Mae addysg yn paratoi unigolion ar gyfer byd gwaith, ar gyfer derbyn eu sefyllfaoedd yn y gymdeithas gyfalafol.

Testun

Credai Louis Althusser (1971) bod addysg yn cymdeithasoli plant dosbarth gweithiol i dderbyn eu safle israddol i'r dosbarth canol.

Dywed hefyd bod y cyfryngau, y gyfraith, a chrefydd yn atgyfnerthu ac yn trosglwyddo'r ideoleg hwn, sef ideoleg y dosbarth rheoli. Mae'r defnyddio'r term offeryn ideoloegol gwladwriaethol i ddisgrifio rôl yr asiantaethau hyn.

Mewn cymdeithas gyfalafol, maen gweld addysg yn cymryd drosodd fel y prif asiantaeth rheolaeth cymdeithasol. Mae addysg hefyd yn atgynhyrchu agweddau ac ymddygiad ar gyfer rhaniad llafur. Mae yn dysgu'r gweithwyr i dderbyn eu sefyllfa, i gael eu ecsploetio, ac yn dangos i'r rheolwyr sut i reoli'r gweithlu.

Mae addysg yn paratoi unigolion ar gyfer byd gwaith, ar gyfer derbyn eu sefyllfaoedd yn y gymdeithas gyfalafol.

Cwestiynau

1. Beth yw ideoleg y dosbarth rheoli?
2. Sut mae addysg yn trosglwyddo'r ideoleg hwn?

Allweddeiriau

Deall diwylliant (Addysg)

- Cymdeithasoli - y broses o ddysgu ymddwyn mewn ffordd sy'n briodol i'ch diwylliant.
- Ideoleg - system credoau.
- Ecsploetio - cymryd mantais.
- Cyfalafiaeth - cymdeithas lle mae'r dosbarth rheoli yn elwa ar draul y gweithwyr.
- Offeryn ideolegol gwladwriaethol - sefydliadau sy'n cael eu defnyddio mewn cymdeithasau cyfalafol i drosglwyddo ideoleg y dosbarth rheoli.

Cyfleoedd addysgol a'r proletariat

Bwledi

- Mae myfyrwyr prifysgol yn fwy tebygol o ddod o gefndiroedd proffesiynol a dosbarth canol yn hytrach na dosbarth gweithiol.

Testun

Mae myfyrwyr Prifysgol yn fwy tebygol o ddod o gefndiroedd proffesiynol a dosbarth canol yn hytrach na dosbarth gweithiol. Mae hyn yn arbennig o wir am yr hen brifysgolion a'r rhai sydd uchaf yn nhablau'r gynghrair, ac sydd a chysylltiad agos ag ysgolion preifat. Mae Prifysgol Rhydychen, er enghraifft, yn derbyn nifer sylweddol o fyfyrwyr o'r sector breifat, hyd yn oed ar ôl edrych ar ganlyniadau Lefel 'A'.

Dywed Connor a Dewson (2001) mai dim ond un allan o bob pump o fyfyrwyr addysg uwch oedd yn dod o gefndir dosbarth gweithiol. Mae hyn yn rhannol yn adlewyrchu canlyniadau isel yn TGAU a Lefel 'A', ond hefyd mae nifer o fyfyrwyr o gefndir dosbarth gweithiol sydd gyda'r cymwysterau angenrheidiol yn dewis peidio mynd ymlaen i addysg uwch. Mae hyn yn dystiolaeth sy'n cefnogi barn y Marcsiaid fod y system addysg yn elitaidd.

Dangosodd arolwg o 2000 o bobl ifanc bod myfyrwyr dosbarth gweithiol yn dangos mwy o ddiddordeb mewn swyddi a materion ariannol na myfyrwyr dosbarth canol.

Rhai o'r rhesymau mwyaf cyffredin dros beidio ag ystyried addysg uwch oedd - eisiau cychwyn gweithio, eisiau hyfforddiant a gweithio ar yr un pryd, eisiau bod yn annibynnol, roeddent yn anelu am swydd nad oedd angen cymhwyster uwch, ac roeddent yn pryderu am y gost, sef cael benthyciad myfyrwyr a'r ofn o fethu talu'r ddyled yn ôl.

Gellid defnyddio'r uchod fel tystiolaeth i gefnogi'r ddamcaniaeth gyfatebol. Nid yw plant dosbarth gweithiol yn cael eu cymdeithasoli i herio grym y dosbarth canol dros y system addysg a myth haeddiannaeth.

Er hyn, yn dilyn dadansoddiad Marcsaidd, y ddau grwp sy'n dioddef y mwyaf o wahaniaethu, yw merched a lleiafrifoedd ethnig ond ar hyn o bryd rhain yw'r grwpiau ble mae'r cynnydd mwyaf o safbwynt mynychu prifysgol.

Cwestiynau

1. Pam fod llai o bobl ifanc dosbarth gweithiol yn mynd i brifysgol?

Deall diwylliant (Addysg)

Allweddeiriau

- Addysg Uwch - addysg i rai dros 18 sy'n digwydd mewn colegau a phrifysgolion.

Pa feirniadaethau sydd wedi eu gwneud o Bowles and Gintis?

Bwledi

- Mae'r beirniaid yn dweud bod Bowles a Gintis yn gor-bwysleisio'r gyfatebiaeth rhwng gwaith ac addysg.
- Mae rhai disgybion yn gwrthod addysg ac nid ydynt yn weithwyr da.

Testun

Ystyrir gwaith Bowles a Gintis yn hynod o ddadleuol, ac fe'i beirniadwyd gan feirniaid Marcsaidd ac eraill.

Cytuna'r beirniaid bod Bowles a Gintis yn gor-bwysleisio'r gyfatebiaeth rhwng gwaith ac addysg, a'u bod wedi methu â dangos tystiolaeth ddigonol. Gwnaed y pwyntiau canlynol gan y beirniaid:

Sefydlwyd y system addysg yn ddiweddarach o lawer na dechrau'r cyfnod diwydiannol. Am amser hir bu diwydianwyr yn cyflogi gweithlu diddysg, ac yn ffynnu. Y mae hyn yn gwanhau'r gydberthynas honedig rhwng addysg a datblygiadau economaidd.

Ni wnaed ymchwil digonol i'r honiad bod ysgolion yn effeithio ar bersonoliaeth. Ni wnaed ymchwil manwl i fywyd yn yr ysgolion, a chaniatáu bod y cwricwlwm cudd mewn gwirionedd yn dylanwadu ar ddisgyblion. Mae ymchwil arall gan Paul Willis yn awgrymu mai ychydig o sylw a roddir i reolau'r ysgol gan lawer o ddisgyblion, ac mai prin yw eu parch i athrawon - yn groes i syniad Bowles a Gintis am weithlu dof ar gyfer y dyfodol.

Beirniadwyd Bowles a Gintis am anwybyddu dylanwad addysg ffurfiol. Mynna Reynolds nad amcan y cwricwlwm yw datblygu'r gweithiwr ufudd. Dysgir y disgyblion i arfarnu a chwestiynu, i wybod am faterion cymdeithasol a gwleidyddol.

Mewn astudiaeth o weithwyr yn Lloegr gan Richard Scase, 2.5% yn unig a oedd o'r farn bod cymwysterau addysgol yn ffactor pwysig mewn penderfynu dosbarth cymdeithasol. Nid yw hynny'n awgrymu bod addysg wedi llwyddo i gyfreithloni anghydraddoldeb ym Mhrydain.

Yn ôl David Reynolds, byddai'n amhosibl i gyfalafwyr Prydeinig reoli'r ysgolion yn gyfan gwbl. Caniateir llawer o ryddid i awdurdodau lleol yn y mater o drefnu addysg. Mae gan yr athrawon eu rhyddid o fewn yr ystafell ddosbarth.

Cwblhawyd ymchwil Bowles a Gintis yn y saithdegau. Er y cyfnod hwnnw, digwyddodd llawer o newidiadau yn y system addysg, sydd yn awgrymu y gallai eu honiadau fod yn fwy perthnasol heddiw. Collodd yr awdurdodau lleol beth o'u grym a'u rheolaeth ar addysg, er enghraifft trwy sefydlu ysgolion a gynhelir â grant; collwyd rhyddid yr athrawon oherwydd y cwricwlwm cenedlaethol; a bu twf mewn hyfforddiant galwedigaethol.

Deall diwylliant (Addysg)

Rhoddodd y Marcsydd Henry Giroux gynnig ar ddadansoddiad newydd, yn dilyn y beirniadu a fu ar Bowles a Gintis. Dadleuodd fod disgyblion o'r dosbarth gweithiol yn cymryd rhan mewn llunio eu haddysg eu hunain. Nid fyddant yn derbyn pob peth a addysgir iddynt. Byddant yn manteisio ar eu diwylliant eu hunain i ganfod ffyrdd i ymateb i'r ysgol - yn aml trwy wrthwynebu (is-ddiwylliant gwrth-ysgol).

Cwestiynau

1. Beth yw'r beirniadaethau o waith Bowles a Gintis?
2. Ydy ysgolion yn ceisio rheoli myfyrwyr er lles cyfalafiaeth?

Allweddeiriau

- Y ddamcaniaeth gyfatebol - y farn bod addysg yn adlewyrchu'r gymdeithas ehangach.

Pa theoriau beirniadol o addysg sydd wedi datblygu yn ddiweddar?

Rhagymadrodd

Bwledi

- Edrychodd Paul Willis i mewn i'r rhesymau dros ddatblygiad grwpiau o is-ddiwylliant gwrth-ysgol.
- Nid yw pob disgybl yn derbyn rheolau ac awdurdod yn ddi-gwestiwn.

Testun

Mae barn ffwythiannwyr am addysg yn cael ei ystyried i fod yn optimistaidd ac yn afrealistig. Ar y llaw arall mae Marcsiaid yn disgrifio y system addysg fel cyfrwng i reoli a dylanwadu meddyliau pobl. Mae problemau gyda'r ddau safbwynt. Felly mae rhai cymdeithasegwyr wedi ystyried ffyrdd eraill o egluro sut mae'r system addysg yn effeithio y disgyblion.

Mae disgyblion yn ymateb i'w addysg mewn gwahanol ffyrdd. Mae rhai grwpiau yn derbyn y rheolau ac awdurdod yr athrawon heb gwestiwn, tra mae eraill yn treulio y rhan fwyaf o'u hamser yn torri rheolau ac osgoi gwaith.

Yn yr 1970au, rhoddodd y cyfryngau cryn dipyn o sylw i ysgolion cyfun canol-dinas a'r camymddwyn a gafwyd gan y disgyblion yno. Ysgogodd hyn i gymdeithasegwyr fel Paul Willis i edrych i mewn i'r rhesymau dros ddatblygiad y grwpiau gwrywaidd dosbarth-gweithiol hyn o ddisgyblion ysgol 'anisgybledig', neu is-ddiwylliannau gwrth-ysgol.

Mae astudiaeth Paul Willis 'Learning to Labour' yn ymdriniaeth neo-Farcsaidd bwysig ar addysg. Dechreuodd gyda safbwynt Marcsaidd ond daeth i'r farn bod syniadau Marcsaidd yn or-negyddol.

Ceisiodd ddeall y profiad o fod yn yr ysgol, o safbwynt y plant. Buan y darganfu nad oedd ysgolion mor llwyddiannus ag y tybiai Bowles a Gintis o ran cynhyrchu gweithlu dôf a chydymffurfiol.

Deall diwylliant (Addysg)

Yr oedd yr ysgol a astudiwyd gan Willis ar stad o dai dosbarth gweithiol. Prif ganolbwynt yr astudiaeth oedd 12 o fechgyn dosbarth gweithiol y bu'n eu dilyn trwy gydol eu 18 mis olaf yn yr ysgol, ac am yr ychydig fisoedd cyntaf mewn gwaith. Fel y 'lads' y cyfeirir at y bechgyn gan Willis.

Roedd Willis yn credu bod ganddynt eu diwylliant gwrth-ysgol eu hunain, a oedd yn wrthwynebol i werthoedd cyffredinol yr ysgol. Honnodd bod y bechgyn yn datblygu diwylliant gwrth-ysgol am fod yr ysgol yn amherthnasol iddynt. Erbyn heddiw mae'r gwaith wedi dyddio ond mae wedi bod yn ddylanwadol iawn dros y blynyddoedd.

Cwestiynau

1. Beth oedd pwrpas astudiaeth Paul Willis?
2. Beth yw is-ddiwylliant gwrth-ysgol?

Allweddeiriau

- Is-ddiwylliant - grŵp bach o bobl gyda normau a gwerthoedd gwahanol i brif ffrwd cymdeithas.
- Gwrth-ysgol - mae rhai disgyblion mewn ysgolion yn creu grwpiau cyfeillgarwch sy'n ymrwthod ag amcanion a gwerthoedd yr ysgol gyfan.

Diwylliant gwrth-ysgol

Bwledi

- Nid oedd y bechgyn yn astudiaeth Willis yn gweld gwerth mewn gwaith academaidd.
- Roeddent yn edrych ymlaen i adael ysgol a chael gwaith amser llawn.
- Mae Willis yn gwneud y sylw nad yw'r system addysg yn gallu mowldio personoliaethau'r disgyblion er mwyn creu gweithwyr delfrydol.
- Roedd tebygrwydd rhwng y diwylliant gwrth-ysgol a'r diwylliant llawr ffatri.

Testun

Nodweddion y diwylliant gwrth-ysgol oedd y canlynol. Teimlai'r hogiau eu bod uwchlaw'r athrawon a'r disgyblion eraill a oedd yn cydymffurfio. Ychydig neu ddim gwerth a osodent ar waith academaidd, ac nid oedd ganddynt ddim diddordeb mewn ennill cymwysterau. Un o'u hamcanion oedd osgoi gwersi neu wneud cyn lleied o waith ag y bo modd pan oeddent yn bresennol.

Roedd yr ysgol yn gyfystyr â diflastod, roedd byd oedolion yn fwy cyffrous. Dulliau o uniaethu â byd oedolion oedd ysmegu, yfed ac ymrwthod â gwisg ysgol.

Roedd yr hogiau yn awyddus iawn i adael yr ysgol, ac yn edrych ymlaen at gael gwaith amser llawn. Roeddent yn fodlon cymryd unrhyw swydd, cyn belled â bod y gwaith yn waith llaw, gwrywaidd. Roedd unrhyw waith llaw yn dderbyniol.

Ychydig o fudd a welent mewn astudio am flynyddoedd er mwyn cael gwaith meddyliol. Doedd dim arian i'w gael am hynny, a byddent yn colli eu hannibyniaeth.

Deall diwylliant (Addysg)

Mae Willis yn gwneud y sylw bod y system addysg yn methu â mowldio personoliaethau'r disgyblion er mwyn creu gweithwyr delfrydol. Nid ydynt yn plygu i awdurdod nac yn ufudd a dof.

Sylwodd Willis ar nodweddion tebyg yn y diwylliant llawr ffatri a'r diwylliant gwrth-ysgol, e.e. rhywiaeth, hiliaeth, diffyg parch i awdurdod a'r un pwyslais ar werth llafur dwylo. Yr oedd yr un mor bwysig i gael hwyl, a chael rhyddid hefyd.

Roedd y ddau ddiwylliant yn dod o hyd i ffyrdd o ymdopi â diflastod ac undonedd - trwy gael hwyl a gorfodi'r athro neu'r rheolwr i ildio ychydig o dir. Eto, gwyddent pa mor bell i fynd, ac ni fyddent byth yn herio awdurdod benben. Gwyddent y byddai hynny yn arwain at gosb neu ddiswyddo.

Cred Willis fod addysg yn atgynhyrchu'r math o weithlu sydd ei angen ar gyfalafiaeth, ond nid yn fwriadol. Ni orfodir yr hogiau yn yr ysgol i ymddwyn fel a wnânt, nac i chwilio am waith llaw; nhw yn hytrach, yn eu hisddiwylliant sydd yn dewis llafur o'r fath. Maent yn dysgu oddi wrth eu tadau, eu brodyr ac eraill yn y gymuned. Yr atyniad yw byd gwrywaidd yr oedolion.

Daw Willis i'r casgliad nad yw'r diwylliant gwrth-ysgol o les nac yn ddrwg i gyfalafiaeth. Sylweddola'r hogiau nad yw'r gymdeithas gyfalafol yn feritocrataidd. Deallant nad oes modd iddynt wella eu bywydau ar eu pen eu hunain, a bod yn rhaid gweithredu ar y cyd i wella sefyllfa'r dosbarth gweithiol, yn yr ysgol ac mewn gwaith. Gwyddant nad oes swyddi ar gael yn lleol, ac na fydd astudio yn yr ysgol yn eu paratoi at waith. Maent yn deall pwysigrwydd gwaith llaw, ond ni wyddant i ba raddau y mae cyfalafiaeth wedi llwyddo i gymryd mantais ohonynt.

Dengys Willis, felly, mai ymwrthod yn wirfoddol â'r ysgol sydd yn paratoi un adran o'r gweithlu ar gyfer ei swyddogaeth yn y dyfodol. Mae grym llafur yn atgynhyrchu ei hunan yn anfwriadol ac yn anuniongyrchol yn yr ysgol.

Cwestiynau

1. Beth yw nodweddion y diwylliant gwrth-ysgol?
2. Beth oedd y tebygrwydd rhwng diwylliant gwrth-ysgol a diwylliant llawr ffatri?
3. Beth yw casgliadau Willis?

Allweddeiriau

- Diwylliant llawr ffatri - grwpiau cyfeillgarwch ym myd gwaith, yn y gweithle.
- Diwylliant gwrth-ysgol - mae rhai disgyblion mewn ysgolion yn creu grwpiau cyfeillgarwch sy'n ymwrthod ag amcanion a gwerthoedd yr ysgol gyfan ac yn creu eu diwylliant eu hunain.
- Cyfalafiaeth - cymdeithas lle mae'r dosbarth rheolaethol yn elwa ar draul y gweithwyr.
- Meritocratiaeth - mae'r bobl orau yn codi i frig y strwythur cymdeithasol oherwydd mai nhw yw'r bobl fwyaf dawnsus a'r rhai mwyaf cymwys i lywodraethu arnom.

Beirniadaethau o Willis

Deall diwylliant (Addysg)

Bwledi

- Dywed rhai nad oedd sampl Willis yn nodweddiadol o'r disgyblion yn yr ysgol a astudiwyd ganddo.
- Anwybyddodd Willis yr amrywiaeth o is-ddiwylliannau yn yr ysgol.

Testun

Cynigiwyd y beirniadaethau canlynol ar Willis gan David Blackledge a Barry Hunt:

Y mae sampl Willis yn annigonol. Canolbwyntiodd ar 12 disgybl, gwrywaidd i gyd, nad oeddynt yn nodweddiadol o'r disgyblion yn yr ysgol a astudiwyd ganddo. Ni ellir, felly, defnyddio'r astudiaeth hon fel darlun cyffredinol o blant ac addysg y dosbarth gweithiol.

Anwybyddodd Willis yr amrywiaeth eang o isddiwylliannau yn yr ysgol. Roedd llawer o'r disgyblion yn y canol, rhwng y naill eithafbwynt o gydymffurfio'n llwyr a'r llall, sef ymroi'n llwyr i'r diwylliant gwrth-ysgol.

Camddehonglodd beth o'r dystiolaeth, e.e. bod y bechgyn yn copïo agweddau eu tadau tuag at waith. Roedd rhai o'r tadau yn falch iawn o'u gwaith a'u perthynas dda gyda'r rheolwyr, tra'r oedd eu meibion yn gwrthod pawb nad oedd yn perthyn i'w byd bach hwy.

Ugain mlynedd yn ddiweddarach, cafodd astudiaeth tebyg ei chynnal yn y West Midlands gan Mairtin Mac an Ghaill (1994). Roedd rhai o'r bechgyn ifanc dosbarth- gweithiol - 'the macho lads' - yn debyg i rhai Willis. Roeddent yn gwrthod awdurdod yr athrawon a gwerthoedd yr ysgol.

Serch hynny, roedd yn gyfnod o ddiweithdra uchel pan oedd nifer o swyddi traddodiadol sgil isel y dosbarth-gweithiol yn diflannu. Oherwydd hyn, nid oedd ymddygiad 'gwrthryfelgar' y bechgyn mor addas - roedd y swyddi ar eu cyfer yn diflannu. Yn aml roedd cyfnod mewn cynlluniau hyfforddi ieuencid yn cael ei ddilyn gan ddiweithdra, a daeth hyn yn norm i nifer o fechgyn dosbarth-gweithiol.

Cwestiynau

1. Beth oedd y beirniadaethau ar Willis?
2. Beth oedd canlyniadau Mac an Ghaill?

Allweddeiriau

- Is-ddiwylliant - grŵp bach o bobl gyda normau a gwerthoedd gwahanol i brif ffrwd cymdeithas.
- Gwrth-ysgol - mae rhai disgyblion mewn ysgolion yn creu grwpiau cyfeillgarwch sy'n ymwrthod ag amcanion a gwerthoedd yr ysgol gyfan.

Ôl-Fodernwyr

Bwledi

- Mae yna fwy o newidiadau yn digwydd drwy'r amser ar hyn o bryd yn ôl ôl-fodernwyr.

Deall diwylliant (Addysg)

- Mae hwn yn gyfnod lle nad oes disgwyl i berson aros yn yr un swydd ar hyd eu bywyd.
- Mae cymdeithas a theuluoedd wedi newid.

Testun

Mae ôl-fodernwyr yn dadlau fod y cyfnod rydym yn byw ynddo rwan yn wahanol i unrhyw gyfnod cyn hyn oherwydd cymaint o newidiadau sydd yn digwydd drwy'r amser, ac mae hyn wrth gwrs yn effeithio ac yn dylanwadu ar fyd addysg hefyd. Mae yna amrywiaeth a phryderon, oherwydd y nifer o ieithoedd sydd yn bodoli, nifer y grwpiau ethnig sydd yn cyd-fyw â'i gilydd yn y trefi a'r dinasoedd, newidiadau mewn cerddoriaeth, ffasiwn a ffordd o fyw, a newidiadau ym mhatrymau gwaith. Mae'r rhain i gyd yn cael dylanwad ar addysg.

Dyma gyfnod ôl-Ford yn ôl rhai, lle nad oes disgwyl i berson aros yn yr un swydd ar hyd eu bywyd. Rhaid i weithlu'r dyfodol gael eu hyfforddi mewn ysgolion i fod yn hyblyg a gyda mwy nag un sgil er mwyn eu galluogi i ffitio i mewn i'r patrwm hwn.

Mae cymdeithas hefyd wedi newid. Mae'r teulu wedi newid. Ceir nifer o deuluoedd unrhiant erbyn hyn, mae cyplau hoyw yn cael eu derbyn, ac y mae crefydd yn gorfod apelio at gymdeithas aml-ddiwylliannol. Mae gorfodi un cwricwlwm cyffredin ar bawb yn mynd i arwain at rai problemau.

Mae'r ôl-fodernwyr hefyd yn dadlau ein bod yn cael ein 'gwylio' yn barhaus yng nghymdeithas heddiw. Nid yn unig oherwydd camerau CCTV, ond hefyd oherwydd y cynnydd mewn cadw cofnod o bopeth ar bapur a gosod targedau er mwyn monitro pobl mewn ysgolion ac mewn swyddi.

Dywed Moore a Hickox (1994) ei bod yn amhosib darparu cwricwlwm addas i bawb, cenedlaethol neu alwedigaethol, oherwydd y newidiadau sydd ar gynydd drwy'r amser. Oherwydd y cynnydd hefyd mewn monitro, cadw cofnodion a gosod targedau, mae disgyblion yn dioddef oherwydd eu bod yn gorfod sefyll profion ac arholiadau yn gyson. Mae hyn yn achosi stres a phryder i rai.

Cwestiynau

1. Beth yw dadl yr ôl-Fodernwyr?
2. Sut mae cymdeithas wedi newid?
3. Beth mae Moore a Hickox yn ddweud?

Allweddeiriau

- Aml-ddiwylliannol - diwylliannau gwahanol.

Ffeministiaeth

Bwledi

- Mae'r ffeministiaid yn dadlau bod addysg yn atgyfnerthu patriarchaeth.
- Mae grwpiau gwahanol o ffeministiaid.
- Mae cwricwlwm cudd yn bodoli o safbwynt merched.

Deall diwylliant (Addysg)

- Dadleua nifer o ffeministiaid bod yr hyn a ddysgir yn yr ysgolion yn dal i greu anghydraddoldebau gender.
- Mae ffeministiaid yn edrych ar addysg fel asiant cymdeithasoli gender.

Testun

Mae'r ffeministiaid yn dadlau bod addysg yn atgyfnerthu 'patriarchaeth'. Rhaid cofio bod yna grwpiau gwahanol o ffeministiaid, ond maen nhw i gyd yn astudio rôl addysg fel asiant cymdeithasoli eilaidd. Maent yn pwysleisio patrymau anghydraddoldeb ac yn dangos sut mae patriarchaeth yn cael ei drosglwyddo'n ddiwylliannol ac yn cael ei atgynhyrchu drwy addysg.

Mae Sylvia Walby (1999) yn sôn am y 'theori system driphlyg' o batriarchaeth lle mae ethnigrwydd a dosbarth yn cymhlethu'r sefyllfa i ferched, a bod angen edrych ar batriarchaeth, cyfalafiaeth a hiliaeth gyda'i gilydd.

Mae ffeministiaid rhyddfrydol yn dadlau bod angen newidiadau mewn polisiau addysgol a pholisiau cyfle cyfartal er mwyn cael gwared ar batriarchaeth, felly mae cyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn gwneud hynny drwy sicrhau bod y ddau ryw yn astudio'r un pynciau yn yr ysgol.

Mae ffeministiaid Marcsaidd yn dadlau bod rôl merched yn y gymdeithas yn cael ei benderfynu gan anghenion yr economi. Maent yn gweld bai ar y system gyfalafol am gymdeithasoli merched i gefnogi dynion yn y cartref ac yn y gweithle. Mae addysg yn atgyfnerthu'r syniadau hyn.

Mae ffeministiaid Du yn dadlau bod bod yn ferch ac yn ddu yn wahanol i fod yn ferch ac yn wyn. Fe ellir gweld y profiadau hyn mewn ysgolion a cholegau a'r ffyrdd mae athrawon a llyfrau yn trin y myfyrwyr yn wahanol.

Mae ffeministiaid radical yn dadlau mai'r unig ffordd i weld diwedd ar batriarchaeth yw pan fydd merched yn cael eu rhyddhau o ddylanwad negyddol (a treisgar) dynion ar ferched - yn gorfforol ac emosiynol. Mae'r ystafell ddosbarth a'r cae chwarae yn cael eu gweld fel ffynonellau i drais o'r math hwn.

Mae ôl-ffeministiaid yn dadlau nad un ystyr sydd yna i'r gair 'merch', ond yn hytrch nifer. Gall merch fod yn ddu, gwyn, lesbaidd, dosbarth gweithiol, neu ddosbarth canol. Dyma'r syniad ôl-fodern nad oes yna un theori sengl na chysyniad sydd yn egluro unrhyw beth.

Mae Heaton a Lawson (1996) yn cyfeirio at y cwricwlwm cudd a drafodir gan y ffeministiaid. Mae hyn yn digwydd mewn sawl ffordd - llyfrau sydd yn portreadu merched yn ddibynnol ar ddynion - dywed Kelly (1987) bod merched yn 'anweladwy' mewn testunau gwyddonol. Mae nifer o ferched yn teimlo'n anghyfforddus wrth astudio rhai pynciau. Dywed Culley (1986) wrth astudio cyfrifiaduron bod y bechgyn yn cymryd drosodd gan adael y merched allan. Mewn nifer o achosion ni welwyd yr athrawon yn ymyrryd.

Mae Heaton a Lawson yn dadlau bod rhai athrawon dal gyda syniadau rhywiaethol ynglŷn a rhai tasgau e.e. bechgyn yn symud dodrefn a merched yn glanhau. Dadleua nifer o ffeministiaid bod yr hyn a ddysgir yn yr ysgolion yn dal i greu anghydraddoldebau gender ar waethaf y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae chwaraeon yn dueddol i ganolbwyntio mwy ar

Deall diwylliant (Addysg)

lwyddiannau bechgyn ac mae dewis pynciau lefel A mewn rhai pynciau yn dilyn patrymau gender traddodiadol. Er bod yna fwy o ferched yn athrawon yng Nghymru a Lloegr, mae yna fwy o ddynion yn y swyddi rheolaethol uwch mewn ysgolion a cholegau. Ac mae yna brinder athrawon benywaidd du. Dywed y ffeministiaid bod hyn i gyd yn rhoi y cam-syniad bod safleoedd o bŵer yn cael eu dal gan ddynion.

Mae ffeministiaid yn edrych ar addysg fel asiant cymdeithasoli i rolau gender, er bod gwahanol agweddau yn cael eu trafod gan wahanol ffeministiaid. Mae'r system addysg yn atgyfnerthu'r ideoleg mai dynion sydd mewn awdurdod, ac mae'r cwricwlwm cudd yn cyfrannu at hyn.

Yr hyn sydd raid ei gofio, wrth gwrs, yw bod merched yn gyffredinol yn gwneud yn well na bechgyn mewn sawl maes ym myd addysg.

Cwestiynau

1. Beth yw dadl y ffeministiaid?
2. Beth yw'r safbwyntiau gwahanol o ffeministiaeth?
3. Beth yw dadl yr ôl-ffeministiaid?
4. Sut mae'r cwricwlwm cudd yn dysgu rolau gender i ddisgyblion?

Allweddeiriau

- Patriarchaeth - dynion yn dominyddu.
- Cymdeithasoli eilaidd - yr hyn a ddysgir gan ysgolion, cyfoedion, crefydd, cyd-weithwyr.
- Cyfalalfiaeth - cymdeithas lle mae'r dosbarth rheolaethol yn elwa ar draul y gweithwyr.
- Cwricwlwm cudd - negeseuon sydd yn cael eu trosglwyddo i'r disgyblion heb iddynt sylweddoli.

Sut mae prosesau o fewn ysgol yn dylanwadu ar gyrhaeddiad addysgol?

Rhagymadrodd

Bwledi

- Mae yr hyn sy'n digwydd oddi mewn i sefydliadau addysgol yn cael effaith ar addysg disgybl.
- Mae prosesau fel labelu a bandio â'r cwricwlwm cudd yn ddylanwadol.
- Cred nifer o gymdeithasegwyr fod y cwricwlwm anffurfiol neu cudd yr un mor bwysig a'r cwricwlwm ffurfiol.
- Mae'r athrawon yn gorfodi rheolaeth gymdeithasol.

Testun

Am gyfnod hir, mae ystyriaethau o rôl ac effeithiolrwydd addysg wedi bod yn ymwneud ag i ba raddau y mae yn atgynhyrchu diwyllianau ac anghydraddoldebau yn y gymdeithas ehangach.

Yr allwedd yma oedd y berthynas rhwng y cartref a'r ysgol ac yr oedd yr hyn a oedd yn

Deall diwylliant (Addysg)

effeithio ar berfformiad yn yr ysgol i'w gweld y tu allan i'r ysgol.

Mae safbwyntiau diweddarach yn dadlau bod yr hyn sy'n digwydd oddi fewn i sefydliadau addysgol yn cael effaith ar addysg. Arweiniodd hyn i roi pwyslais ar brosesau fel labelu a bandio a'r cwricwlwm cudd.

Mae'n amlwg bod yna nifer o bethau yn digwydd tu mewn i ysgolion. Un agwedd yw'r cwricwlwm ffurfiol sydd yn cael ei gyflwyno i'r disgyblion, fel y pynciau craidd, Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth, yn ogystal a phynciau gorfodol eraill. Dyma'r Cwricwlwm Cenedlaethol a geir yng Nghymru a Lloegr.

Cred nifer o gymdeithasegwyr bod y cwricwlwm anffurfiol yr un mor bwysig os nad yn bwysicach. Cyfeirir at hwn fel y cwricwlwm cudd e.e. hierarchiaeth ysgol sydd yn dysgu disgyblion bod gan pawb eu safle - athrawon gyda phŵer dros y disgyblion, trefn a strwythur pendant i'r diwrnod gyda phwyslais ar brydlondeb, gwisg ysgol, ac wrth gwrs y rheolau ynglŷn ag ymddygiad a pharch o fewn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r rhain i gyd yn cyfrannu at rai disgyblion yn gwneud yn dda ac yn llwyddo, ac eraill ddim.

Mae'r Marcsywyr yn defnyddio'r cysyniad o gwricwlwm cudd i bwysleisio'r ffordd mae ysgolion yn paratoi disgyblion y dosbarth gweithiol at fyd gwaith - drwy ymgyswngtu a hierarchiaeth a thrwy brydlondeb. Mae'r term 'cwricwlwm cudd' yn cael ei ddefnyddio gan ffeministiaid hefyd sydd yn tynnu sylw at y ffyrdd mae ysgolion yn trosglwyddo negeseuon am rhyw a rolau gender i'r disgyblion.

Mae athrawon hefyd yn gorfodi rheolaeth gymdeithasol. Mae athrawon yn gweinyddu rheolau ac mae'r disgyblion yn gorfod gwrando ar yr athrawon neu fe fyddent yn cael eu cosbi. Maent yn gorfod cadw at reolau hyd yn oed os nad ydynt yn cytuno â hwy ac nid oes ganddynt ddewis ynglŷn a mynychu ysgol neu beidio.

Cwestiynau

1. Beth yw cwricwlwm cudd?
2. Beth yw hierarchiaeth?
3. Sut mae athrawon yn asiantaethau rheolaeth gymdeithasol?

Allweddairiau

- Cwricwlwm cudd - negeseuon sydd yn cael eu trosglwyddo i'r disgyblion heb iddynt sylweddoli.
- Hierarchiaeth - trefn arbennig, lle mae'r rheolwyr ar y brig a phawb yn gwybod eu lle.
- Rheolaeth gymdeithasol - y ffordd y mae rheolau cymdeithasol y diwylliannau y mae pobl yn byw ynddynt yn effeithio ar eu hymddygiad.

Diwylliant gwrth-ysgol

Bwledi

- O safbwynt addysg, mae safbwyntiau rhyngweithredol yn aml yn canolbwyntio ar ryngweithiad yn y dosbarth.
- Nid yw rolau cymdeithasol o fewn ysgol yn sefydlog na digyfnewid.

Deall diwylliant (Addysg)

- Mae disgwyliadau athrawon, sydd yn seiliedig ar labelu, yn gallu arwain at broffwydoliaeth hunan-gyflawni.
- Yn ôl rhai cymdeithasegwyr, mae'r ffordd y mae athrawon yn labelu disgyblion yn gallu cael dylanwad ar eu cyrhaeddiad.

Testun

Mae safbwyntiau rhyngweithredol fel arfer yn canolbwyntio ar ryngweithiad ar raddfa bach. Maent yn cymryd yn ganiataol bod pobl yn dehongli'r byd yn nhermau ystyron sydd yn cael eu creu mewn sefyllfaoedd rhyngweithiol.

Maent yn aml yn feirniadol o safbwyntiau strwythuredig fel Marcsiaeth a ffwythiannaeth sydd yn gweld ymddygiad yn cael ei ffurfio gan y system gymdeithasol.

O safbwynt addysg, mae safbwyntiau rhyngweithredol yn aml yn canolbwyntio ar ryngweithiad yn y dosbarth, ar yr ystyron sydd yn arwain y rhyngweithiad hynny, a'r perthnasau sydd yn datblygu ohono.

Yr hyn a gafodd y prif sylw yma oedd i ba raddau oedd rhyngweithio o fewn yr ystafell ddosbarth yn gallu cael effaith ar gynnydd, neu ddiffyg cynnydd, y disgyblion.

Nid yw rolau cymdeithasol o fewn ysgol yn sefydlog na digyfnawid. Mae athrawon yn anghytuno ynglŷn â'r hyn sy'n gwneud athro/athrawes delfrydol a disgybl delfrydol. Mae disgyblion yn datblygu patrymau newydd o ymddygiad. Fe ffurfir is-ddiwylliannau wrth i ddisgyblion ddatblygu ffyrdd o ymdopi gyda bywyd ysgol.

Mae un agwedd o'r safbwynt rhyngweithiol o addysg yn ymwneud â'r ffordd mae athrawon yn ymateb i ymddygiad disgybl.

Mae gwaith Howard Becker yn ddylanwadol iawn wrth archwilio labelu a phroffwydoliaeth hunan-gyflawni o fewn addysg, y ffordd mae disgyblion ac athrawon yn rhyngweithio â'i gilydd. Roedd ei waith yn dangos sut oedd athrawon yn rhoi labelau ar eu disgyblion e.e. 'gwrthryfelgar'. Roedd o yn dadlau bod athrawon bob tro yn atgyfnerthu eu barn negyddol cyntaf wrth ryngweithio gyda disgyblion, a hynny felly yn arwain i ddisgybl gadw y label hwnnw.

Darganfu Hargreaves (1967) wrth wyllo'r hyn a ddigwyddai mewn ysgolion uwchradd, bod athrawon yn dod i farn cychwynnol am ddisgyblion drwy sylwi ar eu ymddygiad, gallu a photensial. Roedd hyn yn golygu dosbarthu'r disgyblion i gategorïau arbennig. Dros gyfnod o amser, tyfodd rhain i fod yn labelau. Fe ddefnyddiwyd y wybodaeth hyn wedyn i egluro ymddygiad a chyrhaeddiad. Fe allai hyn weithio'n bositif neu yn negyddol, yn dibynnu ar y label.

Gwnaeth Cicourel a Kitsuse (1971) astudiaeth mewn ysgol yn America a darganfod bod dosbarth cymdeithasol y disgybl yn ddylanwad pwysig wrth ei werthuso. Hyd yn oed os oedd gallu tebyg gan blant o gefndir dosbarth gweithiol a chefnidir dosbarth canol, rhoddwyd y rhai o ddosbarth canol ar gysiau uwch.

Mae disgwyliadau athrawon, sydd yn seiliedig ar labelu, yn gallu arwain at broffwydoliaeth hunan-gyflawni. Dyma pryd mae disgybl yn derbyn ei label a hynny wedyn yn dylanwadu ar ei ymddygiad. Unwaith eto, mae hyn yn gallu bod yn bositif ac yn negyddol.

Deall diwylliant (Addysg)

Mae astudiaeth Rosenthal a Jacobson (1964) yn dangos bod y ffordd mae athrawon yn labelu disgyblion yn gallu cael dylanwad pendant ar eu cyrhaeddiad. Fe ddywedon nhw wrth yr athrawon mewn ysgol yn California eu bod nhw wedi dewis un grŵp o blant oedd yn debygol o wneud yn dda, a hynny'n gyflym. Nid oedd hynny'n wir - cafodd y plant eu dewis ar hap. Flwyddyn yn ddiweddarach roedd rhai aelodau o'r grŵp yma wedi gwneud yn arbennig o dda ac wedi dangos cynnydd mawr.

Casgliad Rosenthal a Jacobson felly oedd eu bod wedi gwneud yn dda oherwydd y ffordd roeddent wedi cael eu labelu. Roedd athrawon yn disgwyl llawer oddi wrthyn nhw ac yn ymddwyn tuag atynt mewn ffordd arbennig. - proffwydoliaeth sydd yn dod yn wir.

Mae'r astudiaeth hwn wedi bod yn ddylanwadol iawn, ond serch hynny, mae llawer wedi ei feirniadu - am ei fethodoleg ac am resymau moesegol

Mae David Hargreaves (1975) yn awgrymu bod llwyddiant y label yn dibynnu ar ffactorau eraill fel pa mor aml mae'r label yn cael ei ddefnyddio, a ydy'r disgybl yn derbyn ac yn parchu barn yr athro, a oes yna athrawon eraill yn cefnogi'r label, ac a ydy'r label yn digwydd yn gyhoeddus neu yn breifat.

Mae'r theorïau labelu a phroffwydoliaeth hunan-gyflawni yn awgrymu bod y ffyrdd mae athrawon yn ymateb i ddisgyblion unigol yn gallu effeithio ar eu gyrfaedd addysgol. Mae hefyd yn bosibl, bod grwpiau cyfan o ddisgyblion, nid unigolion yn unig, yn gallu cael eu trin mewn ffyrdd gwahanol.

O safbwynt rhyngweithredaeth, mae disgyblion yn cael profiadau gwahanol o ysgol. Maent yn cael eu trin yn wahanol gan athrawon, yn cael labeli gwahanol, ac yn cael eu gosod yn aml mewn bandiau a setiau gwahanol.

Serch hynny, nid yw pob disgybl yn gallu neu yn fodlon cydymffurfio i'r delweddau o ddisgybl delfrydol a ddisgwylir gan yr athrawon. Os ydynt yn methu gwneud hyn, efallai bydd y disgyblion yn ffurfio eu is-ddiwylliannau eu hunain a fydd yn gwrthod rhai o werthoedd yr ysgol.

Cwestiynau

1. Eglurwch y safbwyntiau rhyngweithredol.
2. Sut mae athrawon yn labelu disgyblion?
3. Beth yw proffwydoliaeth hunan-gyflawni?
4. Pa astudiaethau sydd yn dangos hyn?
5. Beth yw effeithiau negyddol a phositif labelu?

Allweddeiriau

- Is-ddiwylliant - grŵp bach o bobl gyda normau a gwerthoedd gwahanol i brif ffrwd cymdeithas.
- Labelu - rhoi label ar rhywun a nhw wedyn yn credu'r label hwnnw.
- Proffwydoliaeth hunan-gyflawni - yng nghyd-destun addysg, rhagfynegir rhywbeth ac yna, oherwydd iddo gael ei ragfynegi, mae'n dod yn wir neu mae'n cael ei orfodi i ddod yn wir.

Grwpio Disgyblion

Deall diwylliant (Addysg)

Bwledi

- Mae yna wahanol ffyrdd o grwpio disgyblion mewn dosbarth.
- Dywed rhai nad yw'r ffordd o grwpio disgyblion yn cael dylanwad ar eu cyrhaeddiad.

Testun

Mae'r ffordd mae ysgolion yn grwpio disgyblion ar gyfer eu dysgu yn gallu cael effaith ar ba mor dda maen nhw'n gwneud. Mae yna sawl ffordd o grwpio - gallu-cymysg, ffrydio, bandio, setio.

Mewn grwpiau gallu cymysg mae'r disgyblion yn cael eu hannog i gydweithio ac mae hyn yn lleihau gwahaniaethau dosbarth a gwrthdaro. Ond fe ddywed rhai ei bod yn haws dysgu plant ar gyfer arholiadau os ydynt wedi cael eu setio yn gyntaf, ac felly fe ellir anelu'r gwaith at lefel disgyblion penodol.

Mae yna nifer o astudiaethau wedi eu cynnal i ymchwilio i hyn.

Dywed Sukhnandan a Lee (1998), o gymharu setio a ffrydio gyda grwpiau gallu-cymysg, nad oedd yna effaith bositif na negyddol ar gyrhaeddiad plentyn yn yr ysgol gynradd na'r ysgol uwchradd.

Dywed Ireson a Hallam (2001) mai ychydig o ddylanwad sydd gan grwpio disgyblion ar eu cyflawniad cyffredinol.

Cwestiynau

1. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng gallu cymysg, ffrydio a setio?
2. Beth yw barn y cymdeithasegwyr am hyn?
3. A ddylid dysgu disgyblion o gefndir a gallu tebyg yn yr un grwpiau

Allweddeiriau

- Gallu cymysg - dosbarth cymysg gyda disgyblion galluog a llai galluog gyda'i gilydd.
- Ffrydio - disgyblion yn cael eu gosod mewn grŵp yn ol eu gallu, ac yn cael eu dysgu yn y grŵp hwnnw ar gyfer pob pwnc.
- Setio - gosod disgyblion mewn grwp, yn ol eu gallu yn y pwnc arbennig hwnnw.

Is ddiwylliannau

Bwledi

- Cysylltodd David Hargreaves fodolaeth is-ddiwylliannau yn yr ysgol i'r drefn o labelu a setio a ddigwyddai yn yr ysgol.
- Mae astudiaeth Paul Willis yn cefnogi'r dystiolaeth yma.
- Mae ymddygiad merched yn llai o broblem.
- Gwelodd Mac an Ghaill grwp o ferched 'Y Black Sisters' yn llwyddo er eu bod yn gwrthwynebu'r drefn addysgol.

Testun

Deall diwylliant (Addysg)

Yn ei astudiaeth cynnar, cysylltodd David Hargreaves (1967) fodolaeth is-ddiwylliannau yn yr ysgol i'r drefn o labelu a setio a ddigwyddai yn yr ysgol.

Roedd y disgyblion a labelwyd fel y rhai problemus yn cael ei gosod yn y setiau isaf, a'r rhai oedd yn ymddwyn yn dderbyniol yn cael eu gosod yn y setiau uchaf. Roedd y rhai gyda'r labelau negyddol yn dechrau ystyried eu hunain yn fethiannau. Tueddent i grwpio gyda'i gilydd yn gymdeithasol yn ogystal a tharfu ar wersi, gwrthod gwneud gwaith cartref, a bod yn ddi-gywilydd gyda athrawon yn yr ysgol. Dyma enghraifft cynnar o is-ddiwylliannau yn datblygu yn yr ysgol.

Mae astudiaeth enwog Paul Willis (1977) 'Learning to Labour' yn cefnogi'r dystiolaeth yma. Mae Sewell (1997) hefyd yn darganfod gwerthoedd gwrth-ysgol ymhlith y bechgyn yn ei astudiaeth. Roedd y bechgyn African-Carribeaidd yn gwrthdaro yn barhaus yn yr ysgol drwy ysmygu canabis ac ymddwyn yn dreisgar tuag at ddisgyblion eraill ac athrawon. Roedd Sewell yn gweld hyn yn rhannol fel ymateb i'r hiliaeth yn yr ysgol a'r hiliaeth ymhlith yr athrawon.

Roedd y bechgyn yn cael statws unigryw ymhlith eu cyfoedion. Roeddent yn fethiannau yn yr ysgol, ond yn llwyddiannau ymhlith eu ffrindiau.

Roedd astudiaeth Hey (1997) yn edrych ar ymateb merched a oedd yn cael eu gosod mewn setiau isel ac yn cael eu labelu fel methiannau yn yr ysgol. Gwelodd hi bod ymddygiad y merched yn llai o broblem nag ymddygiad bechgyn, er bod rhai ohonynt yn triwantio. Roeddent yn dueddol o gefnogi ei gilydd a chreu rhwydwaith o ffrindiau o'r un cefndir a hwy, sef dosbarth gweithiol. Roeddent yn ymateb i'w sefyllfa yn yr ysgol drwy'r ffordd roeddent yn trin y bechgyn eraill a'r athrawon gwrywaidd. Nid oedd yma gymaint o wrthdaro ag a oedd gyda'r bechgyn.

Gwnaeth Mac an Ghaill (1988) astudiaeth o ferched ifanc o gefndiroedd African-Caribbeaidd ac Asiaidd mewn coleg chweched dosbarth canol-dinas, y 'Black Sisters'. Roeddent yn feirniadol iawn o'r coleg, yr ysgolion oedd wedi eu setio ac wedi gwahaniaethu yn eu herbyn, a sut oedd eu gallu heb gael ei ystyried na'i annog. Ond fe benderfynon nhw mai ennill cymwysterau oedd y peth gorau iddynt wneud, ac fe lwyddon nhw drwy fod yn benderfynol, a thrwy gefnogi ei gilydd.

Mae rhyngweithredaeth symbolaidd yn cael ei gyhuddo o fod yn rhy gul ac yn methu ystyried ffactorau allanol sy'n effeithio ar ysgolion.

Mae polisiâu'r wladwriaeth ac amodau eraill yn chwarae rhan gyflawn mewn cyrhaeddiad addysgol - dylai'r rhyngweithredwyr ystyried hyn wrth wneud astudiaeth gymdeithasegol ac felly osgoli sylfaenu unrhyw ddehongliad ar ddiffiniadau ac ystyron yn unig.

Nid yw ystyron yn cael eu creu yn yr ystafell ddosbarth yn unig. Mae ganddynt sylfaen ehangach.

Mae llawer o ryngweithredwyr yn cyfeirio at fodolaeth gwahaniaethau dosbarth o fewn addysg, ond maent yn methu egluro sut mae'r gwahaniaethau hynny wedi cychwyn.

Fe geir nifer o esboniadau eraill am ymddygiad grwpiau o ddisgyblion - ffactorau tu allan i'r ysgol fel amddifadedd cymharol ac ymylu, newid yn yr economi ac ym myd gwaith, a rhywiaeth a hiliaeth yn yr ysgolion.

Deall diwylliant (Addysg)

Cwestiynau

1. Beth oedd darganfyddiadau David Hargreaves?
2. Pa astudiaethau eraill sydd yn cefnogi'r ddamcaniaeth hon?
3. Beth oedd y darganfyddiadau ymhlith disgyblion benywaidd?

Allweddeiriau

- Is-ddiwylliant - grwp bach o bobl gyda normau a gwerthoedd gwahanol i brif ffrwd cymdeithas.
- Amddifadedd cymharol - bod heb bethau sydd gan bobl eraill.
- Ymylu - ar yr ymylon.

I ba raddau mae ffactorau diwylliannol yn esbonio lefelau gyrhaeddiad gwahanol o fewn grwpiau cymdeithasol?

Rhagymadrodd

Bwledi

- Dylai addysg fod yn seiliedig ar gyfartaledd cyfle.
- Dylai pawb gael cyfle cyfartal i ddatblygu eu talentau a'u galluoedd yn llawn.
- Serch hynny, mae dosbarth, ethnigrwydd a gender yn gwneud gwahaniaeth mawr i gyrhaeddiad addysgol.
- Mae ymchwil yn dangos bod lefelau o gyrhaeddiad addysgol yn debygol o fod yn uwch yn y dosbarthiadau cymdeithasol uchaf.

Testun

Yng nghymdeithasau diwydiannol y gorllewin mae yna gytundeb cyffredinol y dylai addysg fod yn seiliedig ar gyfartaledd cyfle. Dylai pawb gael cyfle cyfartal i ddatblygu eu talentau a'u galluoedd yn llawn, heb fod yn ddibynol ar ddosbarth, ethnigrwydd, gender nag unrhyw nodweddion cymdeithasol.

Serch hynny, mae tystiolaeth yn dangos yn glir, o safbwynt cymhwysterau addysgol, mae pobl gyda rhai nodweddion cymdeithasol arbennig yn dueddol o wneud yn well nag eraill.

Mae dosbarth, ethnigrwydd a gender yn gwneud gwahaniaeth mawr i gyrhaeddiad addysgol.

1. Dosbarth yw'r dylanwad pwysicaf. Mae ei effaith ar gyrhaeddiad addysgol bron dair gwaith yn fwy nag ethnigrwydd
2. Ethnigrwydd sydd yn dod wedyn. Mae ei effaith ddwy waith yn fwy na gender.
3. Gender. Er iddo gael dipyn o sylw yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gender yw'r lleiaf pwysig. Mae gan ddosbarth dros bump gwaith yr effaith ar gyrhaeddiad addysgol. (Gillborn & Mirza 2000)

Deall diwylliant (Addysg)

Mae ymchwil yn dangos bod lefelau o gyrhaeddiad addysgol yn debygol o fod yn uwch yn y dosbarthiadau cymdeithasol uchaf. Mae plant rhieni o'r dosbarthiadau cymdeithasol uchaf yn fwy tebygol o aros ymlaen yn yr ysgol 16+, yn fwy tebygol o basio arholiadau pan yn yr ysgol, ac yn fwy tebygol o gael mynediad i brifysgol.

Mewn astudiaeth o 8,529 o fechgyn a anwyd rhwng 1913 a 1952 ac a gafodd eu haddysg yn Lloegr a Chymru, darganfu AH Halsey, AF Heath a JM Ridge bod gwahaniaethau dosbarth pendant.

Fe rannwyd eu sampl i dri grŵp yn dibynnu ar waith y tad:

1. Y dosbarth gwasanaeth a weithiai fel pobl broffesiynol, gweinyddwyr a rheolwyr.
2. Y dosbarth canolradd, sef gweithwyr clerigol, gwerthwyr, hunan-gyflogedig, a thechnegwyr.
3. Y dosbarth gweithiol, a gynhwysai gweithwyr llaw mewn diwydiant ac amaethyddiaeth.

Darganfu Halsey et al. o gymharu bachgen o'r dosbarth gwasanaeth â bachgen o'r dosbarth gweithiol, bod ganddo 4 gwaith mwy o siawns o fod yn yr ysgol yn 16oed, 8 gwaith mwy o siawns yn 17 oed, a 10 gwaith mwy o siawns yn 18 oed. Yn ogystal, roedd ganddynt 11 gwaith mwy o siawns o fynd i'r brifysgol.

Ymchwiliodd Jefferis et al i 11,000 o blant a anwyd yn 1958. Darganfu Jefferis et al. (2002) bod y disgyblion hynny oedd wedi dioddef tlodi yn eu plentynod wedi syrthio y tu ôl i ddisgyblion o gefndir dosbarth canol yn mathemateg a darllen erbyn iddynt gyrraedd 7 oed.

Mae yna sawl rheswm wedi cael eu cynnig i geisio esbonio 'methiant' addysgol y dosbarth gweithiol.

Cwestiynau

1. Beth yw'r dystiolaeth ynglyn a chyrhaeddiad addysgol?
2. Beth oedd darganfyddiadau Halsey et al.?

Allweddeiriau

- Cyfartaledd cyfle - bod pawb yn ein cymdeithas ni yn cael yr un cyfle.
- Cyrhaeddiad addysgol - llwyddiant academiaidd.

Anfantais Diwylliannol

Bwledi

- Dadleuodd Hyman bod system werthoedd y dosbarthiadau is yn creu rhwystr iddynt wella.
- Nid yw'r gwerthoedd hyn yn nodweddiadol o holl aelodau'r dosbarth gweithiol.
- Mae Sugarman yn honni bod llawer o alwedigaethau dosbarth canol yn darparu cyfle am ddyrchafiad incwm a statws.

Testun

Deall diwylliant (Addysg)

Dadleuodd Herbert H Hyman bod system werthoedd y dosbarthiadau is yn creu rhwystyr iddynt wella.

Gan ddefnyddio llawer o ddata o bolau piniwn ac arolygon a wnaethpwyd gan gymdeithasegwyr, amlinellodd Hyman y gwahaniaethau canlynol rhwng system werthoedd y dosbarth gweithiol a'r dosbarth canol. (Yn y 1960au)

Mae aelodau o'r dosbarth gweithiol yn rhoi gwerth llai ar addysg. Maent yn rhoi llai o bwyslais ar addysg ffurfiol fel ffordd at gyflawniad personol, ac yn gweld llai o werth parhau yn yr ysgol ar ôl oedran gadael ysgol.

Mae aelodau o'r dosbarth gweithiol yn rhoi gwerth is ar gyrraedd statws galwedigaethol uwch, wrth werthuso swyddi maent yn pwysleisio sefydlogrwydd ac yn tueddu i wrthod y risgiau a geir gyda galwedigaethau statws uwch.

O'u cymharu â'u cyfoedion dosbarth canol, mae aelodau o'r dosbarth gweithiol yn credu bod yma llai o gyfle i ddyrchafiad personol. Mae'r gred hon mae'n debyg yn sylfaen i'r gwerth isel a roddir ar addysg a statws galwedigaethol uchel. Dadleua Hyman er ei fod wedi ei seilio ar asesiad realistig o'r sefyllfa - mae gan y dosbarth gweithiol llai o gyfle - mae'r gred ei hun yn lleihau'r cyfle ymhellach.

Nid oedd y gwerthoedd a amlinellwyd gan Hyman yn nodweddiadol o holl aelodau'r dosbarth gweithiol - roedd yna leiafrif eithaf mawr nad oedd yn eu rhannu.

Roedd y lleiafrif hwn yn cynnwys llawer o weithwyr llaw gyda rhieni coler-wen. Roedd y gweithwyr hyn yn uniaethu mwy gyda'r dosbarth canol, ac o'r herwydd roedd ganddynt ddyheadau uwch.

Felly, yn ôl Hyman mae'r cymhelliant i lwyddo, yn yr ysgol neu du allan, yn gyffredinol yn is i aelodau o'r dosbarth gweithiol.

Yn 1970 cysylltodd Barry Sugarman rhai agweddau o is-ddiwylliannau dosbarth canol a gweithiol yn fwy uniongyrchol i gyrhaeddiad addysgol gwahaniaethol. Dangosodd eglurhad am y gwahaniaethau agwedd a rhagolygon rhwng y ddau ddosbarth, drwy ddadlau bod natur galwedigaethau llaw ('manual') a di-law ('non-manual') yn cyfrif am y gwahaniaethau hyn.

Mae Sugarman yn honni bod llawer o alwedigaethau dosbarth-canol yn darparu cyfle i ddyrchafiad incwm a statws. Mae hyn yn annog cynllunio ar gyfer y dyfodol e.e. buddsoddi amser, egni ac arian mewn hyfforddiant, i gyfarfod a gofynion swyddi statws uwch. Mae llawer o swyddi coler-wen hefyd yn darparu incwm digonol ar gyfer buddsoddiad ariannol yn y dyfodol e.e. morgeisi a pholisïau yswiriant. O'u cymharu, mae swyddi dosbarth-gweithiol yn cyrraedd uchafbwynt incwm yn weddol gyflym, ond yn darparu llai o gyfleoedd dyrchafiad. Yn ychwanegol at hyn, mae llai o sicrwydd swydd yn perthyn iddynt. Mae gweithwyr llaw yn fwy tebygol o golli eu swyddi na gweithwyr coler-wen.

Dadleua Sugarman bod gwahaniaethau yn natur y swyddi yn dueddol o gynhyrchu gwahaniaethau agwedd a rhagolygon. Gan fod ganddynt llai o reolaeth dros y dyfodol, llai o gyfle i wella eu statws, a llai o incwm i fuddsoddi, mae gweithwyr llaw yn tueddu i fod yn poeni am foddhad uniongyrchol, yn y presennol.

Deall diwylliant (Addysg)

Dywed hefyd bod yr agweddau a'r tueddiadau hyn yn rhan sefydlog o is ddiwylliant y dosbarth gweithiol. Bydd disgyblion dosbarth-gweithiol felly yn cael eu cymdeithasoli ynddynt. Gallai hyn fod yn rhannol gyfrifol am lefel isel o gyrhaeddiad addysgol.

Cwestiynau

1. Beth oedd dadl Hyman?
2. Beth oedd dadl Sugarman?
3. Ydy diwylliant y dosbarth gweithiol a'r dosbarth canol yn wahanol?

Allweddeiriau

- Is-ddiwylliant - grŵp bach o bobl gyda normau a gwerthoedd gwahanol i brif ffrwd cymdeithas
- Galwedigaethau llaw - swyddi sydd yn defnyddio dwylo.
- Galwedigaethau di-law - swyddi sydd ddim yn defnyddio dwylo.

Theori Amddifadedd Diwylliannol

Bwledi

- Mae'r rhai sydd ar waelod y system ddosbarth yn cael eu hamddifadu o rai gwerthoedd, agweddau a sgiliau arbennig, sydd yn hanfodol ar gyfer llwyddiant addysgol.
- Mae'r theori hwn yn rhoi y bai am fethiant addysgol ar y plant a'u teuluoedd.
- Mae'r plentyn sydd wedi ei amddifadu yn ddiwylliannol yn ddiffygiol mewn sgiliau, agweddau a gwerthoedd angenrheidiol.
- Mae yna nifer o ymchwilwyr wedi honni bod yna wahaniaethau dosbarth mewn patrymau iaith.

Testun

Mae nifer o'r safbwyntiau a sonnir amdanynt uchod wedi cael eu defnyddio i roi cefnogaeth i'r hyn a elwir yn theori amddifadedd diwylliannol.

Dywed y theori hwn fod y rhai sydd ar waelod y system ddosbarth yn cael eu hamddifadu o rai gwerthoedd, agweddau a sgiliau arbennig, sydd yn hanfodol ar gyfer llwyddiant addysgol.

Mae'r theori hwn yn rhoi y bai am fethiant addysgol ar y plant a'u teuluoedd, eu cymdogaeth ac is-ddiwylliant eu grŵp cymdeithasol. Mae'r plentyn sydd wedi ei amddifadu yn ddiwylliannol yn ddiffygiol mewn sgiliau, agweddau a gwerthoedd pwysig sydd yn hanfodol i lwyddiant addysgol uchel. Mae ei amgylchfyd yn dlawd yn ddiwylliannol yn ogystal ag yn economaidd.

Mae amddifadedd diwylliannol yn rhoi y bai am fethiannau'r plentyn ar ei gefndir o neu hi. Mae hyn yn tynnu'r sylw oddi wrth fethiannau'r system addysgol a allai gyfrannu at, neu gyfrif am, wahaniaethau dosbarth mewn cyrhaeddiad.

Mae nifer o ymchwilwyr wedi honni bod yna wahaniaethau dosbarth mewn patrymau iaith ac y gallai rhain fod yn rhannol gyfrifol am wahaniaethau dosbarth mewn cyrhaeddiad addysgol.

Deall diwylliant (Addysg)

Dywed Basil Bernstein (1990) bod yna ddau batrwm iaith - y côd cyfyngedig a'r côd estynedig. Mae'r côd cyfyngedig i'w gael yn iaith lafar bob dydd rhwng pobl sydd yn adnabod ei gilydd yn dda. Defnyddir frawddegau byr, syml, ac yn aml gadewir y manylion a'r esboniadau allan. Mae'r côd estynedig yn esbonio pethau'n fanwl, gan ddefnyddio brawddegau hir a chymhleth. Yn ôl Bernstein mae'r ddwy iaith yn gyfarwydd i'r dosbarth canol, ond y côd cyfyngedig yn unig sydd yn cael ei ddefnyddio gan y dosbarth gweithiol. Mae'r athrawon yn yr ysgolion yn defnyddio'r côd estynedig ac felly mae plant dosbarth gweithiol o dan anfantais o'r cychwyn cyntaf.

Cwestiynau

1. Eglurwch beth yw'r theori amddifadiad diwylliannol.
2. Beth oedd barn Basil Bernstein?
3. Oes gwahaniaeth yn y fordd mae pobl dosbarth canol a gweithiol yn defnyddio iaith?

Allweddairiau

- Amddifadedd diwylliannol - nid oes mynediad at sgiliau a gwerthoedd sy'n gymorth i lwyddo gan rai pobl.
- Côd cyfyngedig - iaith lafar bob dydd rhwng pobl sydd yn adnabod ei gilydd yn dda.
- Côd estynedig - iaith gyfoethog, sydd yn ddefnyddio brawddegau hir a chymhleth.

Y Dosbarth Canol

Bwledi

- Dywed Douglas bod rhieni dosbarth canol yn dangos mwy o ddiddordeb yn addysg eu plant.
- Mae yna bwyslais ar gyrhaeddiad uchel.
- Dywed rhai ei bod yn haws i rieni dosbarth canol gadw mewn cysylltiad a chynnydd addysgol eu plant.
- Nid yw rhieni dosbarth gweithiol yn teimlo'n gyfforddus mewn sefydliad dosbarth canol fel ysgol.

Testun

Yn 'The Home and the School' (1964) mae J.W.B.Douglas yn astudio gyrfa addysgol 5,362 o blant Prydeinig a anwyd yn wythnos gyntaf fis Mawrth, 1946 drwy'r ysgol gynradd hyd at 11 oed. Mewn ail gyhoeddiad, 'All Our Future' dilynodd gynnydd 4,720 aelod o'i sampl wreiddiol drwy'r ysgol uwchradd hyd at 16 oed yn 1962.

Rhannodd Douglas y myfyrwyr i grwpiau o safbwynt eu gallu, a oedd yn cael ei fesur drwy gyfrwng profion gan gynnwys profion IQ. Hefyd fe rannodd y myfyrwyr i 4 grŵp dosbarth cymdeithasol a darganfod amrywiaethau pwysig mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng myfyrwyr o allu tebyg ond o ddosbarthiadau cymdeithasol gwahanol.

Drwy gymharu cyrhaeddiad myfyrwyr 'gallu uchel', darganfu Douglas bod 77% o ddosbarth canol uwch, 60% o ddosbarth canol is, 53% o ddosbarth gweithiol uwch a 37% o ddosbarth gweithiol is wedi cael tystysgrifau da yn yr arholiadau Safon 'O'. Drwy gymharu myfyrwyr o allu is, darganfu bod mwy o wahaniaethau cyrhaeddiad yn perthyn i'r

Deall diwylliant (Addysg)

dosbarth cymdeithasol.

Darganfu Douglas hefyd bod arhosiad yn y system addysg yn perthyn i ddosbarth cymdeithasol. O fewn y grŵp 'gallu uchel', roedd 50% o'r myfyrwyr o ddosbarth gweithiol is wedi gadael yr ysgol uwchradd yn u pumed flwyddyn, o'u cymharu a 33% o ddosbarth gweithiol uwch, 22% o ddosbarth canol is a 10% o ddosbarth canol uwch. Eto roedd y gwahaniaethau dosbarth cymdeithasol yn fwy i fyfyrwyr gallu is.

'Roedd Douglas yn perthnasu cyrhaeddiad addysgol i lawer o ffactorau gan gynnwys iechyd y myfyrwyr, maint teulu, ac ansawdd yr ysgol. Y ffactor pwysicaf mae'n debyg oedd diddordeb y rhieni yn addysg eu plant.

Yn gyffredinol, roedd rhieni dosbarth canol yn dangos mwy o ddiddordeb, drwy ymweld â'r ysgol yn amlach i drafod cynnydd eu plant.

Roeddynt yn fwy tebygol o fod eisiau eu plant i aros yn yr ysgol yn hirach na'r oed gadael swyddogol (16 oed), ac yn eu hannog nhw i wneud hynny. Darganfu Douglas bod diddordeb a chefnogaeth rhieni yn mynd yn bwysicach fel sbardun i gyrhaeddiad uwch fel oedd y plant yn mynd yn hŷn.

Roedd Douglas hefyd yn dangos pwysigrwydd blynyddoedd cynnar y plentyn, oherwydd yn aml, mae perfformiad yn ystod blynyddoedd cyntaf ysgol yn cael ei adlewyrchu drwy gydol yr ysgol uwchradd. Fe awgrymodd ef, yn ystod cymdeithasoli cynradd, bod plant dosbarth canol yn derbyn mwy o sylw a symbyliad oddi wrth eu rhieni. Mae hyn yn ffurfio sylfaen ar gyfer cyrhaeddiad uchel yn y system addysgol.

Ar wahân i'r sylw hyn, nid yw Douglas yn astudio cymdeithasoli cyn-ysgol mewn manylder. Mae yna llawer o ymchwil, yn bennaf gan seicolegwyr, yn archwilio perthynas magu plant, dosbarth cymdeithasol a chyrhaeddiad addysgol.

Mae patrymau ymddygiad a osodir yn ystod plentynod yn cael effeithiau pwysig a thymor hir. Yn arbennig, mae personoliaeth y plentyn yn cael ei fowldio yn ystod blynyddoedd cymdeithasoli cynradd.

Mae yna amrywiaethau dosbarth cymdeithasol ym mhatrymau magu plant.

Mae gan yr amrywiaethau hyn effaith arwyddocaol ar lefelau cyrhaeddiad yn y system addysgol.

O'u cymharu â phatrymau dosbarth gweithiol o fagu plant, dyma nodweddion y dosbarth canol: Mae yna bwyslais ar gyrhaeddiad uchel.

Mae rhieni yn disgwyl ac yn mynnu mwy gan eu plant.

Maent yn annog eu plant i wella eu perfformiad drwy'r amser, mewn sawl maes, o gemau plant i siarad ac ymddygiad wrth y bwrdd bwyd.

Wrth wobrwyo llwyddiant mae rhieni yn argymhell cymhelliant i gyrraedd yn uchel yn eu plant. Wrth roi i'w plant sylw unigol a gosod safonau uwch iddynt gyrraedd, mae rhieni yn darparu amgylchedd sy'n symbylu ac yn meithrin datblygiad deallus. Yn y ffordd hyn mae patrymau magu y darbarth canol yn gosod y sylfaen ar gyfer cyrhaeddiad uchel yn y system addysgol.

Deall diwylliant (Addysg)

Mae'r safbwyntiau uchod wedi eu beirniadu'n gryf. Awgryma rhai nad yw'r ffaith bod rhieni dosbarth gweithiol yn mynd i'r ysgol yn llai aml na rhieni dosbarth canol, yn golygu bod ganddynt lai o ddiddordeb yn addysg eu plant.

Dyma'r pwyntiau a wneir gan Tessa Blackstone a Jo Mortimore:

Efallai nad oes gan rhieni dosbarth gweithiol gymaint o amser i fynychu'r ysgol oherwydd gofynion eu swyddi e.e. oriau gwaith hyblyg y tadau sy mewn swyddi proffesiynol.

Mae gan rieni plant dosbarth gweithiol ddiddordeb yn addysg eu plant, ond nid ydynt yn teimlo'n gyfforddus yn mynd i'r ysgol oherwydd agwedd rhai athrawon. Dywed

Blackstone a Mortimore bod yr athrawon yn cynrychioli awdurdod ac efallai oherwydd profiadau plentyndod y rhieni, nid ydynt yn teimlo'n gyfforddus yn cyfarfod â nhw.

Mae Blackstone a Mortimore hefyd yn dyfynnu tystiolaeth o'r Astudiaeth Genedlaethol o Ddatblygiad Plentyn ('National Child Development Study') a darganfu bod 89% o blant dosbarth canol a dim ond 75% o blant dosbarth gweithiol yn mynychu ysgol lle oedd system dda o gyswllt rhwng yr ysgol a'r rhieni felly roedd yn haws i rieni dosbarth canol gadw mewn cysylltiad â chynnydd addysgol eu plant.

Hyd yn oed os yw Douglas yn gywir, bod amrywiaethau mawr yn bodoli ym mhatrymau magu plant rhwng dosbarthiadau cymdeithasol, mae'r farn bod patrymau ymddygiad a osodir yn ystod plentyndod yn cael effaith tymor hir, wedi cael ei gwestiynu.

Mewn erthygl bwysig 'Personal Change in Adult Life, dengys Howard S Becker bod ymddygiad yn gallu newid yn sydyn yn dibynnu ar y sefyllfa. Dadleua ef fod newid mewn patrymau ymddygiad yr oedolyn, yn dangos yn glir nad yw gwerthoedd pobl yn fynegiant o batrymau a sefydlwyd yn ystod plentyndod.

Os yw Becker yn gywir, mae cyrhaeddiad addysgol yn adlewyrchiad o'r hyn sy'n digwydd yn y dosbarth yn hytrach na'r hyn sy'n digwydd yn y cartref.

Mae ymchwil mwy diweddar yn rhoi rhywfaint o gefnogaeth i honiad Douglas mai diddordeb rhieni yw'r ffactor allweddol wrth egluro gwahaniaethau dosbarth mewn cyrhaeddiad addysgol. Archwiliodd Leon Feinstein (2003) ddata o ddau astudiaeth hydredol - The National Child Development Study a'r British Cohort Study. Roedd o yn honni mai'r ffactor pennaf a oedd yn cyfrif am wahaniaethau dosbarth mewn cyrhaeddiad oedd diddordeb rhieni yn addysg eu plant. Serch hynny, fel yn astudiaeth Douglas, roedd diddordeb y rhieni yn cael ei fesur gan athrawon. Ac mae'r un feirniadaeth yn parhau - nid yw rhieni dosbarth gweithiol yn teimlo'n gyfforddus mewn sefydliad dosbarth canol fel ysgol, ac efallai bod eu swyddi (oriau hir a gwaith shifft) yn gwneud ymweliadau i'r ysgol yn anodd.

Mae gan blant sydd yn cael eu geni i'r dosbarth canol neu y dosbarth uwch fantais cynhenid. Mae eu diwylliant nhw yn agosach i ddiwylliant yr ysgol, felly maent yn fwy tebygol o lwyddo.

Cafodd y syniad o 'gyfalaf diwylliannol' ei ddatblygu gan Pierre Bourdieu (1977). Mae hwn yn cyfeirio at y ffordd mae'r dosbarth canol a'r dosbarth uwch yn berchen ar gyfalaf diwylliannol yn ogystal â chyfalaf ariannol. Mae ganddynt fantais dros y dosbarth gweithiol oherwydd bod eu rhieni yn rhoi cefnogaeth iddynt o safbwynt llyfrau a darllen, llenyddiaeth, celf, cerddoriaeth glasurol, drama, ymweliadau ag amgueddfeydd, theatrau a galeriau. Mae'r diwylliant hwn yn agosach i ddiwylliant yr ysgol, ac felly maent yn fwy

Deall diwylliant (Addysg)

tebygol o lwyddo. Mae'r llwyddiant hwn wedyn yn amlygu ei hun drwy gymwysterau uchel, swyddi uchel, cyflogau uchel a safonau byw uchel.

Mae Alice Sullivan (2001) wedi edrych ymhellach ar theori Bourdieu. Ceisiodd fesur cyfalaf diwylliannol mewn pedair ysgol gyfun yn Lloegr. Rhoddodd holiadur i ddisgyblion Blwyddyn 11 i geisio darganfod pa lyfrau a phapurau newydd a ddarllenent a hefyd pa raglenni teledu oeddent yn gwylio. Roedd canlyniad ei hymchwil yn cadarnhau bod yna gysylltiad cryf rhwng cyfalaf diwylliannol rhieni a'u plant. Mae hyn yn cefnogi honiad Bourdieu bod cyfalaf diwylliannol yn cael ei ddysgu gan rieni yn y cartref.

Aeth Sullivan ymlaen wedyn i gymharu cyfalaf diwylliannol y disgyblion gyda'u canlyniadau TGAU. Eto, roedd yna gysylltiad amlwg. Roedd y rhai a gafodd y canlyniadau gorau yn berchen ar gyfalaf diwylliannol uchel ac roedd y disgyblion gyda'r canlyniadau gorauhefyd yn dod o deuluoedd o gefndiroedd proffesiynol, yn cadarnhau ymhellach, felly, y cysylltiad rhwng cyfalaf diwylliannol a dosbarth cymdeithasol.

Cwestiynau

1. Beth oedd barn Douglas?
2. Beth oedd y feirniadaeth arno?
3. Eglurwch beth yw cyfalaf diwylliannol.
4. Beth yw tystiolaeth Bourdieu a Sullivan?

Allweddeiriau

- Cymdeithasoli cynradd - yr hyn a ddysgir yn gyntaf i blentyn gan ei rieni.
- Cyfalaf diwylliannol - yr wybodaeth y mae diwylliant yn ei chyfrif yn werthfawr.

Gwerthusiad o'r drafodaeth

Bwledi

- Mae addysg gyfadferol yn targedu plant mewn rhai ardaloedd oedd yn methu yn y system addysg.
- Rhoddwyd arian i geisio cyfoethogi bywydau a diwylliant hynny oedd heb y gefnogaeth honno gartref.
- Yn ôl rhai, roedd hyn yn anwybyddu y prif reswm dros fethiant addysgol, sef amddifadedd materol.
- Tra bydd tlodi yn parhau, bydd plant o deuluoedd incwm isel o dan anfantais mawr yn y system addysg.

Testun

Mae theori amddifadedd diwylliannol wedi cael dylanwad sylweddol ar bolisiau addysgol yn y 1960au a'r 1970au. Os oedd plant wedi eu hamddifadu yn ddiwylliannol, yna dylent gael rhyw fath o iawndal i wneud i fyny am yr amddifadiad hwn. Dyma'r meddwl y tu ol i addysg gyfadferol. Y syniad oedd targedu plant mewn rhai ardaloedd oedd yn methu yn y system addysg.

Rhoddwyd arian i geisio 'cyfoethogi' bywydau a diwylliant y plant hynny oedd heb y gefnogaeth hon yn gynhenid gartref. Gwnaethpwyd ymdrech i godi safonau llythrennedd yn ogystal a phrofiadau diwylliannol.

Deall diwylliant (Addysg)

Beirniadwyd y syniad hwn yn llym gan Bernstein gan fod hyn yn rhoi bai ar y plentyn a'i gefndir gartref yn hytrach na gwendidau'r system addysg a gwendidau'r ysgolion. Hefyd yn ôl Morton a Watson (1973), mae yn anwybyddu y prif reswm dros fethiant addysgol sef amddifadiad materol. Tra bydd tlodi yn parhau, bydd plant o deuluoedd incwm-isel o dan anfantais mawr yn y system addysg.

Pan ddaeth y Blaid Lafur i rym yn 1997 sefydlwyd 'Education Action Zones' (EAZs) i geisio tacio'r broblem. Yma roedd ardaloedd dan anfantais yn cael cymorth ychwanegol. Roedd yr ysgolion a'r Awdurdodau Addysg Lleol yn cyd-weithio gyda busnesau lleol a diwydiannau eraill. Cyfranwyd mwy o arian iddynt.

Roedd y polisiâu Llafur hyn yn rhoi mwy o bwyslais ar wendidau'r ysgolion. Ond yn ôl Curtis (2003) roedd rhai o'r canlyniadau yn siomedig.

Mae'r cynlluniau diweddaraf, sef 'Excellence in Cities' yn helpu mwy o ysgolion ac yn cyfrannu mwy o arian. Yn ôl Mc Knight et al. (2005), mae'r cynllun hwn wedi arwain at beth gwelliant.

Cwestiynau

1. Beth yw addysg gyfadferol?
2. Beth oedd barn Bernstein a Morton a Watson?
3. I ba raddau gall addysg wneud yn iawn am amddifadedd materol yn y cartref?

Allweddeiriau

- Amddifadedd diwylliannol - nid oes mynediad at gyfalaf diwylliannol gan rai pobl, felly nid ydynt yn ennill yr wybodaeth ddiwylliannol sy'n gymorth i lwyddo.
- Addysg gyfadferol - addysg sydd yn targedu plant mewn rhai ardaloedd oedd yn methu yn y system addysg.
- Amddifadedd materol - bod heb y pethau materol y mae eu hangen arnoch i gael safon byw dda.

I ba raddau mae ffactorau materol yn esbonio lefelau cyrhaeddiad gwahanol o fewn grwpiau cymdeithasol?

Rhagymadrodd

Bwledi

- Dywed rhai cymdeithasegwyr bod y plant sydd yn tyfu i fyny mewn tlodi gyda'r lefelau isaf o gyrhaeddiad addysgol.
- Mae llai o'r dosbarth gweithiol yn mynd ymlaen i addysg bellach ac i addysg uwch.

Testun

Dywed rhai cymdeithasegwyr bod y plant sydd yn tyfu i fyny mewn tlodi gyda'r lefelau isaf o gyrhaeddiad addysgol. Mae'r bwlch rhwng y tlawd a gweddill y boblogaeth yn mynd

Deall diwylliant (Addysg)

yn fwy fel mae'r plant yn mynd yn hŷn.

Mae llai o'r dosbarth gweithiol yn mynd ymlaen i addysg bellach ac i addysg uwch. Ceisiodd nifer o gymdeithasegwyr egluro hyn drwy gyfeirio at ddiffygion ym mywydau'r plant yma sef amddifadiad diwylliannol ac amddifadiad materol.

Mae plant sydd yn byw mewn tlodi o bosib yn byw mewn tai bychan, oer efallai. Mae rhai plant yn gorfod gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau i gael arian ac felly nid oes amser i wneud gwaith cartref a pharatoi at arholiadau. Nid oes yna arian i brynu adnoddau i gefnogi addysg y plentyn, fel llyfrau, cyfrifiadur, gwersi ychwanegol ayyb., ac mae nifer o'r plant yn dewis gadael ysgol yn 16 oed. Mae tlodi hefyd yn gallu arwain at salwch a allai arwain at golli ysgol.

Yn ôl Smith a Noble (1995), mae yna nifer o gostau cudd ychwanegol yn rhan o gynnal addysg plant e.e. gwisg ysgol, cinio ysgol, teithio i'r ysgol, offer angenrheidiol, teithiau addysgiadol gan yr ysgol ayyb. Mae yna gynlluniau wedi bodoli ar hyd yr amser i roi cefnogaeth ariannol i rai teuluoedd sydd yn ffitio criteria arbennig e.e. cinio ysgol am ddim, cymorth ariannol i brynu gwisg ysgol, ond yn y blynyddoedd diwethaf fe welwyd torriadau ariannol yma hefyd.

Gwelwyd rhai Awdurdodau Addysg Lleol yn torri nôl ar eu grantiau yn y 1990au.

Mewn ysgolion tlawd, fe welwyd yr ysgolion yn gofyn am gyfraniadau ariannol sylweddol ar gyfer teithiau ysgol, gan y disgyblion eu hunain, gan nad oedd yr ysgolion eu hunain gyda'r arian angenrheidiol. Os nad oes arian ar gael yna bydd y plant yn colli allan ac felly nid yw eu profiadau addysgol mor gyfoethog a disgyblion eraill.

Cwestiynau

1. Beth yw'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol?
2. Beth yw barn Smith a Noble?

Allweddairiau

- Amddifadedd diwylliannol - nid oes mynediad at gyfalaf diwylliannol gan rai pobl, felly nid ydynt yn ennill yr wybodaeth ddiwylliannol sy'n gymorth i lwyddo.
- Amddifadedd materol - bod heb y pethau materol y mae eu hangen arnoch i gael safon byw dda

Astudiaethau Hydredol

Bwledi

- Mae astudiaethau hydredol yn olrhain pobl dros gyfnod o amser.
- Awgryma canlyniadau astudiaethau hydredol nad yw plant tlawd yn gwneud cystal yn yr ysgol.
- Mae'n bosibl bod bechgyn yn cael eu heffeithio fwy gan dlodi na merched.
- Dim ond yn ddiweddar y mae polisi'r Llywodraeth wedi'i anelu at dlodi, ac mae esboniadau am dangyflawni yn dueddol o ganolbwytio ar ysgolion.

Testun

Deall diwylliant (Addysg)

Cynhaliwyd nifer o astudiaethau arhydol i gyflawniad addysgol. Mae astudiaeth hydredol yn un a gynhelir dros gyfnod o amser. Mae cymdeithasegwyr yn olrhain perfformiad plentyn dros gyfnod o amser. Mae llawer o'r astudiaethau arhydol hyn yn cynnwys miloedd o gyfranogion ac yn olrhain cyfranogwyr tros nifer o flynyddoedd. Yn ôl pob tebyg, y mwyaf adnabyddus ohonynt yw'r Astudiaeth Carfan Ieuencid (YCS). Mae pob un o'r astudiaethau arhydol hyn yn tueddu i awgrymu bod tlodi yn ffactor mewn tangyflawni addysgol. Nid yw hyn yn ddarganfyddiad newydd. Yn y 1960au cynnar roedd J W Douglas yn cysylltu tlodi a thangyflawni yn ei astudiaeth 'The Home and School'. Yn Astudiaeth Genedlaethol Datblygiad Plant (1969) ac (1974) a oedd yn olrhain yr holl blant a anwyd yn ystod un wythnos benodol ym 1958, roedd y cyswllt rhwng tlodi a thangyflawni yn eglur ac yn amlwg. Ym 1980, cyhoeddodd Halsey, Heath a Ridge yr astudiaeth arhydol enwog *Origins and Destinations*. Yma eto, nodwyd tlodi yn ffactor hanfodol mewn methiant ysgol.

Nododd Fernstein (2003) y gellid rhagweld yn gywir gyflawniad addysgol unigolyn 26 oed yn ôl cyfoeth yr aelwyd pan oedd y plentyn yn 22 mis oed. Roedd bylchau eisoes yn ymddangos mewn lefelau cyflawniad plant o gefndiroedd cymdeithasol gwahanol cyn iddynt gael eu dannedd sugno i gyd. Roedd Dorling (2007) yn cymharu 1968 â 2005. Awgrymodd fod cynnydd wedi bod mewn anghydraddoldeb ym Mhrydain, ac felly mewn rhai ardaloedd mae mwy na hanner yr holl aelwydydd yn dlawd.

Darganfu Kingdon a Cassen (2007) fod ffactorau sy'n gysylltiedig â thlodi fel cinio ysgol am ddim, lefelau isel o gyflogaeth teuluoedd, teuluoedd un rhiant a chymwysterau gwael rhieni oll yn cyfrannu at gyflawniad isel. Mae plant difreintiedig hefyd yn mynychu ysgolion sy'n isel o ran eu safle yn nhablau'r cynghrair. Ystyrient mai un ateb i'r broblem i fyfyrwyr nad oeddent yn cyflawni'n dda oedd ariannu ysgolion yn well a chael cymarebau uwch o athrawon i ddisgyblion. Mae nifer o astudiaethau wedi awgrymu bod effeithiau tlodi yn fwy difrifol i fechgyn nag ydynt i ferched, oherwydd y ffordd y mae bechgyn yn creu syniadau am wrywdod.

Er gwaethaf cysondeb y canlyniadau hyn o astudiaethau hydredol, mae'r llywodraeth wedi parhau i fynd i'r afael â phroblemau tangyflawni trwy lunio polisiâu a anelir at newid ysgolion ac athrawon. At ddibenion gwerthuso, dylid nodi o dan y Dde Newydd bod ariannu ysgolion yn cael ei gyfeirio at ysgolion a oedd yn cyflawni'n dda iawn gan y credwyd os byddai ysgolion yn cystadlu am arian byddent i gyd yn gwella.

Cwestiynau

1. Beth yw astudiaeth hydredol?
2. Pam bod astudiaethau hydredol yn ddefnyddiol mewn cymdeithaseg?

Allweddairiau

- Astudiaeth arhydol - astudiaeth sy'n digwydd dros gyfnod o amser.

Mynediad i Addysg

Bwledi

- Mae nifer o blant dosbarth gweithiol yn gorfod gadael ysgol yn 16 oed.
- O 1990 ymlaen newidiwyd y drefn o ariannu addysg uwch.

Deall diwylliant (Addysg)

Testun

Mae nifer o blant dosbarth gweithiol yn gorfod gadael ysgol yn 16 oed oherwydd bod angen arian arnynt. A hyd yn oed i'r rhai hynny sydd wedi aros ymlaen i'r chweched dosbarth, mae cost addysg uwch erbyn hyn tu hwnt i llawer ohonynt. Nid ydynt yn gallu fforddio mynd i ddyled drwy gael benthyciadau oherwydd nid yw eu rhieni yn gallu rhoi cymorth ariannol iddynt.

Yn ôl Smith a Noble (1995) roedd rhai Awdurdodau Addysg Lleol yn cynnig 'Educational Maintenance Allowances' a 'Further Education Awards'. Ond dim ond y myfyrwyr tlotaf un oedd yn cael y rhain, ac nid oedd pob Awdurdod Addysg yn cynnig yr un faint a'i gilydd. Felly mae llawer o fyfyrwyr sy'n haeddu cynhaliaeth ond nid ydynt yn gymwys i dderbyn cymorth ychwanegol.

Yn 2002 cyhoeddodd y Llywodraeth Brydeinig eu bod yn cynnig grant o £30 yr wythnos o fis medi 2004 ymlaen i helpu rhai myfyrwyr 16 - 19 oed i aros ymlaen ym myd addysg. Roedd y cynllun hwn eisioes wedi bod yn beilot mewn rhannau o'r wlad a'r dystiolaeth yn dangos bod cynnydd o 6% yn y rhai oedd yn aros ymlaen ym myd addysg. (DfES 2002). Yn anffodus, bychan oedd y grantiau hyn, ac felly nid oedd digon o gymorth ar gael i bawb oedd yn dymuno parhau a'u addysg.

Mae yna dipyn o ddadlau wedi bod yn ystod y blynyddoedd diwethaf ynglŷn ag ariannu addysg uwch. Rhwng 1962 a diwedd yr 1980au, y wladwriaeth oedd yn talu ffioedd pob myfyriwr mewn addysg uwch ac roedd grantiau ar gael ar gyfer costau byw i rai oedd yn ffitio'r criteria(roedd rhain yn 'means-tested'). Ond fel oedd mwy o fyfyrwyr yn dewis mynd ymlaen i addysg uwch, roedd y Llywodraeth yn chwilio am ffyrdd o dorri lawr ar y costau cynyddol hyn.

O 1990 ymlaen pendefynodd y Llywodraeth Geidwadol rewi'r grant a chynigiwyd benthyciad i'r myfyrwyr fel cymorth ychwanegol. Rhwng 1990 a 1998 cynyddodd gwerth y benthyciad a torrwyd gwerth y grant.

O 1999 ymlaen cafodd y Blaid Lafur wared ar y grantiau - yr unig ddewis erbyn hyn oedd benthyciadau. Yn ôl Merryn Hutchings (2003) roedd y Llywodraeth yn cyfiawnhau y newidiadau hyn drwy ddweud y byddai graddedigion yn ennill mwy o gyflog na rhai di-radd, ac felly roedd yn gwneud synnwyr iddynt orfod cyfrannu at eu haddysg eu hunain. Mae'r rheolau yn wahanol yng Nghymru a Lloegr. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig mwy o Gefnogaeth i fyfyrwyr o Gymru sy'n dewis astudio mewn prifysgol yng Nghymru

Cwestiynau

1. Pam nad ydy pob disgybl ysgol yn gallu mynd ymlaen i addysg uwch?
2. Beth oedd polisi'r Blaid Geidwadol?
3. Beth oedd polisi'r Blaid Lafur?

Allweddeiriau

- Grant - arian a roddir gan y Llywodraeth i dalu am addysg uwch.
- benthyciad - arian sydd yn cael ei fenthycio gan y Llywodraeth i dalu am addysg uwch, ond mae'n rhaid ei dalu yn ôl.

Deall diwylliant (Addysg)

- Ffi - arian a hawlir am gwrs addysg uwch.

Y Cyfoethog

Bwledi

- Mae gan rieni dosbarth canol incwm teuluol uwch.
- Mae hyn yn arwain at mwy o adnoddau.

Testun

Yn gyffredinol, fe ellir dweud po uchaf yw dosbarth cymdeithasol plentyn, yna mae'r incwm teuluol yn uwch. Mae hyn, felly, yn galluogi'r plentyn i gael nifer o fanteision addysgol fel cartref cynnes cyfforddus gyda ystafelloedd mawr braf a desg i weithio arno, cyfrifiadur gyda mynediad i'r Rhyngwrdd, llyfrau pynciol a chyfeirlyfrau gwersi preifat ychwanegol pe dymunir a'r dewis o ysgol breifat hyd yn oed.

Mae gan rieni dosbarth canol hefyd y dewis o symud tŷ i dalgylch ysgol maent yn ddewis ar gyfer eu plant - ysgol dda gyda chanlyniadau arholiadau uchel.

Cwestiynau

1. Sut mae incwm teuluol uwch yn helpu disgybl o gefndir dosbarth canol?

Allweddeiriau

- Dalgylch yr ysgol - y rhai sydd yn byw o gwmpas yr ysgol.

Gwerthusiad

Bwledi

- Mae yna rhai cymdeithasegwyr yn poeni bod myfyrwyr o gefndiroedd tlawd yn troi i ffwrdd oddi wrth addysg uwch.

Testun

Mae yna nifer o gymdeithasegwyr yn poeni bod y newidiadau i'r dull o ariannu addysg uwch yn troi myfyrwyr o gefndiroedd tlawd i ffwrdd oddi wrth addysg uwch oherwydd bod ganddynt ofn bod mewn dyled ac am nad oedd ganddynt rieni cyfoethog i helpu i dalu'r dyledion.

Dywed Claire Callender (2001) na welwyd cynnydd sylweddol yn nifer y myfyrwyr dosbarth gweithiol yn y 1990au, oherwydd diffyg cefnogaeth ariannol.

Dywed Hutchings (2003) os oedd myfyrwyr o deuluoedd incwm isel yn mynd i brifysgol, roeddent yn aml yn gorfod cael gwaith gyda'r nos er mwyn talu am eu cwrs. Byddai hyn wedyn o bosib yn cael effaith ar eu cynnydd addysgol, yn arwain efallai iddynt gael gradd is neu hyd yn oed orfod gadael y cwrs cyn y diwedd.

Cwestiynau

Deall diwylliant (Addysg)

1. Beth yw pryder nifer o gymdeithasegwyr?
2. Beth yw barn Callender?
3. Beth yw barn Hutchings?

Allweddeiriau

- Incwm - arian sy'n cael i dalu yn rheolaidd e.e. cyflog, budd-daliadau.

Ai bechgyn yw'r methiant addysgol newydd?

Rhagymadrodd

Bwledi

- Dros yr hanner can mlynedd diwethaf mae cyflawniad addysgol bechgyn wedi gwella.
- Ond mae cyflawniad merched wedi gwella'n gyflymach na bechgyn.
- Nid yw'n deg labelu bechgyn i gyd fel tangyflawnwyr.
- Mae cysylltiad agos rhwng bechgyn yn tangyflawni a dosbarth cymdeithasol.

Testun

Yn ystod yr 1960au a'r 1970au roedd cymdeithasegwyr yn bryderus am dangyflawniad addysgol merched. Erbyn yr 1990au roeddent yn fwy pryderus am dangyflawniad addysgol bechgyn.

Dros yr hanner can mlynedd diwethaf mae cyflawniad addysgol bechgyn wedi gwella. Ond mae cyflawniad merched wedi gwella'n gyflymach na bechgyn mewn rhai pynciau ar ambell lefel. Yn ôl Coffey (2001) nid yw yn deg labelu bechgyn i gyd fel tangyflawnwyr - mae rhai yn gwneud yn dda iawn.

Yn ôl Epstein et al (1998) , dim ond rhai grwpiau o fechgyn sydd yn tangyflawni. Mae cysylltiad agos rhwng bechgyn yn tangyflawni a dosbarth cymdeithasol - mae nifer o fechgyn o'r dosbarth gweithiol yn methu.

Cwestiynau

1. Beth yw'r newidiadau sydd wedi digwydd ers yr 1960au?
2. Beth yw barn Coffey ac Epstein et al.?

Allweddeiriau

- Tangyflawniad - disgybl sydd ddim yn cyrraedd ei botensial academiaidd.
- Labelu - datblygu 'barn' ynglŷn a disgybl - mae rhyngweithredwyr yn astudio labelau ystrydebol a negyddol.

Bechgyn

Bwledi

- Nid yw bechgyn yn cael eu gwthio digon gan athrawon.

Deall diwylliant (Addysg)

- Mae argyfwng gwroldeb dynion yn cyfrannu at eu tangyflawniad.
- Mae rhai bechgyn yn cael anhawster i fod yn academiaidd ac yn boblogaidd.
- Mae bwlch gender yn y canlyniadau arholiad yn mynd yn fwy yn ystod addysg uwchradd.
- Mae yna broffwydoliaeth hunan-gyflawni ymhlith rhai bechgyn.
- Mae gan ferched fwy o uchelgais erbyn hyn.

Testun

Yn ôl Mitsos a Browne (1998) nid yw bechgyn yn cael eu gwthio digon gan athrawon. Maent yn fwy tebygol o gael eu hanfon allan o'r wers oherwydd eu bod yn camymddwyn. Mae diwylliant gwrywaidd yn annog bechgyn i fod yn 'wrywaidd' a 'macho' - maent yn fwy tebygol o fod yn wrth-addysgol ac o greu is ddiwylliant gwrth-ddysgu (e.e.astudiaeth Paul Willis). Efallai bod gan rai bechgyn dosbarth gweithiol ddiffyg cymhelliant oherwydd y dirywiad yn y swyddi gwrywaidd traddodiadol - nid ydynt yn gweld pwynt gweithio'n galed os nad oes swydd addas iddynt ar y diwedd. Mae rhai bechgyn yn or-hyderus wrth ragdybio eu lefelau TGAU, a hyn yn arwain iddynt beidio gweithio ddigon caled wrth baratoi tuag atynt. Mae peth tystiolaeth yn awgrymu bod merched yn fwy tebygol o dreulio eu amser hamdden yn gwneud pethau sydd yn cyfrannu tuag at eu cyrhaeddiad addysgol e.e. darllen neu trin a thrafod. Mae merched yn fwy tebygol o ddarllen ffuglen a dyma'r math o lyfrau a ddarllenir ym mlynnyddoedd cynnar yr ysgol gynradd. Mae ganddynt fantais felly dros y bechgyn ac mae eu sgiliau llafar yn cael eu datblygu.

Dywed Mitsos a Browne bod 'argyfwng gwyoldeb' i dynion yn cyfrannu at y ffactorau hyn. Wrth i gyflogaeth merched gynyddu a swyddi traddodiadol dynion ddirywio mae yn gallu bod yn anodd i fechgyn weld eu dyfodol fel y prif enillydd cyflog yn y teulu. I rai bechgyn ifanc, mae'r dyfodol yn ymddangos yn ddi-obaith.

Yn ôl Mac an Ghaill (1994) mae rhai bechgyn dosbarth gweithiol yn ceisio delio gyda'r 'argyfwng gwroldeb' hwn drwy fabwysiadu agwedd ymosodol - diffinio gwaith ysgol fel rhywbeth merchetaidd.

Yn ôl Frosh, Phoenix a Pattman (2002), roedd y bechgyn yn eu hymchwil nhw yn cael anhawster i fod yn boblogaidd yn ogystal â bod yn llwyddiannus yn academiaidd. Roedd bechgyn a oedd yn gydwybodol ac yn academiaidd yn cael eu labelu gyda enwau homoffobig, oherwydd y cysylltiad rhwng y syniad o fod yn weithgar gyda'r syniad o fod yn ferchetaidd. Gall hyn arwain wrth gwrs at is-ddiwylliant gwrth-ysgol lle mae'r bechgyn yn gwrthod gwerthoedd cyffredinol yr ysgol.

Mae canlyniadau TGAU a chanlyniadau Cyfnodau Allweddol yn dangos bod y bwlch gender yn mynd yn fwy yn ystod addysg uwchradd, o flynyddoedd 7 i 11. Dyma'r cyfnod pryd mae bechgyn yn ceisio sefydlu eu hunaniaeth gwrywaidd, ac fe allai hynny wrth gwrs olygu gwrthod unrhyw ymddygiad neu agweddau sy'n cael eu hystyried yn fenywaidd. Mae Becky Francis (2000) wedi edrych ar y problemau mae bechgyn a merched yn eu wynebu yn y system addysg, gan ddweud bod modd i anghydraddoldeb gael effaith negyddol ar fechgyn yn ogystal a merched.

Er bod bechgyn yn hawlio mwy o sylw yn yr ystafell ddosbarth, roeddent yn fwy tebygol o gael eu beirniadu am eu hymddygiad na merched.

Pan oedd Dale Spender yn gwneud ei hymchwil hi (1983), credir bod gan bechgyn fwy o allu na merched yn y rhan fwyaf o bynciau. Erbyn diwedd yr 1990au roedd y rhan fwyaf o

Deall diwylliant (Addysg)

ddisgyblion yn credu bod cyfartaledd gallu erbyn hyn, er bod rhai yn meddwl mai merched oedd y mwyaf galluog.

Dywed Francis bod syniad y plant o'r disgybl perffaith yn amrywio rhwng merched a bechgyn. Roedd y bachgen perffaith yn ymddwyn yn dda heb darfu ar y gwersi. Roedd y ferch berffaith yn gweithio'n galed ac yn gwneud ei gwaith yn brydlon.

Roedd y bechgyn yn meddwl nad oedd raid iddynt weithio'n galed i gael marciau da mewn arholiadau, ac roedd hyn wrth gwrs yn lleihau eu siawns o lwyddiant.

Roedd eraill yn edrych yn fwy negyddol ar y sefyllfa, gan gymryd yn ganiataol nad oedd bechgyn yn mynd i wneud yn dda yn addysgol. Dywedodd un bachgen nad oedd yr athrawon yn disgwyl i'r bechgyn wneud cystal ac felly byddai'r bechgyn yn ymateb felly. Roedd yn llawer haws iddynt wyllo teledu neu chwarae pêl-droed yn hytrach na gwneud gwaith ysgol oherwydd mai dyna a ddisgwylid oddi wrthynt. Mae Francis yn dweud bod yna broffwydoliaeth hunan-gyflawni yma o safbwynt eu cyrhaeddiad addysgol - mae bechgyn yn clywed eu bod yn tangyflawni, bod merched yn gwneud yn well na nhw, felly maent yn rhoi i fyny ac yn ymddwyn fel mae disgwyl iddynt ymddwyn.

Nid oedd y merched na'r bechgyn eisiau cael eu labelu fel 'swots', ond dywed Francis bod hyn yn fwy o ofn a phroblem i'r bechgyn na'r merched oherwydd y ddelwedd wrywaidd oedd y bechgyn eisiau ei ddangos. Wrth wrthod yr ysgol a'r athrawon, roedd y bechgyn yn fwy tebygol o gael statws gan y bechgyn eraill - roeddent yn fwy tebygol o chwarae o gwmpas yn y gwersi, o siarad am bêl-droed yn hytrach na gweithio fel y dylent. Roedd diwylliant gwrywaidd felly yn dal rhai bechgyn yn ôl.

Mae Francis yn derbyn nad yw ymddygiad fel hyn yn rhywbeth newydd, ond dywed hi eu bod yn cryfhau ac yn cael effaith ar berfformiad bechgyn. Efallai mai lleiafrif yn unig sy'n cael eu heffeithio, ond mae'r niferoedd yn ddigon i effeithio ar berfformiad cyfan bechgyn a merched mewn arholiadau.

Dywed Francis hefyd nad oes yna unrhyw dystiolaeth o ragfran yn erbyn bechgyn yng nghwricwlwm yr ysgol nag yn y deunyddiau dysgu, ond mae bechgyn yn parhau i hawlio mwy o sylw'r athrawon na'r merched. Un peth ddaeth i'r amlwg oedd bod gan ferched fwy o uchelgais erbyn hyn, a bod hyn yn gymhelliant iddynt gael y cymhwysterau angenrheidiol er mwyn cael dewis y gyrfa maent eisiau ei ddilyn.

Cwestiynau

1. Beth yw barn Mitsos a Browne?
2. Beth yw tystiolaeth Becky Francis?
3. Sut oedd proffwydoliaeth hunan-gyflawni yn effeithio ar y bechgyn?
4. Pam bod rhai bechgyn yn tangyflawni?

Allweddeiriau

- Argyfwng gwroldeb- dynion yn pryderu nad oes ganddynt rôl pendant bellach; oherwydd newidiadau cymdeithasol ac economaidd.
- Is-ddiwylliant gwrth-ysgol - mae rhai disgyblion mewn ysgolion yn creu grwpiau cyfeillgarwch sy'n ymwrthod ag amcanion a gwerthoedd yr ysgol gyfan

Deall diwylliant (Addysg)

- Proffwydoliaeth hunan-gyflawni - yng nghyd-destun addysg, rhagfynegir rhywbeth ac yna, oherwydd iddo gael ei ragfynegi, mae'n dod yn wir neu mae'n cael ei orfodi i ddod yn wir.

Grwpiau Ethnig

Bwledi

- Mae gan y grwpiau ethnig hynny sydd gyda'r cyrhaeddiad isaf y nifer uchaf o bobl yn y dosbarthiadau cymdeithasol isaf hefyd.
- Mae nifer o fechgyn African-Caribbeaidd yn tangyflawni yn y system addysg.
- Mae gwahaniaethau ethnig mewn cyrhaeddiad addysgol yn newid dros gyfnod o amser.
- Mae sawl rheswm dros wahaniaethau ethnig mewn cyrhaeddiad.

Testun

Yn 2000 cyhoeddodd OFSTED (Office for Standards in Education) adroddiad o'r enw 'Education Inequality'. Roedd wedi ei seilio ar wybodaeth o 118 awdurdod addysg lleol a dangosodd fod pob grŵp - gwyn a lleiafrifoedd ethnig - wedi gwella eu cyrhaeddiad addysgol. Er hyn mae gwahaniaethau sylweddol rhwng cyrhaeddiad gwahanol grwpiau ethnig (Gillborn & Mirza 2000)

Mae'n bwysig nodi bod gan y grwpiau ethnig hynny sydd gyda'r cyrhaeddiad isaf - Pakistanis, Bangladeshis a African-Caribbeaidd - y nifer uchaf o bobl yn y dosbarthiadau cymdeithasol isaf hefyd (Demack et al. 2000)

Mae nifer o fechgyn African-Caribbeaidd yn tangyflawni yn y system addysg. Mae eu cyflawniad yn dirywio yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol uwchradd o'u cymharu â chynnydd cyffredinol ymhlith disgyblion o gefndiroedd ethnig eraill.

Mae Tony Sewell (1997) yn awgrymu nifer o resymau: mae nifer o'r bechgyn wedi cael eu magu gan fam sengl ac felly nid oes ganddynt fodel rôl gwrywaidd i ddangos disgyblaeth. Maent yn fwy tebygol o gael eu dylanwadu gan eu cyfoedion. Mae rhai gangiau yn rhoi pwyslais ar wrywdod a gwrthwynebu awdurdod, fel athrawon a'r heddlu. Mae'r diwylliant gwrywaidd hwn yn cael ei atgyfnerthu gan y cyfryngau - gyda gangsta rap a ffasiynau hip hop. Maent yn cael eu derbyn gan eu grŵp cyfoedion ond maent wedi cael eu gwrthod gan eu tadau, prif-lif cymdeithas a'r system addysg sydd yn aml yn ymddangos yn hiliol iddyn nhw. Yn yr ysgol, mae'r diwylliant gwrywaidd hwn yn gallu arwain at wrthod awdurdod athrawon, gwrthod gwerth cymwysterau addysgol a gwrthod normau a gwerthoedd sydd yn cael eu trosglwyddo gan yr ysgolion.

Mae nifer yn beirniadu Sewell am dynnu'r sylw oddi wrth gymdeithas hiliol a'r system addysg sydd yn sefydliad hiliol.

Nid yw gwahaniaethau ethnig mewn cyrhaeddiad addysgol yn aros yr un fath - maent yn newid dros gyfnod o amser. Erbyn i ystadegau ar wahaniaethau ethnig gael eu cyhoeddi maent tua dwy neu dair blynedd yn hwyr. Mae'n bwysig cofio hyn. Nid oes un eglurhad i wahaniaethau ethnig mewn cyrhaeddiad - fel arfer mae sawl rheswm.

Cwestiynau

Deall diwylliant (Addysg)

1. Beth yw patrwm addysgol bechgyn African-Caribeaidd?
2. Beth yw barn Tony Sewell?

Allweddeiriau

- Tangyflawni - disgybl sydd ddim yn cyrraedd ei botensial academiaidd.

Merched

Bwledi

- Mae blaenoriaethau merched wedi newid.
- Mae addysg yn bwysig iddynt bellach.
- Mae ffeministiaeth wedi tynnu sylw at hawliau merched.
- Sefydlwyd nifer o raglenni cyfleoedd cyfartal.

Testun

Mae yna newid mawr wedi bod ym myd gwaith gyda mwy o ferched yn gweithio erbyn hyn. Mae hyn yn dangos bod newid agwedd wedi bod.

Cymharodd Sue Sharpe agwedd merched dosbarth gweithiol yn Llundain rhwng yr 1970au a'r 1990au - erbyn yr 1990au roedd blaenoriaethau'r merched wedi newid. Roedd addysg yn bwysig iddynt ac roeddent eisiau swydd a gyrfa a ffordd i gynnal eu hunain yn ariannol.

Mae ffeministiaeth wedi tynnu sylw at hawliau merched ac fe sefydlwyd nifer o raglenni cyfleoedd cyfartal er mwyn ceisio denu merched i feysydd a oedd cyn hyn yn cael eu hystyried yn feysydd gwrywaidd.

Gwelwyd newid ym myd gwaith gyda dirywiad yn y swyddi gwrywaidd traddodiadol a chynnydd mewn swyddi yn y sector gwasanaeth a oedd yn apelio yn fawr at ferched.

Cwestiynau

1. Pam bod merched wedi gwella?

Allweddeiriau

- Ffeministiaeth - y farn fod cymdeithas yn batriarchaidd ac yn cael ei reoli gan ddynion.
- Sector gwasanaeth - swyddi sy'n cynnig gwasanaeth yn hytrach na chynhrchu e.e gofalu am blant.

Panic Moesol

Bwledi

- Mae rhai cymdeithasegwyr yn honni mai panic moesol yw'r pryder am dangyflawniad bechgyn.
- Y cyfryngau sydd wedi camarwain y cyhoedd drwy chwyddo'r problem.
- Nid oes llawer o dystiolaeth bod merched yn cael mwy o lwyddiant na bechgyn yn y lefelau uchaf.

Deall diwylliant (Addysg)

Testun

Mae Weiner, Arnot a David (1997) yn honni mai panic moesol yw'r pryder yma am dangyflawniad bechgyn, neu efallai ffordd o ymateb i'r safbwyntiau ffeministaidd ar addysg. Maen nhw'n dweud mai'r cyfryngau sydd wedi camarwain y cyhoedd drwy chwyddo'r broblem. Yn hytrach na dathlu llwyddiant merched ym myd addysg, mae'r sylw yn troi at diffyg llwyddiant bechgyn.

Mae'r cyfryngau yn gweld tangyflawniad bechgyn dosbarth gweithiol Du fel problem arbennig oherwydd ei fod yn debygol o arwain at ddynion dosbarth gweithiol du di-waith yn troi at drosedd. Mae hyn yn cysylltu tangyflawniad bechgyn gyda'r syniad am fodolaeth yr is-ddosbarth.

Mae Weiner et al. yn derbyn bod peth newidiadau wedi cymryd lle - mae mwy o ferched yn llwyddo mewn arholiadau TGAU ac mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol wedi dylanwadu ar wahaniaethau gender o safbwynt dewis pynciau i fyny at 16 oed. Ond mae'r gwahaniaethau mewn dewis pynciau yn amlygu ei hun yn Lefel 'A' ac mae bechgyn yn parhau i gael graddau uwch na merched yn Lefel 'A'. Mae Weiner et al. yn dweud mai tangyflawniad merched sydd yn amlwg yn y system addysg yn y lefelau uwch, nid tangyflawniad bechgyn. Yr hyn a geir yma yw ymateb ('backlash') yn erbyn llwyddiant merched. Mae dynion yn gweld merched yn fygythiad, ac yn ofni eu cydraddoldeb.

Mae gan Weiner et al. ddadl gref. Nid oes llawer o dystiolaeth bod merched yn cael mwy o llwyddiant na bechgyn yn y lefelau uchaf. Ond, serch hynny, mae rhai bechgyn yn ei chael yn anodd i gael llwyddiant yn y system addysg.

Yn ôl y Dde Newydd mae'r cynnydd mewn teuluoedd un rhiant a graddfeydd ysgariad yn rhannol gyfrifol, oherwydd diffyg model rôl i'r bechgyn. Maent yn beio unigolion a theuluoedd am y dirywiad moesol yng ngwerthoedd cymdeithas. Yn gyfrifol hefyd mae penderfyniad cynyddol merched i fod yn annibynnol yn economaidd.

Rhaid rhoi gwahaniaethau gender mewn cyrhaeddiad addysgol mewn perspectif. Mae gan dosbarth dros bump gwaith yr effaith ar gyrhaeddiad addysgol o'i gymharu a gender, ac ethnigrwydd ddwy waith yr effaith (Gillborn & Mirza 2000)

Mae tangyflawniad bechgyn yn aml yn cael ei chwyddo. Mae perfformiad addysgol bechgyn yn gyffredinol wedi gwella - yn TGAU, Lefel A ac addysg uwch. Y gwahaniaeth yw bod perfformiad addysgol merched wedi gwella'n gyflymach. Serch hynny, mae tystiolaeth yn dangos bod nifer sylweddol o ddisgyblion dosbarth gweithiol yn arbennig bechgyn, ddim yn rhan o'r gwelliant hwn.

Cwestiynau

1. Beth yw panic moesol?
2. Beth yw barn Weiner et al.?
3. Beth mae'r Dde Newydd yn ddweud?

Allweddeiriau

- Panic moesol - gallu y cyfryngau i gyfleu digwyddiad neu grŵp cymdeithasol fel bygythiad i werthoedd sylfaeonl y gymdeithas.

Deall diwylliant (Addysg)

- Tangyflawniad - disgybl sydd ddim yn cyrraedd ei botensial academaidd.
- Is-ddosbarth - cysylltir gyda safbwynt y dde newydd. Grŵp cymdeithasol sydd islaw'r dosbarth gweithiol ac yn or-dibynnol ar fudd-daliadau.